www.ecorwyddfa.co.uk

# ECO'r Wyddfa

£1

RHIF 488
Mawrth 2021




## Ar daith i'r dyfodol

A ninnau mewn cyfnod clo, mae'n braf meddwl fod cynlluniau ar droed i weddnewid y ffordd y bydd pobol yn symud drwy'r ardal yn y dyfodol. Mae sawl stori ar thema trafnidiaeth yn y rhifyn hwn o Eco'r Wyddfa, gan gynnwys eitemau am barcio, beicio, gwefru a chylchfan. Ewch i dudalen 16+17 i ganfod mwy...



## Elin Enfys

### Chwilio am Elin Enfys




Mae 8 llun o Elin yr arth fach yn gwneud ystumiau gwahanol yn cuddio rhwng straeon rhifyn yma'r Eco. Allwch chi ddod o hyd iddyn nhw?

## Yn y rhifyn hwn:


- **Pennaeth newydd Amgueddfa Lechi Cymru** tud 20
- **Sefydlu Elusen Dyffryn Peris** tud 9
- **Is-etholiad Cyngor Gwynedd Ward Llanrug** tud 25
- **Cyfrifiad 2021** tud 27
- **Clwb Ieuenctid LHDT+** tud 27
- **Pigion BroWyddfa360** tud 3


**a mwy!**

www.ecorwyddfa.co.uk
ECO'r Wyddfa

CYMRAEG

## SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith**
Tony Elliott
Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU.
07798 552238.
tonyelliott17@yahoo.com

**Golygydd Chwaraeon**
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Golygydd yr Ifanc**
Marged Rhys
marged_3@hotmail.com

**Ffotograffwr**
Gwyndaf Hughes
Hafan, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug.
01286 672221.
glasgoed@hotmail.com

**Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu**
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838.
hefsj@aol.com

**Trefnydd Ariannol**
Goronwy Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug. 01286 674839.

**Trefnydd Gwerthiant Post**
Olwen Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug. 01286 674839.

**Trefnydd Bwndelu**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 01286 870292.

## GOHEBWYR PENTREFI

**Bethel**:
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Brynrefail a Chwm y Glo:**
Lowri Prys Roberts
Godre'r Coed, Brynrefail. 01286 870580.
lowri-prys@supanet.com

**Caeathro:**
Lowri Ceiriog
4 Erw Wen, Caeathro.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

**Deiniolen:**
Nia Gruffudd
3 Hafod, Clwt y Bont. 01286 870394.
glyn.gruffudd@btinternet.com

**Dinorwig:**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 01286 870292.

**Llanberis:**
Eifion Roberts
Swn y Gwynt, Llanberis. 01286 870740.
eifionroberts132@btinternet.com

**Llanrug:**
Eryl Roberts.
Peris, 56 Glanffynnon, Llanrug.
01286 675384.

**Nant Peris:**
Kate Pritchard
01286 675384.
econantperis@hotmail.com

**Penisarwaun:**
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

**Waunfawr:**
Iola Gruffydd
iolallew@hotmail.co.uk

# Panel Golygyddol

Mae yna dîm o olygyddion yn cefnogi'r gwaith o gyhoeddi'r Eco, sef Beca Brown, Nesta Elliott, John Pritchard, Bethan Richardson, Mared Roberts a Marged Rhys.

Anfonwch eich straeon, newyddion, erthyglau a lluniau ar e-bost i ecorwyddfa@gmail.com os gwelwch yn dda, neu newyddion pentref yn uniongyrchol at y Gohebwyr Pentrefi isod.

Rydym yn croesawu erthyglau hyd at 600 gair o hyd ac mae angen anfon unrhyw luniau atom fel ffeiliau ar wahan.

Os hoffech drafod eich cynnwys, mae croeso i chi gysylltu â Nesta Elliott ar 07825 586658.

## Llythyrau

Annwyl ddarllenwyr,

Fel rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol, mae Urdd Gobaith Cymru wedi – ac yn parhau – i wynebu'r cyfnod mwyaf heriol yn ei hanes o ganlyniad i bandemig Covid-19.

Rydym wedi gorfod colli hanner ein gweithlu (dros 160 staff) ac yn rhagweld colled incwm o oddeutu £14M dros y ddwy flynedd nesaf. Oni bai am gefnogaeth sylweddol gan Lywodraeth Cymru bydden ni wedi bod mewn sefyllfa llawer mwy trychinebus, a'r gefnogaeth ariannol ychwanegol wedi ein galluogi, yn syml, i gadw ein pennau uwchben y dŵr a sicrhau y bydd Urdd yn gallu goroesi.

Mae hi wedi bod yn gyfnod o bryder mawr, ac mae gwaith caled iawn o'n blaenau o hyd. Ond, rwyf yn hynod falch ein bod fel mudiad wedi gallu arall-gyfeirio rhai o'n gwasanaethau er mwyn cadw cysylltiad gyda'n haelodau.

Mae ein gwersylloedd wedi agor eu drysau i gynnig cefnogaeth i blant a phobl ifanc bregus, rydym wedi sefydlu cyfleodd ddigidol yn ein meysydd Ieuenctid, Chwaraeon a'r Celfyddydau, yn parhau i redeg ein gwasanaeth Prentisiaethau, wedi llwyddo i hyrwyddo Neges Heddwch ac Ewyllys i gynulleidfa o dros 37 miliwn, wedi cynnal Eisteddfod T llwyddiannus ac wedi creu a chynnal digwyddiadau rhyngwladol rhwng aelodau'r Urdd a phobl ifanc Alabama a'r Iwerddon.

Braint oedd cael hefyd cydweithio gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru wrth lansio ein hymgyrch codi arian, '**Het i Helpu**', cyn y Nadolig. Mae'r gefnogaeth a ddangoswyd i'r Urdd yn ein cymunedau ar draws Cymru (a thu hwnt!) wedi codi ein calon ni fel mudiad, a fedraf i ddim diolch ddigon i bawb sydd wedi'n cefnogi.

Mae'r Urdd wedi meithrin cenedlaethau o blant a phobl ifanc i fod yn falch o'u gwlad, yn agored i'r byd ac yn ymgorfforiad o'n hiaith a'n diwylliant ac ar drothwy ein canmlwyddiant rydym yn edrych i'r dyfodol gydag agwedd bositif ac hyderus. Mi ddaw'r Urdd drwy'r cyfnod yma, yn gryfach ac yn barod i weithredu er budd plant a phobl ifanc Cymru unwaith yn rhagor.

Diolch o waelod calon i chi am yr holl gefnogaeth.

Cofion gorau,
Siân Lewis
Prif Weithredwr

Os hoffech wneud cyfraniad tuag at yr Urdd gallwch wneud hynny drwy ymweld â'n gwefan (**urdd.cymru/cyfrannu**), neu drwy anfon siec yn daladwy i **Urdd Gobaith Cymru** at:

Adran Ariannol Urdd Gobaith Cymru
Gwersyll yr Urdd Glan-llyn
Llanuwchllyn
Y Bala
Gwynedd
LL23 7ST

## Dyddiadau i'w cofio...

| Rhifyn | Dyddiad cau derbyn cynnwys (ail ddydd Gwener yn y mis) | Dyddiad cyhoeddi (pedwerydd dydd Gwener yn y mis) |
|---|---|---|
| Ebrill | 12 Mawrth | 26 Mawrth |
| Mai | 9 Ebrill | 23 Ebrill |
| Mehefin | 14 Mai | 28 Mai |

## Rhoddion

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

£4 Di-enw, Llanberis
£5 Mrs Ann Jane Owen Deiniolen
£10 Mr Neville a Mrs Jane Thorman
£50 Er cof am Doreen Roberts, 50 Maes Padarn, Llanberis, a Dewi Roberts, 16 Dolafon, Cwm y Glo
£20 Mrs Mair Owen, Llandaf
£6 Mrs Gwerfyl McCarthy, Lerpwl
£10 Ivy Wright, 2 Tan-y-Buarth, Bethel
£6 R E Williams, Cranleigh
£6 Mrs Anna Sidebotham, Whalley Bridge
£10 Brian ac Eirlys Sharpe, Ael y Bryn, Bethel
£10 Ann Thomas, Trefordden, Waunfawr
£10 Irene a John Roberts, Pant Teg, Waunfawr
£10 Gwenda Griffith, Trefeddyg, Waunfawr

## ECO'r Wyddfa

Mae'n siŵr eich bod wedi sylwi ar wedd newydd y rhifyn hwn. Mae'r diolch am y gweddnewidiad i'r dylunydd a'r cysodydd newydd, Elgan Griffiths. Rydym yn falch o gael Elgan yn rhan o dîm yr Eco. Mae'n brofiadol tu hwnt yn y maes dylunio, gyda phrofiad helaeth â phapurau bro hefyd. Diolch i Gwyndaf Rowlands, Grid76, am gysodi Eco'r Wyddfa am flynyddoedd lawer. Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau'r wedd newydd, yn ogystal â chynnwys y papur, yn y rhifynnau i ddod.

Sylwch hefyd bod ambell i eitem ar goll o'r rhifyn hwn, megis newyddion ysgolion a newyddion pentref. Gyda gweithgareddau cymdeithasol ar stop oherwydd y cyfyngiadau a'r ysgol wedi bod ynghau ers dechrau'r tymor, mae'n ddealladwy nad oes gymaint i'w adrodd. Mae diolch mawr i'r athrawon sydd wedi parhau i ddysgu'r plant o'u cartrefi a chynhyrchu adnoddau lu yn ystod y cyfnod hwn - ddim yn dasg syml o bell ffordd! Edrychwn ymlaen at dderbyn hanesion yn fuan, a bydd y plant nôl yn yr ystafelloedd dosbarth cyn bo hir.


# Pigion Bro Wyddfa 360

**Ydi Dyffryn Peris yn un o ardaloedd cerddorol pwysicaf Cymru? gan Gethin Griffiths, Sôn am Sîn**

Heb gyfraniad yr ardal hon, mi fuasai diwylliant cerddorol Cymru wedi bod yn wahanol iawn. Mae Alffa a'u 6 miliwn o ffrydiadau ar Spotify, Derwyddon Dr Gonzo a'u perfformiadau egnïol sydd bellach yn chwedlau modern ac Y Bandana a'u hawch i drefnu ac i chwarae mewn gigs a theithiau o amgylch y wlad wedi bod yn rhan greiddiol o stori'r diwylliant a'r diwydiant dros y pymtheng mlynedd diwethaf.

Cyn y cyfnod hwnnw, gyda cherddoriaeth bop acwstig yn mynd drwy rhyw fath o adfywiad, roedd Brigyn a'u dylanwadau gwerinol a cherddoriaeth fachog Vanta yn ddau enw canolog mewn gigs ar hyd a lled Cymru.

Roedd y band Gogz, a newidiodd eu henw i The Heights yn ddiweddarach, yn enw addawol a oedd yn troi clustiau ambell i berson dros y ffin a thu hwnt. Aeth Owain Ginsberg o'r band ymlaen i ffurfio Masters in France a We Are Animal, gan dderbyn llwyddiant yn benodol gyda'r Masters wrth iddyn




nhw ymddangos ar hysbyseb IKEA yn 2012.

Yn fwy diweddar, mae artistiaid ifanc fel Magi Tudur a Dienw wedi dechrau gwneud marc gwirioneddol yn gerddorol gan ddod yn rai o enwau mwyaf addawol y blynyddoedd sydd i ddod.

Fodd bynnag, er yr allbwn sylweddol hwn, dydi'r ardal ddim yn derbyn yr un math o sylw ac ambell ardal arall yng Nghymru am ei chyfraniad i'r byd cerddorol. Y tu draw i fynydd Elidir Fawr, mae pentref Bethesda'n aml yn cael ei defnyddio fel model o sîn leol oedd ar adegau gwahanol yn yr wythdegau a'r nawdegau, yn grochan o fandiau, gigs, gwyliau a strwythurau diwydiannol fel labeli a chylchgronau. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym ni wedi gweld ardaloedd fel Dyffryn Conwy a threfi fel Caerfyrddin yn denu'r un math o sylw, ac wrth gwrs, faint o weithiau ydym ni wedi clywed trafodaethau am artistiaid a lleoliadau cerddorol Caerdydd?

Rydym ni'n aml iawn yn trafod y berthynas rhwng cerddoriaeth a lleoliad ar flog a phodlediad Sôn am Sîn. Mae cymeriad a nodweddion lleoliad penodol yn gallu ymddangos mewn nifer o ffyrdd yn gerddorol, boed hynny'n fwriad gan yr artist neu beidio. Fodd bynnag, efallai bod y

**Bro Wyddfa 360**

cwestiwn yn un fwy cymhleth wrth drafod sain Dyffryn Peris. Oes 'na un yn bodoli? …..

**I ddarllen gweddill yr erthygl ac i wrando ar y rhestr gerddoriaeth ewch i www.browyddfa.360.cymru**




Derwyddon Dr Gonzo

## Yn ystod y misoedd aeth heibio…

- Iechyd. Mae'n anodd credu, ond ymhlith y cleifion gafodd driniaeth gan y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol yn ystod 2020 roedd rhai yn dioddef o frathiadau crocodeil, eraill o losgiadau gan echdoriadau folcanig, a thri oherwydd iddynt gael eu taro gan fellt.
- Gwastraff. Wedi'r Nadolig mae 600,000 cilometr o oleuadau addurno yn cael eu lluchio, a hynny o gartrefi yn unig. Mae'r cyfan yn ddigon i oleuo pob ffordd gyhoeddus drwy'r wlad.
- Hinsawdd. Mae posibilrwydd i lyn mwyaf y byd – Môr Caspian – ostwng ei lefel o 18 metr a'i arwynebedd o draean; a hynny o ganlyniad i anweddu sy'n deillio o gynhesu byd-eang.
- Marchnata. Dangosodd ymchwil diweddar fod cwsmeriaid yn fwy tebygol o brynu nwyddau gan werthwyr gyda barf.
- Kernowite. Mae crisialau o liw gwyrdd a gafodd eu darganfod mewn creigiau yng Nghernyw wedi eu henwi ar ôl yr iaith Gernyweg.
- Anifeiliaid anwes. Ar gyfartaledd gwariwyd £16 ar anrhegion Nadolig i gŵn, cathod a phob math arall o anifail anwes – cyfanswm drwy'r Deyrnas Unedig o tua £750 miliwn.
- Ymddiheuriad. Mae tref Lier yng Ngwlad Belg wedi cyhoeddi ymddiheuriad i Cathelyne van den Bulcke oherwydd iddi gael ei llosgi fel gwrach bron i 500 mlynedd yn ôl.
- Cnau. Mae ymchwil yn awgrymu fod bwyta llond dwrn o gnau yn wythnosol yn lleihau'r posibilrwydd o gael dementia. Ni chyhoeddwyd gwybodaeth ynglŷn â pha fath o gnau.
- Bardd. Amanda Gorman – 22 mlwydd oed – oedd y bardd ieuengaf erioed i berfformio'i gwaith "The Hill we Climb" yn seremoni sefydlu Joe Biden yn Arlywydd yr UDA.
- Gôl. Torrodd Tom King, golgeidwad tîm pêl-droed Casnewydd, record byd am sgorio gôl o 96.01 metr yn erbyn Cheltenham (gydag ychydig o gymorth gan y gwynt).
- Oumuamua. Dyna'r enw a roddwyd ar y "peth" a deithiodd drwy ein system solar yn 2017 ar gyflymder o 85,000 milltir yr awr. Bellach, mae'r Athro Avi Loeb o Brifysgol Harvard yn amau mai rhywbeth wedi ei greu ar ffurf hwyl oedd y "peth". Ond pwy a'i gwnaeth ac o ble y cafodd ei anfon? Dyna'r cwestiwn sy'n achosi dadlau ymysg gwyddonwyr ac astronomegwyr ar hyn o bryd.
- Baw Wombat. Dyma'r unig anifail yn y byd sydd efo baw chwe-ochrog. Erbyn hyn, yn dilyn astudiaeth fanwl o berfedd nifer o rai a fu farw, mae gwyddonwyr yn gwybod sut mae'r baw chwe-ochrog yn cael ei gynhyrchu. Ond pam? Mae rhai naturiaethwyr yn credu mai dull o farcio tiriogaeth ydyw, a gan fod y wombat yn byw ar dir creigiog, mae siâp y baw yn ei atal rhag rowlio oddi ar y creigiau.
- Cactws. Faint o'r planhigion pigog hyn sy'n bosib eu cario ar eich corff? Bron i fil os mai merch o'r enw Wenqin Li yw eich enw. Cafodd ei dal yn smyglo 947 o'r planhigion i mewn i Seland Newydd o China ym mis Mawrth y llynedd; y mwyafrif ohonynt wedi eu strapio i'w chorff, ac eraill wedi eu stwffio i mewn yn ei sanau. Roedd wyth ohonynt ar restr planhigion prin y byd, ac yn werth £5,200. Cafodd gosb o 100 awr o wasanaeth cymunedol. Does dim gwybodaeth am yr hyn ddigwyddodd i'r cactws.
- Ynys Ynni. Mae ynys cymaint o ran arwynebedd a 18 cae pêl-droed i'w adeiladu yn y môr ger Denmarc. Bydd yn cynnwys 200 o dyrbinau gwynt fydd yn cynhyrchu trydan i'r wlad, ac yn cael ei werthu i wledydd eraill. Y gobaith yw y bydd wedi ei chwblhau erbyn 2033.
- Twnnel. Mae Estonia yn bwriadu parhau â chynllun i adeiladu twnnel rheilffordd fydd yn cysylltu eu prifddinas, Tallin, â Helsinki, prifddinas Y Ffindir. Bydd yn 55 milltir o hyd. Ar hyn o bryd mae'n rhaid defnyddio cwch fferi i groesi Gwlff Ffindir – siwrnai o awr a hanner. Ugain munud fydd y daith wedi gorffen y twnnel.
- Alcohol. Cynhelir Cwpan Pêl-droed y Byd yn Qatar yn 2022. Mae Qatar yn wlad Fwslimaidd llym iawn, ac yn gwahardd alcohol. Ond bydd alcohol ar werth ym mhob stadiwm pêl-droed. Pres yn siarad?

**Dafydd Whiteside Thomas**

# TUDALEN YR IFANC



# Gwrachod Heddiw

***Cyfweliad gyda Mari Elen, cynhyrchydd podlediad sy'n dathlu merched Cymru. Mae hi'n ddramodydd ac yn frodor o Harlech, sydd bellach yn byw yng Nghwm-y-glo.***

***Beth yw Podlediad (podcast)? Sgwrs neu gyfweliad sain sy'n fwy ymlaciol a phersonol na rhaglen radio. Ewch i ypod.cymru i ddarganfod podlediadau Cymraeg o bob math.***

***Pam podlediad?***
O'n i 'di sgwennu blogs o'r blaen. Weithiau dwi'n teimlo efo sgwennu erthyglau a sgwennu blogs...ti'n gorfod 'sgwennu be mae pobl yn ei ddweud a dydy o ddim mor driw i'r person.

Dwi'n rili mwynhau siarad efo pobl, mwynhau dysgu mwy am bobl. Mewn rhywbeth fatha podcast mae'n rili hawdd i wrando arno. Mae'n neis jest clywed lleisiau, mae'n rhywbeth reit gysurus.

***Ysbrydoliaeth am y podlediad?***
O'n i'n edrych mewn i wrachod yn iawn, a gwrando fwy ar yr hanes, ag o'n i'n dechrau cwestiynu be oedd gwrach. Wnaeth ffrind agos i mi, Gwennan, decstio fi yn ystod y lockdown yn gofyn sut o'n i a wnes i ddweud mod i ddim yn teimlo'n grêt am fod hi'n lleuad lawn. A wnaeth hi tecstio'n dweud,

*'O wel, dyna sy'n gwneud chdi'n wrach mor wych, am fod chdi'n ymateb i'r lleuad'.*

Wedyn wnaeth yr holl bethau 'ma wneud i mi feddwl – pwy ydy gwrachod heddiw?

***Ffeminist, Beyonce a dewrder***
Dwi'n dod o deulu efo lot o ferched ond tra o'n i'n tyfu fyny o'n i 'rioed yn gweld fy hun yn ffeminist wnes i 'rioed gwestiynu'r peth.

Pan o'n i yn y brifysgol wnes i ddechrau rili galw fy hun yn ffeminist.

Os ma dynas yn dweud ei barn ma hi'n cael ei galw'n *aggressive*, pan ma dyn yn gwneud, jest rhannu ei farn o mae o. Neu pan ma dynas yn teimlo'n emosiynol dros rywbeth mae hi unai'n *hysterical* neu'n rhy emosiynol, ond ma dyn jest yn sensitif, sy'n bositif ar eu hochr nhw.

Mae gen i ddau o feibion rŵan. On i wastad yn meddwl bod ffeminyddiaeth yn rhywbeth am ferched ond mae o hefyd lot i wneud efo dynion a'r ffordd dan ni'n magu eu persbectif nhw tuag at ferched.

***Fel rhan o'r podlediad mae Mari yn cyfweld â nifer o ferched sy'n gwneud gwaith diddorol – o 'ddoula' i ddarlunwyr – yn cynnwys Mared Llywelyn, Gwennan Mair, Efa Lois, Nia Llinos, Bethan Gwanas, Mama Lleuad, Hanna Hopwood a Llio Maddocks.***






Dydy lleisiau'r merched dwi'n siarad efo nhw ddim yn cael eu clywed gymaint a hynny yng nghyfryngau Cymru. Felly on i isio siarad efo fwy o'r merched '*behind the scenes*'... ddim mor enwog, ond yn llwyddiannus ag yn cŵl.

***Mae Mari'n rhestru rhai o'r merched cryf sydd yn ysbrydoliaeth iddi, yn cynnwys y gantores Beyonce, yr actores a sgriptwraig Michaela Coel, a'r ddarlithwraig Brené Brown.***

Wnes i wylio rhaglen ar Netflix efo Brené Brown ac wnaeth hi ddweud '*ma rhaid chdi fod yn vulnerable i fod yn ddewr*'. Ag o'n i fatha '*wow*', pob tro ti'n rhoi dy hun allan yna ti'n bod yn ddewr ag os oes rhywun efo rwbath negyddol i ddweud amdana chdi... paid a cymryd sylw o be mae nhw'n ei ddweud. Mae'n rhaid i chdi anghofio'r *white noise* 'na sydd yn tynnu chdi lawr achos dydy'r bobl yna ddim yn bwysig. Rhaid chdi beidio poeni am be ma pobl yn feddwl ohona chdi achos dydy'r pobl sy'n caru chdi fwya ddim yn meindio be ti'n wneud ... cyn belled dy fod ti'n bod yn driw i chdi dy hun. Wnes i ddysgu *loads* gan y dair ddynas yna mewn cyfnod byr iawn yn ystod lockdown.

***Pam gwrachod?!***
Be dwi'n caru ei glywed ydy rhywun sy'n gwneud fi deimlo fatha *'ok, so dwi ddim ben fy hun'*. Mae gan bawb stori maen nhw eisiau rhannu, da ni gyd wedi cael ein gwneud efo storis, dyna sy'n gwneud ni'n bobl, dyna sy'n gwneud ni'n sbeshial.

Oedd 'na stori roedd Nain yn ei ddweud wrtha i fod ei hen Nain hi'n darllen dail te achos bod hi'n wrach. Un diwrnod wnaeth hi wrthod darllen dail te rhyw ddynas. Roedd hi'n gwbod bod hi [y ddynes] am farw'r wythnos wedyn a doedd hi ddim eisiau dweud wrthi hi. Wnaeth y ddynas farw'r wythnos wedyn. A o'n i fatha...

*'Waw, sgwn i os dwi'n wrach?!'*

***Mae'r gyfres Gwrachod Heddiw ar gael ar y gwefannau sain arferol, ewch ati i wrando!***

***Gallwch wrando ar y cyfweliad yn ei gyfanrwydd ar www.browyddfa.360.cymru***

***Gwernan Brooks a Nel Pennant Jones***






**Cais am Ddosbarthwyr**
Oherwydd bod nifer o ddosbarthwyr yr Eco yn ardal Llanberis a Nant Peris am roi'r gorau i'r gwaith, buaswn yn falch petai unrhyw ddarllenwr, neu ddarllenwraig, yn fodlon ymgymryd â'r gwaith o'r rhifyn nesaf ymlaen. Os medrwch ein cynorthwyo, neu os oes arnoch angen mwy o wybodaeth, cysylltwch â mi, Eifion Roberts, ar 01286 870740. Diolch o galon i'r rhai a fu, ac sydd, yn dosbarthu.

**Diolch**
Er Cof Am Mrs Doreen Roberts, 50 Maes Padarn a Mr Dewi Roberts, 16 Dôlafon, Cwm y Glo. Hoffai Derek, Delyth, Kenny a'r teulu ddiolch o galon am yr holl alwadau ffôn, negeseuon ar Facebook a'r holl gardiau a dderbyniwyd. Fe fydd y rhoddion a dderbyniwyd yn cael eu rhannu rhwng Ward Ogwen, Ysbyty Gwynedd a mudiad Marie Currie a fu mor dda i ni fel teulu. Diolch i Feddygfa a Nyrsys Cymunedol Llanberis am eu gwasanaeth hefyd.

Bu farw Doreen ar Dachwedd 1, gyda'i hangladd, o'i chartref i Fynwent Llanrug ar Dachwedd y 9fed. Bu farw Dewi ar Dachwedd yr 11eg, gyda'i angladd ar Dachwedd 17eg hefyd ym Mynwent Llanrug.

**Eglwys Sant Padarn**
Oherwydd y sefyllfa Covid19 diweddaraf, mae Eglwys Sant Padarn wedi cau unwaith eto hyd nes clywir yn wahanol. Ond mae gwasanaethau Zoom yn cael eu cynnal bob bore Sul am 10, nos Sul am 6 ac yna bob bore Mercher am 10 o'r gloch. Mae croeso i unrhyw un ymuno â'r gwasanaethau hyn, ond mae angen cysylltu â'r Parch Allan Wilcox ar afcwilcox@gmail.com neu ar 01286 872281 er mwyn derbyn y ddolen a'r cyfrinair drwy e-bost.

SAMARIAID
Llinell ffôn Gymraeg
116123
neu
0808 164 0123
Ar gael bob nos rhwng
7 pm ac 11 pm

**Clwb Peldroed Llanberis: Enillwyr Clwb 400, Ebrill – Nadolig 2020.**
Ebrill: £50.00 - Len Jones; £30.00 - Osian Thomas
Mai: £50.00 - Pat Saynor; £30.00 - John Williams
Mehefin: £50.00 - Gwilym Roberts; £30.00 - Iwan Roberts
Gorffennaf: £50.00 - Helen Parry; £30.00 - Kevin Griffith
Awst: £50.00 - Dilys Roberts; £30.00 - John Williams
Medi: £50.00 - Roger Jones; £30.00 - Alan Jones
Hydref: £50.00 - Heddwyn Jones; £30.00 - Ceinwen Williams
Tachwedd: £50.00 - John Williams; £30.00 - Kevin Griffith
Nadolig: 1. £100:00 - Lucy Francis; 2. £80.00 - John Williams; 3. £40.00 - Iris Davies; 4. £20.00 - Brian Wakeham

**Capel Coch**
Ers i'r cyfnod clo diweddaraf ddod i rym ar Ragfyr 19, ni chynhaliwyd oedfaon yn y Capel. Byddwn yn ail ddechrau mor fuan â phosibl pan fydd amgylchiadau'n caniatáu. Yn y cyfamser, mae Oedfa'r Ofalaeth yn cael ei chynnal trwy gyfrwng Zoom am 5.00 o'r gloch bob nos Sul dan arweiniad y Gweinidog, y Parchg John Pritchard. Cysylltwch â'r Gweinidog (**01286 872390 / john.cilfynydd@btinternet.com**) i gael y ddolen neu'r côd ar gyfer ymuno â Zoom.



Mae'r Gweinidog hefyd yn arwain yr oedfa a ddarlledir gan Gapel Tanycoed, Llanrug ar Youtube yn rheolaidd. Mae'r oedfa honno i'w gweld ar sianel You Tube 'Capel Tanycoed' bob Sul, gyda'r sawl sydd i fod i wasanaethu yn y Capel yn arwain yr oedfaon.

Mae *Gronyn* yn dal i gael ei gyhoeddi a'i ddosbarthu bob Sul. Mae modd darllen *Gronyn* ar wefan yr Ofalaeth unrhyw bryd, ac mae croeso i chi wneud hynny. Ewch i **www.gronyn.org**

**Ysgol Sul**
Mae Ysgol Sul Capel Coch yn parhau ar Zoom bob bore Sul, ond ei bod wedi ehangu erbyn hyn i fod yn Ysgol Sul Ardal Eco'r Wyddfa dan nawdd Cynllun Efe. Susan Williams sy'n arwain yr Ysgol Sul. Mae croeso i unrhyw blentyn oed cynradd i ymuno a ni. Cysylltwch â'r Gweinidog (**01286 872390 / john.cilfynydd@btinternet.com**) i gael y ddolen neu'r côd ar gyfer ymuno â Zoom.



Gwirfoddolwyr Pentref Taclus Llanberis

## Pentref Taclus

Mae gwirfoddolwyr Pentref Taclus Llanberis wedi bod yn brysur yn hel spwriel, dosbarthu bagiau baw ci ac wedi bod yn planu bylbiau cenhinen pedr ers cyn y Nadolig. Er gwaetha'r Covid mae'r aelodau yn gwneud y gweithgareddau ers ddechrau'r pandemig trwy fynd allan ar ben ei hunain mwy neu lai, ond nid fel criw ar fore Sul, dim allan mor aml wrth gwrs am nad oes cymaint o sbwriel o amgylch y dyddiau hyn. Rydym o hyd yn gofyn am fwy o wirfoddolwyr i ddod i helpu, mae pob teclyn ar gael yn ogystal â siacedi "high vis" felly os y mynwch ddod i helpu cysylltwch ag un o'r criw.





**Tywydd Waunfawr ar-lein**
Mae Gethin Pritchard, Maes Gwynedd, wedi sefydlu gorsaf dywydd yn ei ardd. Ond nid unrhyw hen orsaf dywydd mohoni ond un fedr pawb edrych arni dros y we. Mae Gethin yn amgylcheddwr ifanc a gwybodus. Meddai Gethin "Dwi'n hoffi bod yn rhan o brosiect i ddysgu mwy am y tywydd. Mae'r data yn ein helpu i ddeall a dadansoddi tywydd yn fwy trylwyr yn lleol a thrwy'r byd".

Cewch chwilio am y tywydd eich hun, pob dydd, pob mis neu pob blwyddyn. Rhowch gynnig arni!

https://www.wunderground.com/dashboard/pws/ICAERN6/graph/2021-01-9/2021-01-9/monthly

**Rhaglen Cefn Gwlad o Waunfawr**
Os ydych yn gwylio rhaglen Cefn Gwlad ar S4C mi welsoch Aled Taylor, Dôl Erddi yn sôn am 'Fy Nghefn Gwlad i'. Deallaf bod y criw ffilmio wedi gorfod rhoi'r gorau i'r ffilimio ar y diwrnod cyntaf oherwydd tywydd garw (rhywbeth rydan ni wedi bod yn gyfarwydd iawn ag o yn ddiweddar!) ond wedi llwyddo ar yr ail ymdrech. Mi rwyt ti'n edrych fel 'pro' o flaen y camera Aled!

**Ar y Newyddion**
Rhai wythnosau yn ôl bellach, gwelwyd Kayliegh, merch Roy ac Eirwen, Rhes Glynafon, ar Newyddion S4C, BBC a Sky. Mae Kayleigh yn fferyllydd yn Ysbyty Maelor Wrecsam, a gwelwyd hi yn derbyn y pecyn cyntaf o'r dôs brechlyn Covid i Gymru.

**Brechlyn Covid i drigolion Waunfawr**
Braf clywed bod cynifer o gleifion Meddygfa Waunfawr wedi derbyn brechlyn erbyn hyn. Diolch yn fawr iawn i'r holl staff sydd ynghlwm â sicrhau bod y brechlyn yn cael ei roi i bobl yr ardal. Mae pawb yn canmol y trefniadau ac yn naturiol yn falch iawn o'i dderbyn yn eu tro.

**Dathlu Penblwyddi**
Bu dathlu yn Tan y Fron fis Rhagfyr wedi i Rob Jones gyrraedd carreg filltir nodedig – 80 oed. Yn anffodus daeth y cyfnod clo diweddaraf i darfu ar drefniadau i ddathlu efo'r teulu, ond dwi'n siwr y byddwch yn sicrhau bydd dathliad teilwng rywdro eto.

Hefyd, roedd Gwenda Griffith, Trefeddyg yn dathlu pen-blwydd arbennig fis Ionawr. Pen-blwydd hapus i chi'ch dau.

**Dymuniadau Gorau**
Dymuniadau gorau i chi Ann Thomas, Treforfan, yn dilyn eich cyfnod yn yr ysbyty yn diweddar, rydym yn cofio'n annwyl atoch.

**Cydymdeimlo**
Rydym yn cydymdeimlo â theulu John ac Irene, Pant Teg, gafodd ddwy brofedigaeth o fewn dyddiau i'w gilydd. Bu farw Jean, chwaer Irene ym Mhen Llŷn, chwaer y bu Irene a John yn garedig tu hwnt efo hi ar hyd y blynyddoedd. Yna, bu farw mam John yn Sir Fôn a hithau mewn oedran mawr. Rydym yn cydymdeimlo'n diffuant iawn â chi yn eich colled.

**Cyhoeddi Llyfr**
Mae Duncan Brown, Gwelfor, wedi cyhoeddi llyfr cyn y Nadolig ar bwnc sy'n agos iawn at ei galon, sef newid hinsawdd a'r amgylchedd. Mae'r llyfr yn cynnwys detholiad o ysgrifau difyr a phwysig, mae'n werth ei ddarllen.

Duncan hefyd sydd y tu ôl i sefydlu ac ysgrifennu y rhan fwyaf o'r wybodaeth ar dudalen Wicipedia Waunfawr.

**Wici-Weun**
Wyddoch chi bod tudalen wybodaeth am bob pentref yng Nghymru ar y Wicipedia Cymraeg? Mae rhai yn llawnach na'i gilydd wrth reswm ond mae tudalen Waunfawr yn adlewyrchu diddordeb llawer o drigolion neu gyn-drigolion y Weun yn eu cynefin. Ewch i fan hyn i weld beth sydd wedi cael ei gofnodi, a beth allwch chi ychwanegu o'ch profiad eich hun: https://cy.wikipedia.org/wiki/Waunfawr?wprov=sfti1

Mae yna ddigon o wybodaeth arni ond mae yna lawer mwy sydd heb ei gofnodi eto. Felly rhowch floedd i'r Eco neu i llennatur@yahoo.co.uk os oes gennych wybodaeth am hanes y pentre yn ystod y ganrif aeth heibio.

**Her addysg ar-lein**
Does dim dwywaith mai plant a phobl ifanc yw'r rhai sydd wedi dioddef fwyaf o ganlyniad i'r pandemic, gan iddo darfu ar eu haddysg, gyrfaoedd a'u gallu i ddatblygu eu diddordebau mewn awyrgylch gymdeithasol. O ganlyniad, mae Poppy Burns, Ty Capel, wedi cynhyrchu fideo o dan y teitl 'Llysgennad Actif' sydd i'w weld ar ei thudalen facebook neu ar YouTube, sy'n ceisio esbonio pa mor heriol yw derbyn addysg yn gyfangwbl ar-lein – yn enwedig i rywun fel Poppy sy'n dilyn cwrs Celfyddydau Perfformio yng Ngholeg Menai. Rydym yn dymuno yn dda i ti at y dyfodol Poppy, gan obeithio na fydd y cyfnod yma wedi amharu'n ormodol ar dy addysg.

Rydym yn dymuno'n dda yn yr un modd i bob person ifanc yn y pentref sy'n ceisio paratoi ar gyfer arholiadau gan wynebu cymaint o ansicrwydd.



**Gwirfoddoli i lanhau sbwriel**
Diolch i Siôn Williams, Bryn Golau am ei waith yn casglu sbwriel o amgylch y pentref. Mae Sion wedi gwirfoddoli i wneud hyn fel rhan o'i waith Bagloriaeth Cymraeg yn y Chweched Dosbaeth. Diolch i chdi Sion a dal ati – mae'n syniad ardderchog.

**Croeso i'r Pentref**
Rydym yn falch o groesawu teulu newydd i 1 Gwrt Cae Glas – dyna ni y tai i gyd yn llawn rwan, gyda theuluoedd ifanc lleol ym mhob un, dymuniadau gorau i chi i'r dyfodol, Richard, Charlotte, Hari, a'r babi newydd Neli-Wyn.

Hefyd, mae Carol a Bryn wedi symud i fyw ac wrthi'n adnewyddu 1 Pen y Bont. Maent yn symud yma o Gaernarfon, croeso cynnes i chi.

**Capel y Waun**
Ers y cyfnod clo mae aelodau a chyfeillion Capel y Waun wedi cael gwahoddiad i ymuno mewn cyfarfodydd Zoom. Mae'r gwahoddiad hwnnw yn parhau i fod yn agored i unrhyw un sydd am ymuno am 10 o'r gloch ar foreau Sul. Mae'r cyfrinair i'r cyfarfodydd i'w gael ond i chi gysylltu gyda'r Parch. Anna Jane neu Eurwyn Trefeddyg ar 650 347.

**Plaid Cymru**
Mae cryn ansicrwydd os bydd etholiadau Senedd Cymru yn cymryd lle ym mis Mai 2021 ai peidio, ond mae'r aelodau'n brysur yn sicrhau bod pawb o fewn eu teuluoedd, eu cymdogion a'u ffrindiau wedi cofrestru i bleidleisio (gan gynnwys pobl ifanc dros 16 oed), a hynny drwy bleidlais bost.

**Diolchiadau**
Dymuna John, Irene a theulu Pant Teg ddiolch o galon am eich caredigrwydd a'ch cefnogaeth wedi colli Nain Sir Fôn (mam John) yn 97 oed. Hefyd, diolch o galon i ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau a chyfraniadau dderbyniwyd i gofio am chwaer sbesial iawn, Jean. Bydd hiraeth mawr ar ei hôl.

Hefyd hoffai Ann Thomas, Treforfan a'r teulu, ddiolch yn fawr am y cardiau a'r rhoddion dderbyniwyd o ganlyniad i'w profedigaeth o golli gŵr, tad a thaid annwyl fis Hydref.

Dymuna Gwenda Griffith, Trefeddyg, ddiolch o galon am yr holl gardiau a chyfarchion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar.



**Llongyfarchiadau**
Mae Huw Trefeddyg wedi ei benodi yn Rheolwr ar gangen Farmers Marts ( R.G Williams) yn y Bala. Fe fydd Huw yn ymgymryd â gwaith Asiant Tir drwy ogledd Cyhmru yn ogystal â gweithio ym marchnadoedd Da Byw Bala a Dolgellau. Mae Huw yn Syrfewr Siartredig Cefn Gwlad, yn brisiwr cofrestredig i'r RICS ac wedi ymuno mae wedi llwyddo i fod yn Gymrawd o Gymdeithas Ganolog y Priswyl Amaethyddol gan ennill gwobr am y marciau uchaf trwy Gymru a gorllewin Lloegr. Go dda Huw!

# Ysgol Waunfawr

Er gwaethaf cau yr ysgolion unwaith eto ddechrau Ionawr, mae'r plant wedi bod yn hynod o brysur a gweithgar ond drwy gyfrwng y we a'r cyfrifiadur. Mae carfan fechan o blant gweithwyr allweddol yn mynchu'r ysgol yn ddyddiol ond gweddill y disgyblion yn aros adref i weithio.

Yn ffodus iawn, gall y disgyblion ddefnyddio Google Meet ar gyfer gweld eu ffrindiau a chael gwersi byw gan yr athrawon – profiad digon rhyfedd a newydd i bawb. Maent hefyd yn derbyn sesiynau iechyd a ffitrwydd wythnosol gan swyddogion yr Urdd – pawb yn eu cartefi yn neidio a rhedeg ac yn amlwg yn mwynhau y cyfle.


Daeth y newyddion y bydd y disgyblion Cyfnod Sylfaen yn dychwelyd i'r ysgol yn raddol diwedd mis Chwefror, a'r staff i gyd yn awyddus iawn i weld y plant wrth gwrs. Cyfnod ychydig yn hirach adref ar gyfer y disgyblion hynaf – parhau i weithio o adref a chadw yn ddiogel am y tro.

Hoffai staff yr ysgol ddiolch yn fawr i'r disgyblion a'u teuluoedd am bob cefnogaeth yn ystod y cyfnod heriol hwn. Mae'n braf iawn gweld holl luniau a thasgau y disgyblion – pawb yn amlwg yn gweithio'n galed iawn. Bu disgyblion Moel Eilio yn cerdded milltir y dydd yn ystod mis Chwefror, fel rhan o ymgyrch Byw'n Iach – milltir natur, milltir ar olwynion a milltir gyda'r teulu – da iawn pawb.


**Dyma ychydig o luniau a gweithgareddau yn ystod y tymor hyd yma.**



Disgybl Blwyddyn 4 wedi bod yn astudio Rhyfeddodau'r Byd



Disgybl Blwyddyn 4 yn astudio adar yn y gerddi yn ystod Wythnos Gwylio Adar




Disgybl Blwyddyn 4 yn mwynhau dathlu Diwrnod Santes Dwynwen



Disgybl dosbarth Derbyn yn mwynhau gwaith peintio adref



Disgybl dosbarth Meithrin yn ffurfio rhifau mewn blawd


Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar gyfer eich holl anghenion gwres a plymio
*Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser*

Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig Bethel LL55 1UW
Ffôn (01248) 674927 Symudol - 07798 74618

SPAR

Y Storfa, Spar, Llanrug
Sgwâr Llanrug
01286 673108
Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd, Cardiau Cyfarch, **Swyddfa Bost**
a chroeso cynnes
Llun - Sadwrn 6:30am - 9pm, Sul 8am - 9am


www.ecorwyddfa.co.uk
ECO'r Wyddfa

# Llên Natur

# Hen Siop Lyfrau

Roedd y siop llyfrau Cymraeg ddi-rodres yng Nghaernarfon yn gyfarwydd iawn i lawer o bobl Arfon yn 60au'r ganrif ddiwethaf. Safai ar y Bont Bridd wrth y fynedfa i'r Maes a JR Morris oedd y sylfaenydd ar ôl iddo symyd y siop o Stryd y Farchnad. Ei olynydd oedd Eric Jones, sef testun yr ysgrig hwn.

Fe ymddeolodd J.R. Morris yn 1966 ond bu Eric Jones yn ymwneud â'r siop yn 1961. *"Dwi'n cofio shop Eric Jones,"* meddai Margaret Roberts a arferai fynd yno *"ond ar ôl i mi symud o'r ardal. Fel siop J.R. Morris ar y gongl dwi'n ei gofio orau. Byw ym Methel a chofio cael pas i'r dre yn ei gar newydd a byth wedi anghofio'r arogl newydd."* Clywais straeon bod doniau llenyddol J.R. Morris yn rhagori tipyn ar ei ddoniau gyrru – calla dawo, 'mwn! Cawsom ysgrif amdano gan Mary Lloyd Williams - 'Deugain Tunnell o Lyfrau' - yn un o rifynau cynnar yr Eco. I leoli'r siop i'r rhai iau yn ein plith, hon oedd y siop a fu hyd yn ddiweddar iawn yn gwerthu carpedi a llenni. Ond Eric Jones yw ein prif destun gan fod un neu ddau o'i ddyddiaduron wedi dod i'r fei gan Brosiect Llên Natur.



Un o Gymry Lerpwl ydoedd a ymgartrefodd ym Mhontllyfni. Drwy'r siop y mae pobl bro'r Eco yn ei gofio'n bennaf. Brith iawn yw fy nghof personol o Eric Jones y dyn, ond cofiaf y siop yn eithaf da: lle tywyll ac arogl llwydni yr hen lyfrau yn treiddio drwyddo, ac Eric - y dyn tal, di-wên - fel petai'n stelcian yno yn y llwch a'r gwyll. 'Wn i ddim ai teg yw'r cof hwnnw gan lanc ifanc nad oedd yn gwirioni ar y pryd ar hen lyfrau myglyd Cymraeg, ond i gofio cymaint â hynny mae'n rhaid 'mod i yn tywyllu'r lle ambell dro. Ond beth bynnag oedd fy mherthynas brin â'r siop, 'doedd gen i affliw o ddim adnabyddiaeth bersonol o'r dyn.

Diolch i Ifanwy Rhisiart o'r Waunfawr, cyfeilles ysgol llawer mwy llengar na mi, cefais gyfle i ddarllen - a chadw am gyfnod - ddyddiadur Eric Jones, yn bennaf ar gyfer y flwyddyn 1961 (ychydig hefyd yn y 40au hwyr), sef union gyfnod fy ymwneud fwyaf â'r dre trwy'r ysgol. Cofleidiais ei ddyddiadur yn rhannol am iddo gofnodi'r tywydd pob dydd boed law neu hindda - dyna fy mhrif ddileit erbyn heddiw - ond rwyf yn ymhyfrydu hefyd yn y cyfleon bach dwi'n eu cael drwy hynny i fusnesu ar fywyd fy nghyd-ddyn - yn enwedig y rhai sy'n perthyn i gyfnodau mwy diniwed na heddiw a chyn i'r oes blastig a'r bywyd rhithiol afael go iawn arnom.

Oes, mae gennyf ddiddordeb arbennig yn nhystiolaeth bywyd pobl fy ardal os aethant i'r drafferth i roi eu cofnodion ar gof a chadw - rhoi llais i'r di-lais efallai, a chael budd fy hun ohonynt yn y broses. Cefais felly, trwy'r dyddiadur, flas ar ddyn oedd ymhell tu hwnt i fy hen stereoteip cul ohono: blas ar fywyd gwylaidd ac encilgar person yn ei gyfnod. Neu felly y tybiwn. Hyderaf y bydd y cipolwg hwn yn fodd i ysgogi cof pobl yr ardal a fynychai ei siop, a gwell fyth, cael cyfle i lenwi'r bylchau mawr yn ein gwybodaeth am ei fywyd a amlygir yma.

Mae fy stori innau amdano yn dechrau yn Selly Oak, Birmingham yn 1947 gyda sôn am Eric Jones yn mynychu dawns Sefydliad y Crynwyr yn Ionawr 1947. Yn yr haf soniodd am iddo roi help llaw efo'r gwair ("datod llwythi" meddai) yn 'Sgubor Isa' ac yn yr un gwynt bron roedd o yn "*Bromsgrove a Ffordd Wellington … ac [yn] gweld Northants yn chwarae Warwick dau ddiwrnod wedyn*". Dyna chwalu sawl stereoteip yn syth!

Roedd Eric yn amlwg yn cyfieithu pob dim – er engraifft 'Bryn Melin Wynt' (Windmill Hill), 'Ffawydd Frankley' (Frankley Beeches) ac mae ei iaith goeth a phur drwy'r dyddiadur yn bleser i'w darllen. Ai myfyriwr coleg ynteu athro yn Selly Oak oedd o ddiwedd y 40au? Yn amlwg roedd o'n teithio yn ôl a blaen. "*Yn Nhreborth Ucha'r bore*" meddai ym mis Medi 1949, "*yn dechrau gweithio yno (chwalu tail & chau clawdd) y pnawn*". Hydref 1949 fe gerddodd "*i Benygroes ben bore i roi help llaw efo'r dyrnu (lluchio 'sgubau) yn Llyngele*".

Roedd yn arddwr ac yn grwydrwr cyson a chawn gofnodion ganddo am dyfu llysiau a mynd am dro – dyna brif fyrdwn ei hanes yng nghofnodion y blynyddoedd prin oedd ar gael i mi.

Dyma ddywed Wicipedia amdano mewn egin-ysgrif:

Eric Jones oedd olynydd J.R.Morris yn y Siop Lyfrau Gymraeg enwog yn y Bont Bridd, Caernarfon. 'Llenyddiaeth, Cerddoriaeth, Drama' oedd y geiriau oedd yn ysgrifenedig uwchben ei drws. Roedd Eric Jones yn byw ym mhentref Pontllyfni. Byddai'n dal Moto Coch hanner awr wedi wyth bob bore i fynd i'w waith, ond byddai'n aml yn hwyr yn cyrraedd y bont. Ond doedd dim raid iddo bryderu. Byddai'r Moto Coch yn gofalu sefyll yn ei unfan hyd nes y byddai Eric Jones wedi cyrraedd. Roedd yn genedlaetholwr hollol ddigymrodedd. Bu farw ym 1982.

Defnyddiaf ei eiriau gwreiddiol yma gymaint a gallaf…

## Crwydro

Ei 'daith' gyntaf ar gof i ni oedd "mynd i hel mwyar duon tu ôl i'r Plaza" yn 1949, gan "*ddychwelyd heibio i Goleg Mair*" (wel, dwi'm yn cofio llwyni mwyar duon y tu ôl i'r Plaza yn fy nyddiau i!) Aeth *"efo bws i Briordy Penmon & chael trochiad yn Nhrwyn Du"*. Dro arall cofnododd forlo ar draeth Aberdesach a'r traeth hwnnw oedd ei filltir sgwâr ymhob tywydd a thymor. Ar lanw mawr cerddai yn ôl i Bontllyfni "*trwy gaeau Cae Morfa Isa a heibio i Gae Morfa Ucha*". Troeon eraill aeth *"heibio i'r Swan ac i Ben'groeslon ac yn ôl heibio i Fryn Gwydion..."* neu "*ar hyd y lôn bôst at Lyngele ac yn ôl dros lwybr Sarn & heibio i'r capel*" neu "*ar hyd y lôn bôst i'r Swan ac yn ôl heibio i Fryn Cynan Fawr a thros Bont y Cim*" neu "*Heibio i'r Wenallt a'r 2 Leuar at y Ffatri ac yn ôl heibio i Fryn Hwylfa & 'drochi cyn te*". Mae ar fy 'rhestr fwced' i gerdded ei hen lwybrau, ond pryderaf, ar ôl y blynyddoedd, y caf rhywsut fy siomi. Roedd "*'drochi cyn te*", yn y môr mae'n siwr, yn ddefod




Llun: Emrys Llewelyn

ganddo. Ar ôl storm 15ed Hydref 1949 aethai fwy nag unwaith i hel broc môr.

Cael pas i bob man fyddai Eric gan nad oedd yn yrrwr. Yn 1961 cael pas mewn Ffordyn, efo rhyw Griff, Guto neu Wil, i'r cynefin estynedig. "*Cinio yn Nebo*" efallai, a cherdded heibio Cytiau Gwyddelod, ymweld ag *"Eglwys Carnguwch a chlywed y gog ar 27ain Ebrill; "heibio i Fynytho & Phorth Neigwl i'r Rhiw (te ar lôn y mynydd) ac yn ôl heibio i Ben'groeslon, Aberdaron, Rhoshirwaun, Sarn, Botwnnog & Nanhoron"* ar Ŵyl y Grog. Dro arall aeth y cyfeillion *"heibio i Nantlle, Beddgelert & Phenmachno i Dŷ Mawr, Wybrnant & yn ôl heibio i Llanberis a'r Dre' i swper"*. Neu fe âi yng nghwmni "T*omi Herbert a'r teulu i Gricieth, trochiad, te efo Guto & yn ôl heibio i'r Wern, eglwys Penmorfa (Ty'n Llan), Braich y Sain (cefn maes golff Cricieth), Rhydbenllig, Felin & Phlas Llecheiddior, Hendre Cennin, Efail Pensarn, Hengwm & i lawr Allt Mur Sant*". Diwrnod Nadolig 1961 aeth "*I Feifod (efo Wil heibio i'r Ffatri & thros y caea at Danybryn), i ginio efo W. i ben Clogwyn & i lawr at y lôn wrth Fryn Gwna), te a swper & cherdded yn ôl*". Dyddiau da yn amlwg.

Ymddengys iddo fod yn gapelwr selog (*"i'r capel y bore a'r hwyr (Rd. Emlyn Wms. Caergybi - brodor o Waunfawr*" yn pregethu) ac fe fynychai'r cyfarfodydd gweddi. Cadwai'r fynwent yn dwt. Dywedodd yr actores Mari Gwilym o Gaernarfon bod ei mam, Mrs. H. Mary Roberts, cyn-nyrs a oedd yn byw yn Lôn-y-Wig, Pontllyfni yn y cyfnod dan sylw "*yn poeni am Eric Jones, am nad oedd o'n "edrach ar ôl ei hun nag yn b'yta'n gall*" felly mi fydda' hi'n mynd â brechdan ("*sandwej spam ne' rwbath felly*" ) efo hi i'r gwasanaeth boreol yng Nghapel Brynaerau ar y Sul – a tot o wisgi hefyd – am y byddai'r hen Eric yn fwy amal na heb "*yn cael gwasgfa*", ac yn *"meddwl gormod am ei lyfra' ac yn anghofio b'yta."*

Roedd yn genedlaetholwr pybyr o'r hen drefn. Bu'n gwerthu Y Ddraig (cylchgrawn y Blaid) *"gyn belled â Llyngele"*. Aeth i bleidleisio ar yr 8fed o Dachwedd 1961 "*yn ysgol Brynaerau, yn erbyn agor y tafarndai ar y Sul.*" Mae'n ddigon amlwg i ble aeth ei bleidlais! Cofnododd "*tynnu'r betys y bore a'u taenu ar lawr y cwt & dechrau palu ochr Manora dros y ffordd y p'nawn*" gan ychwanegu canlyniad y bleidlais: "*Môn, Arfon, Meirion, Dinbych, Maldwyn, Cerdin., Sir Gâr & Phenfro'n cau'r tafarndai ar y Sul.*" Do, daeth tro ar fyd!

Os oes gan unrhyw ddarllenydd atgofion pellach ohono, rhowch floedd…

**Duncan Brown**

# Ynni Padarn Peris

Mewn erthygl feddylgar yn rhifyn Ebrill 2013 o Eco'r Wyddfa – "Pwy bia'r chwareli?" – fe gododd Alun Hughes nifer o gwestiynau "ynglŷn â pherchnogaeth ein hadnoddau naturiol lleol ac a yw'r defnydd cywir yn cael ei wneud ohonynt er ein budd ni, drigolion bro'r Eco".

Ar ddiwedd yr erthygl mae'n sôn … "Mae afon yn llifo trwy bob pentref yng Ngwynedd. Cymaint o ddŵr yn rhedeg i'r môr. Oes ffyrdd i harnesu'r egni yma heb adeiladau a pheipiau mawr hyll? Oes posib cael niferoedd mawr o gynlluniau bychan yn elwa pob cymuned fechan fasa'n barod i fentro?"

Wel, fe fentrwyd ac o fewn y mis fe gasglodd Alun griw bychan ynghyd, a deufis yn ddiweddarach fe ffurfiwyd cwmni cymunedol – Ynni Padarn Peris – i edrych i mewn i'r posibilrwydd o greu cynllun heidro cymunedol fyddai'n gam cyntaf i wireddu'r freuddwyd. Nod y grŵp oedd "creu a chyflawni dulliau o gynhyrchu trydan 'gwyrdd' gan ddefnyddio unrhyw elw at ddibenion cymdeithasol yn Nyffryn Peris".

Cyfarfu'r grŵp yn wythnosol mewn swyddfa i fyny'r grisiau yn Pete's yn Llanberis ac edrychwyd ar sawl afon yn yr ardal, ac wedi gwneud dipyn o waith ymchwil penderfynwyd mai ar yr Afon Goch fyddai'r prosiect cyntaf. Cymerodd y broses gychwynnol yma ddwy flynedd o waith caled yn cysylltu gydag asiantaethau, banciau, contractwyr, cyfreithwyr, cynghorau a thirfeddianwyr perthnasol cyn cael y caniatâd cynllunio ym mis Medi 2015. Roedd costau adeiladu'r cynllun micro-heidro yn golygu fod angen codi hyd at £250,000, a lansiwyd cynnig cyfranddaliadau ym mis Chwefror 2016 gan wahodd y cyhoedd i brynu cyfranddaliadau, gydag isafswm o £250, yn y cynllun gyda'r addewid o dderbyn llog oddeutu 3% ar eu buddsoddiad cymdeithasol.

Codwyd yr holl arian o fewn deufis gyda thros 95% o'r buddsoddwyr – 210 ohonynt - yn lleol iawn gydag ambell i gyfraniad o du draw i glawdd Offa. Penodwyd contractwyr o Gymru i ymgymryd â'r gwaith ac fe gychwynnwyd ar y gwaith adeiladu ym Mehefin, gwaith oedd fod i gymryd oddeutu 6 mis, ond roedd yn fis Ebrill 2017 cyn cysylltu'r tyrbin i'r Grid Cenedlaethol.

Ddeufis yn ddiweddarach, ar 24 Mehefin cafwyd Diwrnod Agored llwyddiannus gyda thros 50 wedi ymgynnull ger y cwt tyrbin yn Llwyncelyn i weld Sian Gwenllian, AS, yn pwyso'r botwm i gychwyn y tyrbin – bu'n troi'n barhaus ers hynny gan gynhyrchu trydan glân a chynhyrchu elw i'r fenter a olygodd log o 3% yn flynyddol ers hynny i'r buddsoddwyr. Ar yr un diwrnod fe ddechreuwyd ar gynhyrchu trydan ar gynllun heidro cymunedol Ynni Ogwen ym Methesda gyda Hywel Williams, AS, yn pwyso'r botwm. Cafodd y diwrnod gryn sylw ar y cyfryngau.

Do, fe gymerodd y freuddwyd bedair blynedd i'w gwireddu, ond fe ddangosodd beth oedd yn bosib i griw bychan o wirfoddolwyr ei gyflawni. Buont ar ddyletswydd gyda rota drefnus a phawb hefo'i arbenigedd sy'n parhau hyd heddiw er gwaethed y sefyllfa anodd yma.

## SEFYDLU ELUSEN DYFFRYN PERIS

Un o amcanion sylfaenol ymddiriedolwyr Ynni Padarn Peris oedd sefydlu elusen a chyfrannu £10,000 y flwyddyn iddi – fe fyddai'r union swm wrth gwrs yn ddibynnol ar y tywydd!

Byddai'r arian wedyn yn cael ei weinyddu a'i rannu i brosiectau amgylcheddol lleol. Yn ystod 2019 aethpwyd ati i sefydlu Elusen Dyffryn Peris (EDP), a fyddai'n gweithredu yn annibynnol o'r Ynni.

Penodwyd naw o Ymddiriedolwyr i'r Elusen o bentrefi yn nalgylch Dyffryn Peris – Robin Parry o Lanberis yn Gadeirydd gyda Rhys ap Gwilym, eto o Lanberis, yn Drysorydd. John Grisdale o Gaernarfon yw'r Ysgrifennydd. Yr aelodau eraill yw Erin Eifion, Rhian George a Katy Williams o Benisa'r-waun a Philip Roberts o Lanrug, ac mae dau aelod o'r Ynni hefyd yn eistedd ar y bwrdd, sef George Jones a Maldwyn Peris a nhw ill dau fu'n gyfrifol am ddarparu'r dogfennau angenrheidiol ar gyfer yr Elusen, sef y Cyfansoddiad a'r Canllawiau i Ymgeiswyr … cafwyd cymorth amhrisiadwy gan Ynni Anafon, sydd eisoes wedi sefydlu elusen tebyg yn ardal Abergwyngregyn. Yn sgil hynny mae EDP hefyd wedi rhannu eu dogfennau gydag Ynni Ogwen sy'n darparu i gofrestru eu helusen hwythau.

## SUT I YMGEISIO AM GRANT GAN ELUSEN DYFFRYN PERIS

Yn ystod y cyfnod clo cyntaf y llynedd daeth y newyddion fod ein cais i'r Comisiwn Elusennol wedi bod yn llwyddiannus ac eisoes mae Elusen Dyffryn Peris wedi derbyn y rhodd cyntaf o £10,000 gan Ynni Padarn Peris. Mae gwefan yr Elusen eisoes yn weithredol a bydd yn galluogi pobl i lwytho'r Canllawiau a'r Ffurflen Gais i lawr a chyflwyno ceisiadau ar gyfer prosiectau fydd o fudd amgylcheddol i'r gymuned. Swyddogaeth EDP fydd penderfynu pa brosiectau a gefnogir.

Byddwn yn derbyn ceisiadau yn chwarterol … 1 Ionawr – 31 Mawrth, 1 Ebrill – 30 Mehefin, 1 Gorffennaf – 30 Medi a 1 Hydref – 31 Rhagfyr ac fe wnawn ein gorau i ymateb i'ch cais o fewn pythefnos i'r dyddiad cau.

Er mwyn bod yn llwyddiannus rhaid i'r ceisiadau gyflawni un o nodau'r Elusen. Dyma'r mathau o brosiectau a gefnogir:

- Lleihau tlodi tanwydd,
- Hyrwyddo ynni adnewyddadwy,
- Hybu trafnidiaeth gynaliadwy,
- Annog busnesau i arbed ynni,
- Cysylltu unigolion o bob oed â'r amgylchedd,
- Lleihau gwastraff,
- Hybu unigolion i wirfoddoli yn eu cymunedau,
- Hybu ymarfer corff yn y gymuned,
- Helpu dysgwyr i ymarfer eu Cymraeg i gynnal natur ddwyieithog ein cymuned.

Fe ddylai ymrwymiad i'r iaith Gymraeg fod yn amlwg ym mhob prosiect. Gall unigolion neu grwpiau ymgeisio am y grantiau.

Aeth pedair mlynedd arall heibio ond gwireddwyd un arall o amcanion gwreiddiol erthygl Alun nôl yn 2013, sef defnyddio unrhyw elw at ddibenion cymdeithasol yn Nyffryn Peris – felly, yn ystod y trydydd cyfnod clo tywyll yma ewch i wefan Elusen Dyffryn Peris ac efallai y cewch chwithau gyflawni un o'ch breuddwydion chi a dod a chydig o heulwen i'n bywydau ni yma yn Nyffryn Peris …

Elusen Dyffryn Peris – www.elusendyffrynperis.cymru – gellir llwytho'r Canllawiau a'r Ffurflen Gais i lawr neu ewch i'n tudalen Facebook – Elusen Dyffryn Peris.



Cymdeithas Edward Llwyd
Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru
Elusen Gofrestredig rhif 1126027

# Adolygiad Fan Hyn a Fan 'Co – Anne Gwynne

Mae'n anodd cofio sut oedd hi cyn dyfodiad Covid19, yr amser yna pan oedd dydd Sadwrn yn ddiwrnod Cymdeithas Edward Llwyd. Cael mynd i rywle gwahanol bob wythnos a dysgu hanes yr ardal, edmygu a dysgu enwau planhigion, anifeiliaid ac adar, hyn i gyd efo ffrindiau a thrwy gyfrwng y Gymraeg. Dw i'n ysu am y dyddiau yna. Mi ddaw'r dyddiau eto wrth gwrs ac yn raddol mi fydden ni'n anghofio'r anghydfod presennol, wir i chi mi ddaw!

Sut ydych yn treulio'ch amser bellach? Mae digon i'w wneud dw i'n siŵr ond efallai, pan dach chi eisiau hoe fach dawel ydych chi'n syllu ar eich silff llyfrau yn llawn gobaith i ddod ar draws llyfr dach chi heb ei ddarllen eto? Ond does dim un, yn y misoedd diwethaf dach chi wedi cael digon o amser i ddarllen pob un wan jac. Beth i'w wneud?

Wel gan fod chi'n gofyn! A gaf i awgrymu llyfr a fydd yn mynd â chi allan i'r awyr las unwaith eto? Ychydig o ddyddiau'n ôl ces i becyn yn y post, pecyn oedd yn cynnwys llyfr Anne Gwynne - 'Fan Hyn a Fan 'Co'. Erbyn hyn allaf i lenwi pob munud sbâr ac, ar yr un pryd symud yn ôl mewn amser i'r dyddiau dw i'n gweld eu colli.

Roedd Anne yn cyfrannu adroddiadau o'r teithiau i'r Ddolen a'r Barcud, papurau bro ardal Tregaron lle mae hi'n byw. Mae 39 o adroddiadau yn gyfan gwbl, yn cynrychioli 13 o flynyddoedd ac maen nhw'n bleser pur i ddarllen. Yn anffodus dim ond ers mis Hydref 2017 dw i wedi bod yn aelod felly dw i ddim ond wedi bod ar un o'r teithiau. Peidiwch â chamddeall, dw i'n mwynhau pob adroddiad ond dw i'n tueddu cicio fy hun nad oeddwn wedi ymuno yn gynt. Mae cleisiau yn dechrau ffurfio!

Mae llawer o bethau'n dod drwodd wrth ddarllen - y trysor o wybodaeth sydd ym mhennau'r arweinyddion a'u parodrwydd i rannu hynny efo'r aelodau; y pleser sydd i gael wrth fod allan yn yr awyr iach, hyd yn oed pan mae hi'n glawio neu yn niwlog; y cyfeillgarwch sydd i fwynhau a chael diwrnod o siarad Cymraeg. Hyn oll wedi cael ei ysgrifennu mewn Cymraeg graenus a chlir. Dyma lyfr allech chi fwynhau'n gyfforddus yn eich cadair freichiau.

Ond, wrth gwrs bydd rhaid prynu'r llyfr yn gyntaf ac mae ar gael oddi wrth Anne am £10 yn cynnwys cludiant:

Mrs Anne Gwynne, Cefnbanadl, Tregaron, Ceredigion. SY25 6LU

Mi fydd yr elw yn cael ei rannu rhwng Cymdeithas Edward Llwyd, Ambiwlans Awyr Cymru a Ward Cemotherapi Ysbyty Bronglais, Aberystwyth

**Rob Evans**




# 'TRYSORAU COLL' CARADOG PRICHARD : J. ELWYN HUGHES

Dyma drydedd cyfrol John Elwyn Hughes, sydd yn ymdrin â byd a bywyd Caradog Prichard. Yma, ceir astudiaeth o'r llu ohebiaethau gan ac i Garadog – y mwyafrif ar ffurf llythyr neu gerdyn post. Daethpwyd o hyd i'r 'trysorau coll' yma mewn cist gan Mari, merch Caradog a roddodd ganiatád i Elwyn fwrw golwg arnynt. Mae'r llythyrau yn datgelu ystod eang o wahanol agweddau o fywyd y bardd a'r newyddiadurwr 'cymleth' hwn, ar sawl ystyr.

Datgelir ambell lythyr dirdynnol yn ymwneud â'r cyfnod pan oedd mam Caradog yn yr Ysbyty Meddwl – neu'r Seilam chwedl o – yn Ninbych am dros 30 mlynedd. Hefyd ei gyfnod fel newyddiadurwr yn Stryd y Fflyd i'r *News Chronicle* a'r *Daily Telegraph* yn bennaf. Ei gyfnod yn yr India. Ei broblem yn trin arian yn aml, ac yn amlwg problem yfed.

Cryn sylw hefyd i'w Goron Driphlyg, o gyflawni y gamp o ennill y Goron Genedlaethol dair blynedd yn olynol yn 1927 ( Caergybi), 1928 ( Treorci) ac 1929 ( Lerpwl). Ef yw'r unig fardd i gyflawni'r gamp ryfeddol yma.

Mae cysylltiadau â Bethel yn y llyfr. Cofnodir llythyrau gan Awen Williams, cariad seriws cyntaf Caradog, yntau yn brentis 17 oed yn yr Herald, a hithau yn y 6ed ddosbarth yn Ysgol Ramadeg Caernarfon. A pham ddaeth y garwriaeth i ben? Cewch wybod. Merch Hugh a Margaret Williams Rhyd y Galen, Bethel oedd hi. Am gyfnod bu'n athrawes yn Rhosgadfan. Bu farw yn 1975 yn 68 oed. Oes rhywun yn cofio Awen neu'r teulu?

Yr ail gyswllt yw'r aml ohebiaeth yn y maes llenyddol gyda W. J. Gruffydd, bardd, beirniad, ysgolhaig ac am gyfnod Aelod Seneddol. Un o'r uchafbwyntiau, i'm tyb i, yw erthygl gan W. J. Gruffydd yn y *Llenor* yn rhoi ei farn a dadansoddiad o bryddest fuddugol Treorci sef Penyd.

Mae yn berl o erthygl, hollol ddealladwy i leugwr. Templed yn wir i unrhyw feirniad llenyddol. A ddysgodd Caradog o lith Gamaliel?

Cafwyd cryn helynt yn Eisteddfod Dinbych yn 1939 pan gyfaddefodd y beirniaid – Prosser Rhys, yr Athro J. Lloyd Jones a'r Athro T.H.Parry-Williams - mai pryddest Caradog ar y testun (?) Terfysgoedd Daear oedd yr orau ond ni choronwyd Caradog am fod y bryddest yn 'anhestunol' chwedl y beirniad. A ddylsai Caradog felly fod wedi ennill pedair coron? Roedd cryn ddadlau a cewch enghreifftiau o'r ymateb yn y llyfr. Ie, cyfrol gwerth chweil, a diolch i Elwyn am gyfraniad gwerthfawr arall yn agor tipyn mwy o'r llen sy'n amgylchynu yr enigma oedd/yw Caradog Prichard.

Trioleg Caradog
(I Elwyn)
Gosodaist dy stamp ar gampwaith trylwyr,
trioleg llafurwaith.
O'r dirgel twrio deirgwaith
o dan groen y dyn a'i graith.
Richard Lloyd Jones



# Y Parchedig William John Lewis

*Darllenwyd y deyrnged hon ar ran y teulu yn yr angladd ar Chwefror 11.*

**Teyrnged i dad gan Dewi, Islwyn ac Eirian**

Ganwyd dad ar Ebrill 7fed, 1923 yn Garreg Lydan, Dinorwig, cartref ei daid a'i nain, yn fab i Joseph a Katie Lewis. Fo oedd yr hynaf o saith o blant. Roedd ganddo feddwl mawr o'i frodyr Goronwy, Ralph, Harri ac Alun a'i chwiorydd Olwen ac Eluned. Symudodd y teulu ymhen rhyw ddwy flynedd i'r tŷ uchaf yng Nghymru, Tan y Garret, tyddyn bychan led cae o Garreg Lydan. Roedd ei dad yn gweithio yn Chwarel Dinorwig, a'r amgylchiadau byw'n anodd a thlawd. Pan oedd dad tua 14eg oed, aeth yntau i weithio i'r Chwarel er mwyn helpu i gynnal y teulu.

Roedd dad yn ymfalchïo'n fawr yn ei fagwraeth a'i gefndir chwarelyddol. Roedd 'hogia chwaral' a bywyd y chwarelwr yn bwysig iawn iddo. Mae rhai o'r cynion a ddefnyddiai gennym o hyd! Cymuned glos oedd cymuned Dinorwig, ac er y tlodi a'r gwaith caled yn y Chwarel ac ar y tyddyn, atgofion melys iawn oedd ganddo bob amser. Roedd Capel Sardis yn rhan allweddol o'r gymuned ac o'i fagwraeth yntau. Cadwodd y cysylltiad â'r capel dros y blynyddoedd. Byddai mam ac yntau'n mynd yno'n achlysurol pan fyddai dad yn pregethu yno, neu i ymuno â'r gynulleidfa – yn arbennig i Gyfarfodydd Pregethu'r Sulgwyn.

Ym Medi 1942 cafodd 'call-up' – fel y dywedai – i'r Llynges Brydeinig, i'r Ail Ryfel Byd. A dyna gychwyn pennod arall bwysig. Mae'n anodd dychmygu profiad mor enfawr ydoedd i hogyn pedair ar bymtheg oed fynd o Ddinorwig i ben draw byd i'w hyfforddi yn Torpoint, Cernyw ac yna Chattham, Swydd Caint, cyn mynd ar longau i ben draw byd go iawn! Roedd ar y confois ym Môr Gogledd yr Iwerydd yn gwarchod llongau o'r Unol Daleithiau. Bu yn Efrog Newydd, Philadelphia a Newfoundland. Aeth wedyn ar *flagship* newydd anferthol, HMS Pioneer, i Gibraltar, Port Said, Sri-Lanka, Hong Kong, Singapore a Sydney, Awstralia. Roedd ganddo, fel yr holl fechgyn a gafodd brofiadau tebyg, ei storïau am y cyfnod yma. Roedd un stori amdanyn nhw ar ganol y Môr Tawel, yn gorfod mynd i helpu ar long ysbyty o Seland Newydd oedd ar dân ar ôl cael torpedo gan y Siapaneaid. Mae'n cofnodi mewn dyddiadur iddynt osod 'winch' o un llong i'r llall, a chrwydro o gwmpas llong ddiarth ar eu boliau gan fod cymaint o fwg. Ar y gynnau ak-ak oedd dad, ond chlywson ni ddim am hynny! Mae yna lot o hanes a phrofiadau o'r blynyddoedd hynny: rhai a rannai â ni a llawer iawn na fedrai sôn amdanynt.

Ar ôl y Rhyfel, aeth yn ôl i'r Chwarel. Daeth dau ŵr ifanc i olynu ei gilydd yn weinidogion yn Sardis: Clifford Davies a Gwyn Thomas. Dechreuodd dad ddod yn ymwybodol o alwad i'r Weinidogaeth, ac ymhen amser cafodd fynediad i'r Coleg Gwyn, Coleg y Bedyddwyr ym Mangor. Dyma'r cyfnod y cyfarfu â mam – yng nghaffi Bobi-Bobs ym Mangor. Wedyn, fe'i sefydlwyd yn weinidog yn Llwyndafydd a Chei Newydd, Sir Aberteifi. A dyma gychwyn pennod arall hapus iawn. Priodi ar Ebrill 7fed, 1956 a chael ei groesawu gyda breichiau agored gan nain a taid, Blodwen ac Olwen, i deulu Rhosbothan. Union flwyddyn i'r diwrnod o ddydd eu priodas, ganwyd iddynt Dewi Tudur, ac yna Islwyn Môn ar Fai 1af, 1958. Er bod y ceiniogau'n brin, roedd cymdeithas glos Llwyndafydd yn hynod ei charedigrwydd at y Gweinidog a'i deulu; a pharodd y cyfeillgarwch yn gynnes dros y blynyddoedd. Hefo hoffter mawr y siaradai dad am y cyfnod a phobol Llwyndafydd.

Ym 1959, symudwyd yn ôl i'r Gogledd, i gylch o gapeli yn Nyffryn Nantlle: Penygroes, Talysarn, Pontllyfni a Llanllyfni. Yn fuan wedyn, bu dad yn wael iawn ei iechyd. Cafodd driniaeth fawr ar ei ysgyfaint a threuliodd fisoedd yn Ysbyty Llangwyfan, Sir Ddinbych. Dyna gyfnod pryderus iawn i mam: magu dau o hogia' bach, pryder am dad, a thaith hir a blinedig ar hyd ffyrdd gwael i Langwyfan. Ond fe wellodd dad ac ail afael yn y gwaith. A dyna a gofiwn ni am ei Weinidogaeth – fe weithiodd yn galed! Paratoi pregethau yn y stydi yn y bore, ymweld â chartrefi, aelwydydd ac ysbytai yn y pnawn, a chyfarfodydd neu bwyllgorau byth a beunydd gyda'r nos. Roedd gennym gartref braf a hapus yn Bryn Môr, a lot o waith a phleser yno hefyd yn cadw'r ardd. Yn Rhagfyr 1964, ganwyd Eirian ac roedd dad wedi gwirioni'n bot o gael merch! Unwaith eto, hefo hoffter mawr y cofiwn ni'n tri am y fagwraeth ym Mhenygroes.


Haf 1970 oedd hi pan symudon ni i Amlwch, a dad yn weinidog ar bump o gapeli yn Amlwch, Pensarn, Llaneilian, Rhosybol a Dulas. Yr un oedd y patrwm gwaith yno: paratoi, ymweld a chyfarfodydd gyda'r nos; pregethu dair gwaith bob dydd Sul – mwy na hynny weithiau os oedd raid. Roedd yn paratoi pregethau'n drylwyr ac yn ysgrifennu pob gair – nid bras-nodiadau. Roedd ganddo barch at y Beibl, ac er iddo gael ei fagu mewn rhyddfrydiaeth ddiwinyddol ymosodol, doedd o ei hun ddim am wrthddweud na sefyll mewn barn uwch ben Gair Duw. Roedd ganddo ffydd syml a didwyll a pharch di-wyro at y gwaith o addoli Duw.

I ni, blant, dyma'r cyfnod tyfu i fyny ac, fel y gŵyr pob rhiant i blant yn eu harddegau, nid yw hynny bob amser yn hawdd. Efallai ei bod yn well peidio â dweud mwy am hynny! Ond un peth mawr i ni fel teulu oedd cael mynd ar wyliau. Roedd dad yn gredwr mawr mewn gwyliau. Mi fuom yn Butlin's sawl gwaith: roedd gweinidogion yn cael mynd am ddim. Cyfnewid tai hefo gweinidogion eraill ym Mhorth Tywyn a Llundain. Fe gafon ni garafán am gyfnod hefyd, a chrwydro i Ardal y Llynnoedd: dringo'r Kirkstone Pass (graddfa 1 mewn 4) mewn car bach 'eleven-hundred', yn towio carafán, a phump o bobol yn y car! Ac wrth gwrs, roedd rhaid mynd i Lwyndafydd ar wyliau!

Ymddeolodd o'r Weinidogaeth ym 1988. Ond wnaeth patrwm bywyd ddim newid rhyw lawer. Daliai i bregethu ar y Sul; byddai'n ymweld â chartrefi a chartrefi gofal, gan nad swydd oedd y weinidogaeth iddo ond ffordd o fyw. Roedd yn gyrru car nes roedd yn 90 oed, a chyndyn iawn oedd o i roi'r gorau iddi! Roedd wastad yn cadw'n brysur, a'i hobi mawr oedd gwaith coed. Roedd unrhyw ddarn gwastraff o goedyn yn troi'n broject. Gallai droi ei law at bob math o waith *DIY*. Mae Islwyn yn cofio codi *conservatory* hefo fo yn Gaerwen: profiad rhyfedd i Islwyn oedd cael dysgu dad sut i wneud rhywbeth yn lle fel arall rownd, ac mae'n falch iawn o gael dweud y stori honno hyd heddiw. Dros y blynyddoedd, cyrhaeddodd saith o wyrion a wyresau: pump o hogia roedd o'n falch iawn ohonyn nhw yn Nhalsarnau, Iolo, Owain, Gwydion, Garmon ac Elgan; a dwy wyres oedd yn annwyl iawn ganddo, Haf a Heledd. Y blynyddoedd diwethaf, daeth yn hen daid i bump hefyd.

Mae cymaint i'w ddweud. Cafodd oes hir ac mae colled enfawr ar ei ôl. Mewn un ystyr, rydym wedi colli dad, fel dad, ers tro. Hefo'r Dementia yn gwaethygu, roedd y problemau'n cynyddu. Rhoddodd mam o'i gorau i ofalu amdano ac rydym fel teulu'n wirioneddol ddiolchgar am y caredigrwydd mawr a'r gofal ardderchog a gafodd ym Mhlas Mona.

Ond heddiw, rydym yn ddiolchgar i Dduw am dad caredig ac am ei gael am gymaint o flynyddoedd. Dim ond atgofion melys a hapus sydd gennym ohono. Rydym hefyd yn ddiolchgar am Efengyl – am y Newyddion Da am Waredwr yn Iesu Grist sydd wedi gwneud y cwbl drosom, byw a marw ac atgyfodi'n fuddugoliaethus.

BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol - Ffoniwch **(01248) 361044**
**D. P. OWENS** RHIWLAS

GERAINT OWEN
CARPEDI

Cil y Mynydd
Waunfawr
Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfai Mill, Bontnewydd
(01286)650552 Symudol - 07712779475

CARPEDI
TEILS
VINYLS
DEWIS MAWR
O BATRYMAU

## CAEATHRO

**Cydymdeimlo**

Estynnwn ein cydymdeimlad at Anwen Pritchard yn dilyn ei phrofedigaeth o golli ei gŵr, John Pritchard (Pritchard Brothers) yn gynnar eleni. Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd at Evena Hughes (7 Erw Wen), sef chwaer Anwen a chwaer-yng-nghyfraith John. Roedd John yn gymeriad adnabyddus a hoffus yn y gymuned ac wedi treulio blynyddoedd lawer yn rhedeg cwmni teuluol Pritchard Brothers yng Nghaernarfon.

Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd at Clifford Jones, Nia, Sion ac Awel Haf a'r teulu oll yn dilyn colli gwraig, mam, mam-yng-nghyfraith a nain annwyl. Roedd Iona yn adnabyddus i lawer fel 'Nyrs Iona' a bydd colled fawr ar ei hôl yng nghynulleidfa Capel Caeathro.

**Capel**

Yn sgil cyfyngiadau COVID-19 sy'n parhau i fod mewn grym yma yng Nghymru, ni fydd gwasanaethau yn cael eu cynnal am y tro. Cadwch lygad ar yr hysbysfwrdd tu allan i'r Capel am ddiweddariadau maes o law.

**Penblwydd arbennig**

Pob hwyl i Bethan Iwan (Carrog, Rhos Bach) wrth ddathlu penblwydd arbennig iawn ar Fawrth y 18fed. Dymunwn amser difyr a diwrnod dedwydd a diddan, ac i chi fwynhau popeth gorau'r achlysur. Cofion cynnes oddi wrth eich holl gymdogion a ffrindiau.

**Cae Chwarae**

Er nad oes llawer o weithgareddau wedi gallu cael eu trefnu a'u cynnal yn ddiweddar, nid yw hyn yn golygu fod gwaith ffyddlon aelodau y Gymdeithas Cae Chwarae wedi stopio. Cadwch lygad felly am ychwanegiad cyffrous i Gae Chwarae'r pentref yn y dyfodol agos - gobeithio y bydd yn ei le yn fuan i'r plant gael defnydd ohono fel mae'r tywydd yn gwella!

## DEINIOLEN

**Diolchiadau**

Hoffai Jane a Neville Thorman ddiolch yn gynnes iawn i'w cymdogion a ffrindiau yn Neiniolen a phentrefi agos am y cydymdeimlad a ddangoswyd trwy gardiau a galwadau ffôn ar ôl colli eu hannwyl chwaer Nansi Morris. Aeth yr arian a dderbyniwyd at waith y nyrsus cymunedol.

Fe hoffai Nicola Vaughan Parry, Deiniolen, ddiolch o galon i'w holl deulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gyfarchion penblwydd a dderbyniodd ar ei phenblwydd yn 50 oed yn ddiweddar.

Dymuna Mrs Ann Jane Owen (Nan) gynt o Ddeiniolen, sydd yng Nghartref Plas Pengwaith, Llanberis erbyn hyn ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am y cardiau, arian ac anrhegion a dderbyniodd dros y Nadolig.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau mawr i Ynyr a Catrin Parri, ar enedigaeth Alys Ynyr, ddechrau mis Ionawr. Dymuniadau gorau i'r teulu newydd a llongyfarchiadau mawr i Taid a Nain, Cynefin a hen Nain Ty'r Ysgol hefyd.



**Cydymdeimlo**

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf at deulu a ffrindiau'r diweddar Melvyn Douglas Lloyd neu Dougie Lloyd i bawb oedd yn ei 'nabod, yn dilyn ei farwolaeth brawychus o sydyn yn ddiweddar, mi fydd colled fawr ar ei ôl.

Estynnwn ein cydymdeimlad at deulu, ffrindiau a chymdogion y diweddar Mr Jackie Parry, Rhes Faenol Deiniolen, a fu farw Chwefror yr 2ail yn 85 mlwydd oed.

Cydymdeimlir yn ogystal gyda Alwena Owen a'r teulu o glywed am farwolaeth creulon ei merch Mirain Llwyd Owen. Roedd Mirain yn ferch annwyl a chydwybodol ac yn ymgyrchydd brwd gyda mudiad YesCymru. Mi fydd y golled yn anferthol i'w theulu ac i Gymru.

**Radio Cymru**

Llongyfarchiadu mawr i Trystan Ellis Morris, Rhes Cynfi, ar ei raglen radio newydd bob bore dydd Gwener am 9.00 gydag Emma Walford. Cofiwch wrando i gefnogi.

**Deiniolen Ddoe a Heddiw**

Er fod y straeon wedi arafu ar dudalen Facebook Deiniolen Ddoe a Heddiw yn ddiweddar, mae'n dal i gynnwys ambell i berl i'n hatgoffa ni o'r ardal a'i thrigolion, os ddewch chi ar draws unrhyw lun neu hanes difyr, cofiwch eu rhannu ar y dudalen.

**Diolch**

Gwelwyd un o blant y pentre ar raglen deledu Dathlu Dewrder yn ddiweddar. Roedd Jessica Williams wedi bod yn ysgrifennu llythyrau at henoed yr ardal yn ystod y cyfnod clo ac roedd y rhaglen wedi ei dewis hi er mwyn gallu diolch iddi am fod mor feddylgar. Fe gafodd gyfle i ymarfer pêl-droed efo Lois Regan a'i chyfweld gan Elin Fflur. Diolch yn fawr iawn Jessica am fod mor ffeind a meddwl am eraill, mi ydan ni i gyd yn falch iawn ohonat ti.


Mae angen diolch i'r rhai sydd yn dal i estyn cymorth i eraill yn ystod yr amser poenus yma. Mae nifer yn dawel bach yn helpu trigolion yr ardal ac yn mynd allan o'u ffordd i nôl negas, mynd i'r lle doctor, codi'r ffôn am sgwrs ac yn y blaen. Gwelwyd hefyd yn ystod y tywydd oer diweddar, rhai yn clirio eira a gwneud yn siwr bod llwybrau clir i gerdded. Diolch i chi i gyd.





Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk
Dathliadau ● Achlysuron Arbennig ● Cynadleddau
Pwyllgorau ● Bwydlen Bar ● Cinio Dydd Sul
● PRIODASAU ●
Ffôn - 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

DODREFN A LLORIAU
PERKINS
●●● 01286 673535 ●●●
www.perkinsfurniture.co.uk
16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AG

# Ysgol Gwaun Gynfi





Ers y dechrau mae disgyblion Gwaun Gynfi wedi bwrw iddi yn syth ar y dysgu drwy gynnal sesiynau dyddiol o ddysgu byw.  Dyma rai o ddisgyblion Bl.6 yn coginio a Bl.2 yn brysur wrthi. Hoffai'r Pennaeth a'r Llywodraethwyr ddiolch yn fawr i'r staff am eu parodwydd a'u hyblygrwydd dros y flwyddyn diwethaf.

Yn ogystal â phrysurdeb y plant bu Mrs Sarah Roberts, un o athrawon yr ysgol yn brysur iawn yn creu adnoddau Cymraeg i blant ei dosbarth, yn wreiddiol fel ffordd o helpu'r rhieni i wneud gweithgareddau efo'u plant gan wneud yn fawr o'r pethau arferol sydd i'w cael yn y cartref.

Ond ar ôl iddi fod ar gwrs cyfrwng Saesneg gwelodd yr hyfforddwr yn rhoi llawer o adnoddau ar ei wefan er mwyn i'r athrawon gael eu defnyddio. Teimlai bod angen mwy o adnoddau cyfrwng Cymraeg felly aeth ati i greu gwefan ei hun – mrsrobertscymru.wordpress.com gan ddechrau trwy roi adnoddau o Hwb a Cyw ac adnoddau roedd hi wedi eu creu ei hun fel bod pawb yn gallu dod o hyd iddynt a'u rhannu. Tyfodd yr wefan fel caseg eira, ac erbyn hyn mae llyfrau a phob math o adnoddau i'w gweld yno, sy'n cyd-fynd â gofynion y cwricwlwm.

Y cam nesaf oedd llwytho fideos bach i'r disgyblion ar YouTube (mrsrobertscymru.wordpress.com/youtube) i ddangos iddynt beth oedden nhw'n gallu ei wneud adref efo'u rhieni a rhoi cyfle iddynt i chwarae gêmau bach. Yn fuan roedd y syniad wedi cydio a llawer o athrawon yn defnyddio ei gweithgareddau oddi ar YouTube, a bu'n trafod llwyddiant ei syniad yn ddiweddar ar Radio Cymru efo Al Hughes. Goeliwch chi bod dros 30,000 o ymweliadau wedi bod ar y wefan ers Ionawr 2021?

Felly er nad oes hanesion y plant i'w cael y mis hwn dyma i chi hanes un o'n hathrawon ifanc a brwdfrydig yn rhannu ei syniadau nid yn unig efo disgyblion yr ysgol a'u rhieni ond efo pobl ar draws Cymru!

# Un funud fach ...

## Nes Na'r Disgwyl

Mae deng mlynedd ar hugain ers i ni symud i'r tŷ hwn. Mae cymaint wedi digwydd a chymaint wedi newid, ac nid rhyfedd hynny gan fod y cyfnod hwnnw bron hanner fy oes.  Ar un wedd, mae mis Ionawr 1991 yn bell iawn, ond ar wedd arall mae'n eithriadol o agos. Mae'r amser wedi gwibio heibio; a deng mlynedd ar hugain yn gyfnod rhy fyr o'r hanner.

Daw mis Mawrth â chyfle i ni eleni eto gofio'r gŵr a gaiff ei arddel yn nawddsant ein gwlad. Ychydig a wyddom am y gŵr ei hun. Cymysgedd o ffaith a ffuglen yw'r hanes amdano. Mor bell yn ôl yw dyddiau Dewi yn y Chweched Ganrif: oes arall a byd arall yn wir, a fawr ddim yn gyffredin rhyngddo ef a ninnau.

Ac eto, ddim mor bell â hynny. Oherwydd dim ond hanner cant o gyfnodau o ddeng mlynedd ar hugain sydd eu hangen i gamu nôl i gyfnod Dewi.  A beth yw hanner cant?  Rwyf fi fy hun wedi byw trwy ddau gyfnod felly, a mwy! Mae'r Chweched Ganrif yn llawer nes nag a dybiwn ni.  Er mor wahanol, ac er mor ddieithr, mae Dewi'n nes atom nag y byddem yn ei ddychmygu. Y ddau reswm dros hynny wrth gwrs yw ei iaith a'i ffydd.

Un o ryfeddodau ein cenedl a'n diwylliant yw ein bod yn siarad yr un iaith â Dewi, a bod y Gymraeg yn un o ieithoedd hynaf Ewrop. Mae Gŵyl Ddewi'n gyfle i ni nodi hynny a dathlu'r cyfan sydd ynghlwm wrth yr iaith, gan hyrwyddo ei defnydd ym mhob maes.

Fodd bynnag, nid oherwydd y Gymraeg a siaradai ond oherwydd y Ffydd a arddelai  y diogelwyd y cof am Dewi dros y canrifoedd. O bosibl y byddai enw Dewi wedi goroesi pe byddai'n fardd neu lenor. Ond gan nad dyna ydoedd byddai wedi mynd yn angof oni bai am un peth: ei ffydd yn yr Arglwydd Iesu Grist. Fyddem ni ddim yn sôn amdano heddiw, a fydden ni ddim yn gwybod amdano oni bai am ei waith fel cenhadwr a phregethwr yr Efengyl.

Byd dieithr iawn i ni oedd byd Dewi. A byd dieithr i Dewi fyddai ein byd ni.  Ond nid cwbl wahanol chwaith. Pe deuai Dewi i Gymru heddiw gallai siarad â thros hanner miliwn o bobl yn ei iaith ei hun. A phe deuai, gallai hefyd siarad yn yr iaith honno â phobl sy'n arddel yr un Ffydd ac yn credu yn yr un Gwaredwr ag ef. Hawdd iawn yw dychmygu y byddai wrth ei fodd o ddeall fod o hyd yn y tir dystiolaeth i'r Efengyl y bu ef yn ei chyhoeddi. Ond rwy'n tybio hefyd y gwelai Dewi'n fuan iawn bod yn ein Cymru ni fel ei Gymru ef anwybodaeth o Dduw a'i gariad a'i ras yn Iesu Grist. Buan iawn y byddai Dewi hefyd yn ailafael yn y dasg, a roddwyd iddo gan Dduw, o alw cenedl i edifeirwch a ffydd.  A buan iawn y byddai'n herio'r sawl sy'n arddel yr un ffydd a'r un iaith ag yntau i wneud hynny hefyd.


**John Pritchard**






# CROESAIR

## MAWRTH 2021



### AR DRAWS

1 Hel clecs [7]
5 Trugaredd Duw at ddynion [4]
7 Amrywiaeth [5]
8 Curo [6]
9 Rhedegyn araf [7]
10 Yr awr hon [4]
11 Gwella o ran golwg [6]
13 Cymryd enw Duw yn ofer [5]
14 Rhodd werthfawr a gynigir i Dduw [5]
16 Priodi [3]
19 Enw dyn [5]
20 Y person sydd â'r hawl cyfreithiol ar eiddo aelod o'r teulu ar ôl iddo farw [6]

### I LAWR

1 Cwt ci [5]
2 Heb nerth [5]
3 Siarad dwli [7]
4 Dioddef o brinder bwyd [6]
5 Cân sy'n mynegi hiraeth am un sydd wedi marw [8]
6 Creadur sy'n byw yn y tŷ [7,5]
12 Tref yng ngogledd orllewin Cymru [6]
14 Y fan lle mae afon yn llifo i'r môr [6]
15 Uned i fesur faint o nwy a ddefnyddir mewn tŷ, swyddfa, ayyb [4]
17 Y darn o'r talcen uwchben y llygad, lle mae blew yn tyfu [3]
18 Darn gwastad o bren neu garreg ar waelod ffenestr [3]

# CYMRU DDIGODOL

Dwi'n cofio rhoi Llanrug fel chwilair yn Google a fy syfrdanu fod yna chwech enghraifft yn ôl yn y gorffennol pell pan oedd Google ond misoedd oed. Chwech diwerth gan Saeson yn aros yn yr ardal. Dyma nifer y chwiliadau diweddaraf am Lanrug - 266,000. Mae Llanrug, a phob ardal arall o'n gwlad a thros y byd i gyd erbyn hyn wedi ei chofnodi mewn amryw filoedd ffordd ar y we.

Mae archif yr Eco, sef yr hen bapurau Eco i gyd - (ecorwyddfa.co.uk) wedi eu hymweld filoedd o weithiau, dros chwarter miliwn yn ystod rhai misoedd. Ia, Eco'r Wyddfa'n fyd eang.

O edrych ar yr ystadegau ar gyfer yr Eco, daw'r chwiliadau o bob rhan o'r byd, o China, Singapore, Adelaide, De America a llawer o'r Unol Daleithiau America. Rhai o'r Wcrain a sawl gwlad arall o'r hen Rwsia.

Mae'r Gymraeg a'i gwefannau yn gryf ar y we. Beth am fynd am dro ar draws y we yn ein hiaith ni.

Y gryfaf ydy Wicipedia. Ewch i cy.wikipedia.org/wiki/Wicipedia_Cymraeg a chael cyfoeth o wybodaeth






ECO'r Wyddfa

**Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?**

Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu

Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838
hefsj@aol.com






gan wirioni yn yr amrywiaeth sydd yna.

Lle arall i golli'ch hunan ydi cylchgronau. llyfrgell.cymru yn ein Llyfrgell Genedlaethol (llyfrgell.cymru).

Yma mae'r holl bapurau newydd a chylchgronau a gyhoeddwyd yn y Gymraeg erioed (hyd y gwn i) ac fe allwch chwilio'r archif. Mae angen i chi wybod sut i holi'r we cyn cychwyn. Ond os oes gennych chi fynediad i'r we, dim ond chwiliad syml sydd ei angen, i weld sut i wneud hyn yn effeithiol a llwyddiannus.

Mae yna rai wedi chwilio gwefan yr Eco efo termau fel 'Llanberis' a chael pob Eco o'r cychwyn gan fod Llanberis ym mhob Eco o'r cychwyn. Ewch i chwilio sut i feirioli eich chwiliad – mae'n hawdd.

Mae chwilio'n rhan o'r hwyl ac yn codi sgwarnogod diddorol dros ben. Rhoi'r gorau iddi ydy'r drafferth fwyaf.

Mae yna gysylltiadau i'w cael ar wefan yr Eco i lawer man difyr ond rhaid i ni ddiweddaru'r rhestr gan ei bod sawl blwyddyn yn ôl erbyn hyn. Os oes yna wefan ganddoch chi i'w hychwanegu, anfonwch at ecorwyddfa@gmail.com, dwi'n gwybod fod gen i, fel hen gono, sawl un yn barod i'w hychwanegu.

Gan fod cymaint o gyfryngau newydd wedi ymddangos a blodeuo, tybed a oes yna rhywun ifanc â diddordeb goleuo'r hen gonos ar wychderau newydd y we?

Ond tydi pawb o dan hanner cant yn gaeth i'w teclynnau fel y gwela i – golau ar wyneb, bodiau prysur a dim ymateb i eiriau a sgwrs heb drydydd ofyn.

CAIS – Beth am i rywun ohonoch – rhywun ifanc – oleuo'r rhai sydd dros oed bodio ffôn, ar fanteision a gwychderau'r cyfrwng? Cofiwch – dim ond un wers ar y tro – mi ydan ni'n araf yn dysgu yn tydan ni ...?

**Gwyndaf Hughes**




Hywel Williams
Aelod Seneddol

**CYMORTHFEYDD**

Os oes gennych unrhyw fater yr hoffech ei drafod gyda'ch **Aelod Seneddol** neu **Aelod Cynulliad** mewn cymhorthfa, yna cysylltwch â'r swyddfa ym Mangor a Chaernarfon.



Siân Gwenllian
Aelod y Senedd dros Arfon

**hywel.williams.mp@parliament.uk**
**@HywelPlaidCymru**
**HywelWilliams AS/MP**

**Swyddfa Etholaeth Caernarfon**
8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672 076
**Swyddfa Etholaeth Bangor**
70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372 948

**sian.gwenllian@cynulliad.cymru**
**@siangwenfelin**
**SiânGwenllian AC/AM**

*yn gweithio'n galed dros bobl Arfon*

# Beicio Bro'r Eco

Go brin y bu beicio mor boblogaidd erioed! Mae trigolion Gwynedd wedi mwynhau lonydd gleision y sir ers blynyddoedd ac mae ein rhwydwaith o lwybrau a lonydd cefn gwlad hardd yn cynnig dihangfa, persbectif gwahanol ac awyr iach i'r beiciwr.

Rhoddodd cyfyngiadau Covid19 hwb pellach i'r gamp wrth i bobl dreulio mwy o amser yn eu cynefin ac i ni gyd fod phwyslais newydd ar ymarfer corff. Daeth beics trydan yn boblogaidd iawn hefyd yn y blynyddoedd diwethaf, sydd wedi gwneud beicio yn hygyrch i hyd yn oed mwy o bobl.

Mae nifer cynyddol yn beicio i'r gwaith yn ogystal gan gadw'n heini ac osgoi diflastod ciwiau traffig a pharcio car yn ddyddiol.

Braf iawn felly yw gweld cynlluniau ar droed (neu ar bedal?!) i greu llwybrau beicio rhwng Bethel a Chaernarfon a hefyd rhwng Llanrug a Chaernarfon.

Mae'r gwaith wedi dechrau ym Methel eisoes a'r llwybr rhwng y pentref a Thyddyn Hen yn cael ei adeiladu yn ystod y misoedd nesaf. Wedi i'r gwaith hwnnw gael ei gwblhau, bydd y llwybr yn cael ei ymestyn i Gaernarfon fel mae tiroedd a chyllideb ar gael.

Meddai Siôn Jones, cynghorydd Bethel, "Mae yna lot o bobl yn gweithio yng Nghaernarfon, felly mae hyn yn mynd i fod yn ffordd ddiogel i gerdded, beicio neu redeg i'r gwaith – sydd yn gam enfawr i ni ym Methel."

Mae Cyngor Gwynedd hefyd yn datblygu lôn feicio newydd o Lanrug i Gaernarfon ac ymgynghoriad ar y cynlluniau newydd ddod i ben ym mis Chwefror. Y cam nesaf fydd denu arian grantiau ar gyfer ei adeiladu yn y dyfodol.






Llwybrau'r lonydd glas yn cysylltu pentrefi Bethel a Llanrug gyda Chaernarfon




## Gwaith ffordd Cwm-y-glo

Tybed ydych chi – fel ni – wedi bod yn eistedd yn y golau traffig rhwng Cwm-y-glo, Brynrefail a Llanberis yn ddiweddar yn pendroni pa newidiadau sy'n cael ei gwneud i'r lôn?

Wel, fe fu'r Eco yn holi, ac mae cylchfan yn cael ei godi i hwyluso'r llif traffig a gwneud y lôn yn fwy diogel. Hefyd, mae llwybr newydd i gerddwyr a beicwyr ar y gweill ac mae'r gwaith ffordd yn ceisio datrys peth o'r problemau draeniad yn yr ardal yn ogystal â chladdu ceblau hefyd. Felly er bod y goleuadau traffig braidd yn ddiflas, mi fydd drosodd erbyn diwedd Mawrth a'r newidiadau yn werth eu cael.

# Dweud eich Dweud am barcio lleol a thrafnidiaeth gynaliadwy

**Problemau parcio'r Wyddfa**
A hithau bron yn flwyddyn ers cychwyn y cyfnod clo cyntaf, byddwch yn siŵr o gofio'r problemau parcio difrifol a grëwyd pan ddaeth canoedd o bobl yn eu ceir, o bell ac agos, i barcio'n anghyfreithlon o amgylch Llanberis a'r Wyddfa. Pawb yn rhuthro i gael blas olaf ar ryddid y mynyddoedd cyn i bopeth gau. Roedd yr olygfa'n ddigon i godi ofn ar unrhyw un call, a'r perygl o gael damwain yn un real iawn. Flwyddyn yn ddiweddarach mae yna gynlluniau i geisio gwella'r sefyllfa.

Mae Partneriaeth Yr Wyddfa yn ymgynghori ar ei strategaeth ddrafft i wella mynediad a chysylltedd yn ardaloedd Yr Wyddfa ac Ogwen ym Mharc Cenedlaethol Eryri gyda chymorth Trafnidiaeth i Gymru. Mae'n gwahodd cymunedau a rhanddeiliaid lleol i helpu i lunio'r strategaeth ac atebion posibl i fynd i'r afael â materion parcio ac annog dulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy fel cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus.

Y nod cyffredinol yw darparu cynnig twristiaeth gynaliadwy o safon fyd-eang sy'n caniatáu i ymwelwyr fwynhau'r ardal mewn ffordd sy'n diogelu'r dirwedd ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at gymunedau a'r economi leol.


Dywedodd Catrin Glyn, Swyddog Partneriaeth Yr Wyddfa :

*"Mae gorddibyniaeth ar geir i gyrchu safleoedd poblogaidd o fewn calon Eryri ar hyn o bryd a phroblemau parcio dwys ar adegau prysur o'r flwyddyn yn rhwystro dibenion craidd y Parc Cenedlaethol o ddiogelu'r dirwedd, hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad o'r ardal, a chynorthwyo lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol.*

*"Mae Partneriaeth yr Wyddfa wedi ymrwymo i ddiogelu'r mynydd a'r ardal gyfagos, tra'n gwneud y dirwedd arbennig yn fwy hygyrch i ymwelwyr heb geir a galluogi pobl sy'n cyrraedd mewn ceir i ddod i'r ardal a'i hatyniadau trwy ddulliau amgen. Rydym yn gobeithio y bydd cymunedau a rhanddeiliaid lleol yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad ac yn ein helpu i lunio'r strategaeth a llywio'r cynlluniau parcio a thrafnidiaeth gynaliadwy sy'n cael eu datblygu."*

Dylai cymunedau elwa trwy weld gostyngiad mewn pwysau parcio ceir a thraffig, gwelliant mewn gwasanaethau trafnidiaeth a buddsoddiad mewn cyfleusterau cymunedol. Gallai'r economi leol a thwristiaeth elwa hefyd trwy gadw rhagor o wariant ymwelwyr yn yr ardal, gydag ymwelwyr yn aros yn hirach a chynyddu niferoedd ymwelwyr yn y misoedd rhwng y tymhorau prysuraf a lleiaf prysur, ynghyd â sylfaen mwy amrywiol o ymwelwyr.

Mae'r ymgynghoriad yn cael ei gynnal **tan y 7fed o Fawrth 2021**. Mae modd i chi gymryd rhan trwy ymateb i holiadur ar dudalen we'r prosiect - www.snowdonpartnership.co.uk/parcioathrafnidiaeth




**Ble fyddech chi'n gosod pwyntiau gwefru ceir trydan?**
Mae Cyngor Gwynedd yn awyddus i wrando ar farn cymunedau lleol wrth fynd ati i osod mannau gwefru ar gyfer cerbydau trydan ar draws y sir. Mae cyfle i chi enwebu hyd at 3 lleoliad yn y sir ble y byddech yn hoffi gweld mannau gwefru ceir drwy'r gwblau'r holiadur yma, neu ewch i dudalenau 'Dweud eich Dweud' ar wefan y Cyngor, neu cysylltwch â'ch Cynghorydd lleol. Dyma ein cyfle i ofyn am bwyntiau gwefru yn lleol!

Mae'r mwyafrif o bobl yn ymwybodol o'r angen i leihau eu hôl-troed carbon. Mae trydaneiddio trafnidiaeth yn un ffordd o wneud hyn ac yn ran fychan o'r datrysiad sydd yn ein symud thuag at gymdeithas ddi-garbon. Er mwyn ei gwneud hi'n haws i drigolion newid o gerbydau petrol a disel bydd angen rhwydwaith cyfleus o bwyntiau gwefru ceir trydan.

Mae'r Cyngor wedi lleihau eu hallyriadau carbon o 47% ers 2006, ac wedi cychwyn y gwaith o drydaneiddio eu fflyd o gerbydau er mwyn adeiladu ar hyn.

Drwy gydweithio gyda Scottish Power Energy Networks [SPEN], mae'r Cyngor eisoes wedi adnabod nifer o leoliadau addas ar gyfer pwyntiau gwefru. Fodd bynnag, i barhau hefo'r gwaith yma mae angen casglu rhagor o wybodaeth gan y cyhoedd. Bydd yr wybodaeth fydd yn cael ei gasglu trwy'r holiadur yma helpu i osod y pwyntiau gwefru mewn lleoliadau addas lle mae'r galw amdanynt yn uwch. Bydd hefyd yn rhoi'r cyfle i'r Cyngor weld os oes unrhyw rwystrau neu gyfleoedd eraill i geisio hwyluso'r defnydd o gerbydau trydan yn y sir.







# Gwestai Llanberis

Dyma rhan gyntaf erthygl gan Iwan Roberts sy'n edrych ar sefydlu gwestai cyntaf Llanberis a hefyd lonydd drwy Ddyffryn Peris.




**DOLBADARN**

Ymddangosodd hysbyseb yn y North Wales Gazette ar 6 Gorffennaf 1815 yn chwilio am denant i adeilad newydd yn Llanberis. Cafodd ei ddisgrifio fel lle addas iawn i'w ddefnyddio fel tafarn ac i ddarparu ar gyfer twristiaid yn ymweld â'r ardal. Roedd y tenant newydd i gael cychwyn ar unwaith ac roedd tua 20 acer o dir ar gael yn ogystal â'r dafarn ei hun. Roedd unrhyw un a diddordeb yn cael ei gyfeirio at Mr Gregory yn Llanberis neu Mr Evans, cyfreithiwr o Gaernarfon, am wybodaeth bellach. Dyma'r cyfeiriad cyntaf at y dafarn sydd wedi ei ddarganfod hyd yn hyn.

Dyw hi ddim yn glir pwy oedd Mr Gregory ond pan agorodd y gwesty i'r cyhoedd ym Mehefin y flwyddyn ganlynol Daniel Gregory oedd y tenant. Yn ôl yr arferiad bryd hynny gwahoddwyd nifer o bobl flaenllaw'r ardal i'r cyfarfod agoriadol. Cafwyd cinio sylweddol cyn i'r criw fwynhau gweithgareddau amrywiol oedd wedi eu trefnu ar eu cyfer.

Rhyw bedair blynedd yn ddiweddarach cafwyd ymgais arall i ddod o hyd i denant newydd, i gychwyn ar 1 Mai 1820. Roedd Mr Gregory wedi parhau fel tenant ers 1815 ac mae'r hysbyseb yn pwysleisio fod y dafarn yn un boblogaidd ymysg twristiaid. Pierce Jones gafodd ei benodi ac mae'n cael ei enwi fel tafarnwr y "New Inn" yng nghofrestr trwyddedu 1820. Fel y "New Inn" mae Peter Bailey Williams hefyd yn cyfeirio at y dafarn yn 1821, ond erbyn 1823 mae'r gofrestr trwyddedu yn rhestru Pierce Jones fel tafarnwr y Dolbadarn Inn, Llanberis.

Yn rhifyn 24 Mehefin 1824 o'r North Wales Gazette mae John Williams yn hysbysu'r darllenwyr mai ef bellach oedd tenant y Dolbadarn Inn. Mae'n nodi bod yr adeilad wedi ei wella'n sylweddol a bod ceffylau a thywyswyr ar gael yno i'r rhai oedd am ddringo'r mynyddoedd neu ymweld â mannau o ddiddordeb yn yr ardal. Mae'n amlwg bod y Dolbadarn yn darparu hefyd ar gyfer gofynion mwy lleol. Ar 17 Mehefin 1825 cynhaliwyd cyfarfod cyntaf "Cymreigyddion Nant Padarn" yno. Penodwyd swyddogion ar gyfer y gymdeithas newydd gan gynnwys Gwilym Padarn fel bardd swyddogol. Mae'r adroddiad am y cyfarfod yn y wasg yn cyfeirio at y gwesty fel "Castell Dolbadarn" ond dyw'r enw hwnnw heb ei gofnodi yn unrhyw le arall.

**TEITHIO I LANBERIS**

Mae'r gwariant ar wella'r gwesty, ac ehangu'r ddarpariaeth i ymwelwyr, yn awgrymu bod yr elfen honno o'r busnes yn cynyddu. Mae llawer o deithwyr y cyfnod wedi cofnodi eu hymweliadau â Llanberis a'r ardal o gwmpas. Un elfen weddol gyson yw cyfeiriadau at ba mor anodd oedd cyrraedd y pentref mewn unrhyw fath o gerbyd. Ar ddechrau'r 19eg ganrif dim ond llwybrau troed neu lwybrau ceffylau oedd yn yr ardal. Mae cyfeiriad ar gael at lôn drol a wnaed o Lanrug i Lanberis dros Fwlch Gwynnog tua 1812. Mae'n debyg mai'r lôn gyntaf dros Clegir oedd hon yn disodli'r llwybr peryglus a fodolai cyn hynny. Mae un awdur yn awgrymu mai ar gyfer cario llechi o Glynrhonwy i Lanrug, ac yna i Gaernarfon yr adeiladwyd y ffordd yma. Mae'n nodi bod cerbydau eraill wedi dechrau ei defnyddio ond yn nodi *"… a thrwy anhawsderau a helbul nid bychan y cyrhaeddent Lanberis, trwy adwyon culion, a thros faesydd mawnog disathr, lle y glynai y cerbydau ac y rhoddid prawf ar amynedd y gweithwyr*." Mae'n siŵr bod dipyn o wahaniaeth rhwng troliau llechi'r chwarel a'r "post-chaise" neu gerbydau tebyg a ddefnyddia'r ymwelwyr. Roedd cyfarwyddiadau'r cyfnod yn awgrymu'n aml y dylai teithwyr o gyfeiriad Caernarfon barhau i ddefnyddio'r drefn a fodolai cynt, sef teithio heibio safle presennol Bryn Bras cyn belled â Chwm-y-glo yn eu cerbydau, ac yna cymryd cwch o Ben Llyn i Lanberis. Roeddynt yn arfer glanio yn y lle sy'n dal i gael ei adnabod yn lleol fel "landing" hyd heddiw.

Yn naturiol, roedd cryn bwysau i gael ffordd safonol i'r pentref. Yn y cyfnod yma yr unig obaith o wneud hynny oedd sefydlu Ymddiriedolaeth Dyrpeg drwy ddeddfwriaeth seneddol i gynllunio, ariannu ac adeiladu'r ffordd. Roedd Ymddiriedolaeth Dyrpeg Sir Gaernarfon wedi ei chreu mor gynnar â 1769 ond cyfyngwyd ei chyfrifoldeb gwreiddiol i wella a chynnal y ffordd o Gonwy, drwy Fangor a Chaernarfon, i Bwllheli. Dros amser fe ehangwyd y cyfrifoldebau ac yn 1810 cafwyd deddfwriaeth newydd yn ychwanegu pum ffordd arall. Un o'r rhain oedd ffordd newydd o Gaernarfon, drwy Lanberis, i Benygwryd. Yn y fan honno byddai'n ymuno â'r ffordd dyrpeg oedd eisoes wedi ei chwblhau rhwng Beddgelert a Chapel Curig ers 1808.

Mae un teithiwr i'r ardal o gwmpas 1810 yn cyfeirio'n benodol at y bwriad i ddarparu'r ffordd, ac mae hysbyseb i werthu Tŷ Gwyn ym mhlwyf Llanrug yn haf 1813 yn nodi y byddai'r dyrpeg newydd yn ffinio â'r eiddo. Mae'n debyg mai disgwyliadau fel hyn oedd y sbardun i adeiladu'r gwesty yn Llanberis rhyw ddwy flynedd yn ddiweddarach. Byddai'r ffordd yn hwyluso mwy o deithio drwy'r ardal, a hynny yn ei dro yn cynyddu'r angen am well darpariaeth ar gyfer ymwelwyr i'r pentref. Ond er adeiladu'r gwesty, aeth nifer o flynyddoedd heibio heb fawr o sôn am y ffordd. Yn Rhagfyr 1823 mae Peter Bailey Williams yn ysgrifennu at asiant Stad Glynllifon i holi beth oedd hanes y ffordd o Gwm-y-glo i'r "*New Inn by Dolbadarn Castle*". Mae'r ateb yn cyfeirio at gyfarfod yn y dyfodol agos i drafod y cynllun ond mae'n amlwg nad oedd y gwaith wedi cychwyn.

*(Bydd diwedd yr erthygl hon yn ymddangos yn rhifyn mis Ebrill* Eco'r Wyddfa*)*

**Iwan Roberts**

# Parc Gwledig Padarn wedi ei enwi fel un o fannau gwyrdd gorau'r wlad

Mae Cadwch Gymru'n Daclus wedi datgelu enillwyr Gwobr y Faner Werdd eleni – marc rhyngwladol o barc neu fan gwyrdd o ansawdd. Bydd y faner yn hedfan ym Mharc Gweledig Padarn, Llanberis, i gydnabod ei gyfleusterau rhagorol i ymwelwyr, safonau amgylcheddol uchel, ac ymrwymiad i ddarparu man gwyrdd o ansawdd gwych. Wedi ei leoli mewn 800 acer yn ardal Llanberis, mae Parc Gwledig Padarn yn cynnig golygfeydd trawiadol, o Lyn Padarn i Gastell Dolbadarn a mynyddoedd Eryri.

Meddai'r Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd dros ddatblygu'r Economi:

*"Mae'n destun balchder bod Parc Padarn wedi sicrhau'r faner werdd unwaith eto eleni. Mae'r wobr yma'n dangos sut mae Gwynedd yn parhau i gymryd balchder yn y ffaith bod gennym y parc hyfryd yma yn y sir. Hoffwn ddiolch yn fawr i staff y parc am eu gwaith caled, mewn cyfnod, sydd heb os, yn un anodd iawn. Hoffwn estyn fy niolch hefyd i'r holl wirfoddolwyr lleol am eu hymroddiad a'u gwaith gwych i helpu cadw'r ardal yn daclus. Diolch yn fawr i chi gyd."*



Mae Parc Padarn wedi sicrhau'r faner werdd eto eleni



Mae 224 o barciau a mannau gwyrdd ar draws y wlad wedi cael Gwobr flaenllaw y Faner Werdd a Gwobr Gymunedol y Faner Werdd – o barciau gwledig i erddi ffurfiol, i randiroedd, coetiroedd a mynwentydd.

Cyflwynir rhaglen Gwobr y Faner Werdd yng Nghymru gan yr elusen amgylcheddol Cadwch Gymru'n Daclus, gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru. Gwirfoddolodd arbenigwyr mannau gwyrdd annibynnol eu hamser ar ddechrau'r hydref i feirniadu safleoedd ymgeiswyr yn erbyn wyth o feini prawf llym, yn cynnwys bioamrywiaeth, glendid, rheolaeth amgylcheddol, a chyfranogiad cymunedol.

Dywedodd Lucy Prisk, Cydlynydd y Faner Werdd yn Cadwch Gymru'n Daclus:

*"Mae'r pandemig wedi dangos pa mor bwysig yw parciau a mannau gwyrdd o ansawdd uchel i'n cymunedau. I lawer ohonom, maent wedi bod yn hafan ar stepen y drws ac o fudd i'n iechyd a'n lles. Mae'r 224 o faneri sydd yn hedfan eleni yn dystiolaeth o waith caled staff a gwirfoddolwyr sydd wedi cynnal safonau rhagorol o dan amgylchiadau heriol iawn. Hoffwn eu llongyfarch a diolch iddynt i gyd am eu hymrwymiad eithriadol."*


AM WASANAETH PERSONOL A GOFALUS

DYLAN GRIFFITH

*Trefnwyr Angladdau Annibynnol a Lleol*

TROS Y WAEN PENISARWAEN

Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol

24 Awr y Dydd

Capel Gorffwys Preifat

Yn Gwasanaethu yr Holl Ardal

Busnes Teuluol

Ffôn : 01286 871833 (SYMUDOL: 07778127394)

Gwaith Coffaol

LLANRUG

Y Sgwâr
Llanrug
Caernarfon
Gwynedd
LL55 4AA

☎ 01286 672898

# Amgueddfa Lechi Cymru – Ymddeoliad un Pennaeth a phenodi un newydd

**Ceidwad Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis yn ymddeol ar ôl 40 mlynedd o rannu hanes y diwydiant llechi gyda'r byd**

Mae 2020 wedi bod yn flwyddyn heriol i bawb. I staff Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, roedd hefyd yn ddiwedd cyfnod wrth i Dr Dafydd Roberts – sydd wedi bod yn yr amgueddfa ers bron i 40 mlynedd – ymddeol ddiwedd Rhagfyr.

Wedi astudio Hanes ym Mhrifysgol Aberystwyth, dechreuodd Dafydd ei yrfa gydag Amgueddfa Cymru ym mis Hydref 1980 yn Adran Amaeth a Bywyd Gwerin, Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru.

Penodwyd Dafydd yn Gymhorthydd Ymchwil gyda gofal dros Amgueddfa Lechi Cymru (Amgueddfa Chwareli Llechi Gogledd Cymru bryd hynny) yn 1981. Yn y cyfnod hwn cwblhaodd ei Ddoethuriaeth ar bwnc 'Cymunedau Chwarelyddol Sir Gaernarfon a Sir Feirionnydd, 1911–1939.'

Daeth yn Geidwad Amgueddfa'r Gogledd (yn cynnwys Amgueddfa Lechi Cymru a chyn-safle Oriel Eryri yn Llanberis) ym 1988 – swydd oedd yn berffaith iddo fel yr esboniodd:

*"Mae fy nghysylltiad â'r diwydiant llechi'n mynd yn ôl sawl cenhedlaeth. Roedd fy nhad, fy nhaid a'm hen-daid yn chwarelwyr felly mae'r diwydiant – ac yn arbennig ei bobl – wedi bod o ddiddordeb mawr i mi erioed. Pobl ardaloedd y chwareli yw'r bobl orau yn y byd yn fy marn i, felly roedd y cyfle i weithio yn Amgueddfa Lechi Cymru yn berffaith i mi!"*

Yn ystod ei gyfnod yn yr amgueddfa mae wedi llywio sawl datblygiad cyffrous – gan gynnwys ail-ddatblygiad yr amgueddfa ym 1998 diolch i gais llwyddiannus am grant o £1.6 miliwn gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, oedd yn cynnwys symud teras o dai chwarelwyr i'r amgueddfa, ac atgyweirio Inclein Vivian (V2).

Yn dilyn lansio mynediad am ddim yn 2001, tyfodd nifer yr ymwelwyr blynyddol o 30,000 i tua 150,000, ac mae sawl pen-blwydd a dathliad cofiadwy wedi bod ar hyd y blynyddoedd. Ond un o'r projectau mwyaf cyffrous efallai yw'r cais diweddar am Statws Treftadaeth Byd i dirwedd llechi'r gogledd-orllewin. Cyngor Gwynedd sy'n arwain y cais hwn, ond mae Dafydd wedi bod yn rhan allweddol ohono o'r dechrau.




Dywedodd Dafydd:

*"Rwyf wedi mwynhau fy amser yn Amgueddfa Lechi Cymru yn aruthrol. Mae pob un diwrnod yn wahanol, ac mae'r misoedd diwethaf wedi dangos hynny yn fwy nag erioed. Ond yr amrywiaeth honno sydd wedi fy nghyfareddu dros y deugain mlynedd diwethaf. Y peth gorau am y swydd yw'r cyfle i esbonio i'n holl ymwelwyr hanes a phwysigrwydd y diwydiant rhyfeddol hwn – yn enwedig y bobl fu'n rhan o'r diwydiant, ac sy'n dal i fod.*

*"Edrychaf ymlaen at 2021, a'r holl gyfleoedd newydd fydd gen i, ond hefyd – gobeithio – at glywed cyhoeddiad bod diwydiant llechi gogledd Cymru wedi'i ddynodi yn Safle Treftadaeth Byd. Bydd Amgueddfa Lechi Cymru wrth galon y dehongliad wrth i ni gyflwyno hanes y chwareli i gynulleidfa fyd-eang."*

Dywedodd David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol Amgueddfa Cymru:

*"Rwyf yn hynod o ddiolchgar i Dafydd am ei ymroddiad i Amgueddfa Lechi Cymru. Mae ei wybodaeth a'i angerdd am y diwydiant wedi bod yn arbennig o werthfawr dros y blynyddoedd a bydd yn gadael bwlch fydd yn anodd iawn ei lenwi. Mae wedi bod yn rhan o daith yr Amgueddfa ers y dechrau un, ac mae'r amgueddfa bellach yn un o brif sefydliadau diwylliannol ac atyniadau twristaidd y gogledd-orllewin. I'w arweinyddiaeth ef y mae llawer o'r diolch am hynny. Dymunwn yn dda iawn iddo yn ei ymddeoliad."*

Gyda 2021 felly'n argoeli'n flwyddyn o gyhoeddiadau a datblygiadau newydd cyffrous, mae'r amgueddfa yn camu ymlaen o dan arweinyddiaeth newydd. Mae Elen Wyn Roberts wedi ei phenodi fel Pennaeth Dros-Dro am flwyddyn. Bydd yn cychwyn ar ei dyletswyddau ar Fawrth 1af. Mae Elen yn gweithio yn yr Amgueddfa Lechi ers 2006, yn gyntaf fel Swyddog Addysg, ac yna fel Rheolwr Addysg, Cyfranogiad a Dehongli.

Dymunwn y gorau i Elen yn ei swydd, gan edrych ymlaen at yr amser pan fydd yr amgueddfa'n ail-agor i'r cyhoedd unwaith eto, ac y cawn i gyd ddathlu ein diwydiant a'n diwylliant lleol.

Llun: Peter Hughes



**Staff yr Amgueddfa yn yr 80au - pwy ydach chi'n eu hadnabod?**

## I ddeall dy hanes rhaid i ti ddechrau wrth dy draed...

Oes gen ti ddiddordeb yn straeon a hanesion dy ardal?

Wyt ti'n chwilio am brofiadau diddorol a cyfle i ddysgu sgiliau newydd?

Wyt ti eisiau cyfrannu at waith creadigol newydd a chyfres radio?

Mae Amgueddfa Lechi Cymru ar y cyd gyda Llechi Cymru, Casgliad y Werin, Llenyddiaeth Cymru a Bardd Cenedlaethol Cymru, Ifor ap Glyn, yn chwilio am bobl ifanc 16-25 oed o ardaloedd y llechi i gyfrannu at brosiect digidol cyffrous. Bydd aelodau'r prosiect yn derbyn hyfforddiant ddiwedd Mawrth ac yn cyfweld pobl o'u cymuned ym mis Ebrill gan holi am eu hatgofion a'u profiadau o fyw ym mro'r chwareli. Bydd yr atgofion digidol yma'n cael eu rhannu gyda sgwennwyr a cherddorion o bob ardal a'u defnyddio i ysbrydoli gwaith creadigol newydd ar gyfer nosweithiau cymunedol dros zoom ym mis Mai. Caiff pytiau o rai o'r cyfweliadau hefyd eu cynnwys mewn cyfres arbennig ar Radio Cymru ym mis Mehefin a Gorffennaf.

I ddangos diddordeb ac am fwy o fanylion, ebostia lowri.ifor@amgueddfacymru.ac.uk erbyn Mawrth 1af.

O'r diwedd, dyma gael eistedd i lawr i ysgrifennu i'r Eco. Ymddiheuraf na fu i mi gael cyfle i ysgrifennu yn yr Eco cyntaf ar ôl y toriad. Mae swyddogion wedi gadael ar ôl rhai blynyddoedd a rhai newydd yn eu lle. Dros y misoedd nesaf bydd angen cydweithio ac yn sicr fe ddaw'r llwyddiant eto. Beth bynnag, mae newyddion Dinorwig yn ymddangos y mis yma. Bu i mi fwynhau Eco mis Ionawr yn arw iawn, mwy o waith darllen, ond mwynhau yn arw. Croeso cynnes i'r swyddogion newydd i'n plith.

Gobeithio y cawn flwyddyn well eleni gan y bydd 2020 yn ein cof am amser maith.

Mae cryn dipyn o bethau wedi cymryd lle yma yn Ninorwig ers dechrau mis Mawrth y llynedd. Mae llawer iawn yn yr ardal wedi cael profedigaethau. Rhag i mi adael rhywun allan wnaf fi ddim enwi neb.

Bu farw dwy o drigolion hynaf yr ardal: Mrs Megan Morris, Minffordd yn 105 mlwydd oed, a Mrs Doris Morris, Cae Gwyn, Caernarfon yn 97 mlwydd oed.

Gobeithio bod y rhai a fu yn yr ysbyty yn gwella, a'u bod adref erbyn hyn yn mwynhau gwell iechyd, fel pawb arall a fu yn cwyno. Cydymdeimlaf â'r rhai sydd mewn cartref henoed a'u plant heb eu gweld yn ystod y dyddiau anodd yma. Ond gobeithio am well eleni.

Erbyn hyn, mae dau deulu o'r stryd hon wedi ymfudo, a dau deulu newydd yn byw o boptu i mi ym Mro Elidir. Un o Lanberis yn Rhif 8 ac un o'r Fachwen yn Rhif 6. Yn anffodus, ar y 9fed o Ionawr, a chryn dipyn o eira wedi syrthio, cafodd Mark, Rhif 8, ddamwain ar yr eira gyda'i gar. Er bod y car yn da i ddim, ni wnaeth Mark frifo a dyna'r peth pwysicaf wrth gwrs. Estynnaf groeso mawr i'r ddau deulu i'r ardal a dymuno'n dda i'r plant Idris yn 5 oed yn Rhif 6 ac Osian Elidir yn 3 oed yn Rhif 8. Mae'r ddau wedi clas blas o'r eira ac wedi mwynhau yn fawr. Gobeithio y cân nhw fyw llawer o flynyddoedd yn ein plith ac y cawn ninnau weld y plant yn llwyddo.

Wrth gofio am y flwyddyn sydd newydd ein gadael a blwyddyn na ad byth yn angof, mae'r pennill yma'n dod i'r meddwl ac yn edrych ymlaen at rywbeth gwell.

*Blwyddyn Newydd*

'Beth fydd fy rhan ar hyd ei misoedd maith?

Nis gwn, fy Nuw; ni fynnwn wybod chwaith.

Ai hyfryd ddydd, ai nos dymhestlog ddaw?

Bodlon, os caf ymaflyd yn dy law.'

TJ Pritchard (1853-1947)

**Mrs Megan Price Morris**
**Mehefin 11eg, 1915 – Mehefin 23ain, 2020**

Mae'n anodd os nad yn amhosibl crynhoi bywyd rhywun sydd wedi cael oes o 105 o flynyddoedd fel Mrs Megan Morris; ond mae ein hatgofion ohoni am ran o'r blynyddoedd yn reit fyw yn y cof. Yr oedd Mrs Morris yn cofio Dinorwig fel ardal lawn o weithgareddau amrywiol, lle'r oedd rhaid dewis ble roeddech yn mynd bob noson o'r wythnos. Roedd yr addoldai'n cymryd rhan dda o'r wythnos, a Mrs Morris yn aelod ffyddlon o gapel y Bedyddwyr, Sardis. Yr oedd yn wraig a allai fod o gymorth mawr ble bynnag yr âi. Roedd yn weithgar iawn yn yr ardal a'r cartref, â gwên hawddgar ar ei hwyneb bob amser. Yr oedd yn un dda am wneud bwyd cartref, ac yn gofalu am gael pryd da o fwyd bob dydd. Cafodd ei haddysg gynnar yn Ysgol Gynradd Dinorwig, gan gychwyn yno yn 1920. Pasiodd y 'scholarship' i fynd i Ysgol Ramadeg Brynrefail. Yn yr oes honno, roedd rhaid i blant Dinorwig gerdded i lawr Ffordd Fachwen ym mhob tywydd. Yr oedd yn ddisgybl hynod o ddisglair; ac er i'r athrawon bledio arni i aros ymlaen yn yr ysgol, gadael a wnaeth yn bymtheg oed i ofalu am ei mam a'i brawd Abram. Pan ddaeth Alice ei chwaer yn ddigon hen fe fu iddi hi barhau hefo'r gwaith domestig, a Mrs Morris yn mynd i weini yn Ffestiniog.

Priododd â Mr William Morris yng Nghaernarfon gan nad oedd trwydded i gynnal priodasau yng nghapel Sardis. Buont yn Pant Sardis cyn symud i fod yn ofalwyr Tŷ Capel Sardis, lle ganwyd iddi ddau o blant, sef Eurwyn a Marsli. Yn ystod y Rhyfel, roedd Mrs Morris yn hynod o brysur yn rhedeg y tŷ a'r capel a gwylio'r plant ar ei phen ei hun gan i'w gŵr gael ei alw i'r fyddin, a mynd i Burma.

Yn y 60au cynnar symudodd y ddau o Ddinorwig i fod yn ofalwyr ar Safle'r Fenai, Y Coleg Normal. Symudwyd i raddau oherwydd cyflwr iechyd ei gŵr. Bu ef farw'n weddol ifanc, ac felly bu i Mrs Morris symud wedyn yn Fwrsar Cynorthwyol yn Neuadd Rathbone yn y Brifysgol, lle'r oedd yn byw mewn fflat ac wrth ei bodd ymysg y myfyrwyr. Bryn hynny, roedd yn aelod ffyddlon o gapel Penuel yng nghyfnod y Parchg Ifor Williams. Yr oedd yn edmygydd mawr ohono ac yntau ohoni hithau. Ym Mangor, bu iddi ymuno â phob mudiad Cymraeg a fedrai.

Ar ôl iddi ymddeol doedd dim rhaid gofyn; yn ôl y daeth i Ddinorwig i fyw, ym Minffordd. Yr oedd yn darllen llawer, ac wrth ei bodd yn crwydro. Ymwelodd â nifer o lefydd yn Ewrop, fel Oberammergau, Rhufain, Fenis a Bled.

Y teulu oedd bwysicaf yn ei bywyd, sef Eurwyn a Marsli. Ni fyddai byth yn ymyrryd yn eu bywydau, ond yn barod i drin a thrafod, a'r geiriau olaf bob amser oedd: 'Y chi sy'n gwybod orau'. Wedi cael clywed gan Eurwyn ei fod o a Nancy am briodi, a'u bod wedi meddwl priodi mewn swyddfa cofrestrydd, trefnodd Mrs Morris bopeth ar eu cyfer yn hollol ddi-stŵr: y Parchg Ifor Williams i'w priodi ym Mhenuel, a'r wledd briodas yn y festri. Cafodd fenthyg tâp recordydd er mwyn i rieni Nancy yn America glywed recordiad o'r seremoni. Gwnaeth y cyfan yn hollol ddiffwdan a'r cyfan oedd rhaid i'r ddau ei wneud oedd troi i fyny. Wrth gwrs fe fu Eurwyn a Nancy yn dragwyddol ddiolchgar iddi am wneud y cyfan iddynt. Cariad mam yn ymddangos yn gadarn iawn. Pa ryfedd i Nancy ddweud heb amheuaeth nad oedd yna fam yng nghyfraith ragorach yn yr holl fyd?

Yn ei blynyddoedd olaf, a hithau erbyn hyn ddim yn medru gwneud fel ag yr oedd wedi arfer, fe fu iddi fynd i gartrefu ym Mhlas Garnedd Llanberis lle'r oedd yn hollol fodlon a hapus. Yno y bu hyd ei dydd olaf. Mawr oedd ei diolch iddynt a'u canmol bob amser. Yr oedd yn wraig hawdd gwneud â hi ac wrth gwrs Eurwyn a Nancy yn ymweld â hi yn aml iawn a Marsli yn dod fel ag y gallai.

Er i Eurwyn a Marsli ei chael am yr holl amser yr oedd y golled yr un mor fawr, a'u gofal ohoni yn mynd yn fwy a mwy o ddydd i ddydd, a hwythau yn gweld y diwedd yn nesáu. Cydymdeimlwn yn fawr â'r plant a'r teulu oll yn eu galar a'u hiraeth, a'r lle wedi mynd yn wag. Dim mam i ddeud dim wrthi. Yr wyf yn sicr fod gennych lawer o bethau wedi eu trysori yn y meddwl ac y byddant o help mawr i chi pan dda pwl o hiraeth. Hiraeth ni dderfydd. Diolch am gael adnabod un mor annwyl â Mrs Morris. Yn angof ni chaiff fod. Mae yn gorffwys bellach yng ngofal y Brenin mawr ac wedi ymddiried ynddo ar hyd ei hoes, a'i gael yn agos pan fyddai amgylchiadau yn ddyrys ac anodd.

**Mrs Doris Morris (Roberts gynt)**


Un o blant Capel MC Dinorwig oedd Doris, yn ffrind mawr efo ni fel teulu gan iddi, cyn priodi, fyw dros y ffordd i mi. Merch i Mr a Mrs David Roberts, Tŷ Capel ydoedd, a chwaer i Wilffred. Dyn bychan o gorff oedd ei thad, a Doris yn union fel y fo. Nid oeddem ni fel plant yn rhy hoff o'i mam oherwydd pan oedd gobeithlu a ninnau yn disgwyl am i'r drws agor, byddai yn troi'r golau allan i ffwrdd ac yn dod allan i roi andros o ffrae i ni fel plant am ein bod yn creu twrw ac yn rhedeg fel pethau gwyllt.

Bu i Doris briodi â Roland Morris, Sinc, Clwt-y-bont, ac fe anwyd un mab iddynt, sef Gareth. Bu'n athrawes am flynyddoedd lawer cyn ymddeol o Ysgol Maesincla yng Nghaernarfon. Bu'n byw hefo Rol, Gareth a'i mam yn Ffordd Dewi, Caernarfon; ac yna wedi claddu ei mam a'i phriod bu iddi symud i Cae Gwyn, Caernarfon ac erbyn hyn yr oedd Gareth wedi priodi ac yn byw yng Nghaerdydd. Wedi ymddeol bu iddi weithio yn wirfoddol am rai blynyddoedd yng Nghaernarfon.

Bu'n wael am rai blynyddoedd ar ddiwedd ei hoes, ond er y cyfan yr oedd llawer o hwyl i'w gael efo hi hyd y diwedd; ac yr oedd yn andros o garedig i'r diwedd.

Fe wnaf fi ei cholli yn arw iawn oherwydd yr oeddwn yn gwneud llawer efo hi ar hyd y blynyddoedd. Roedd yn ferch deimladwy iawn ac yn barod ei chymwynas bob amser.

Doris, er y golled i un fel fi, yr wyt allan o'th boen ac yn hapus efo'r Brenin Mawr. Cwsg a gwyn dy fyd. Rhoddwyd ei chorff i orffwys gyda'i gŵr ym Mynwent Machpela, Deiniolen.



FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth
FFRAMIO LLUNIAU
www.fframia.com
Dewis eang o luniau yn yr oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy

# Chwilota Tai Bach



Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn gallu bod yn hynod ddiddorol, a rhaid canmol y rhai sy'n gyfrifol am reoli safleoedd "Ddoe a Heddiw" gwahanol bentrefi'r fro. A chanmol hefyd y rhai sy'n cyfrannu cymaint o wahanol luniau i'r safleoedd rheini. Ac fe ddaw gwybodaeth ddifyr i'r amlwg yn aml.

Gan Margaret Ellis, Nant Peris y daeth y llun hwn ar safle 'Nant Peris Ddoe a Heddiw', a diolch iddi am ganiatad i'w atgynhyrchu. Nid llun camera ydyw wrth gwrs, a does wybod pwy fu'n gyfrifol am ei lunio. Gall fod yn ddarlun fymryn yn rhamantaidd, ond mae'n dangos y math o dai oedd ar lannau gogleddol Llyn Peris – o bosib tua diwedd y ddeunawfed ganrif neu ddechrau'r ganrif ddilynol.

Dylai'r enw ymddangos ar Fap Degwm Plwyf Llanberis, ond nid felly. Er hynny, ymddengys ar gofnodion Cyfrifiad 1841 am yr un plwyf. John ac Elinor Jones, chwarelwr a'i wraig, a'r ddau yn hanner cant oed, oedd yn byw yno bryd hynny, gyda'u plant Mary (15 oed) a Griffith (11 oed). Roeddent oll wedi eu geni ym mhlwyf Llanberis, a'r teulu'n parhau yno yn 1851. Yn y flwyddyn honno, y naill ochr a'r llall i Tai Bach ar gofnodion y Cyfrifiad roedd Stamps a'r Garreg Wen.

Mae'r teulu hwn wedi symud oddi yno erbyn 1861 ond roedd Mary, y ferch, wedi priodi Hugh Lewis o Amlwch, ac yn byw yn Gallt y Llan. Ei mab hynaf oedd William, a ddaeth yn gerddor enwog iawn yn ei ddydd, ac yn perfformio dan yr enw Eos Padarn. Ar ôl priodi, symudodd i fyw i'r Felinheli, ac ar y cyfrifiadau mae'n disgrifio'i hun fel "Vocalist Music" ! Roedd Mary, ei fam, hefyd yn gantores dda, *"ac yn ei dydd, hi ydoedd y soprano orau yn y cylch".* Cai hithau ei hadnabod fel Mary Tai Bach.

John Griffiths, chwarelwr a gŵr gweddw 68 oed sy'n byw yn Tai Bach yn 1861. Mae Mary Griffiths yn cadw tŷ, a nai iddo, Samuel Jones (11 oed) yn byw neu'n aros yno. Y tro hwn mae Tai Bach yn cael ei gofnodi rhwng Stamps a Tŷ Gwyn ar y Cyfrifiad.

Methais â chael yr enw yng Nghyfrifiad 1871, ac yn yr ardal lle dylai gael ei gofnodi, ceir Stamps, Garreg Wen a Stamps eto. Tybed ai un o dai Stamps oedd Tai Bach ? A'r hyn sy'n ddiddorol yw mai un tŷ yw Tai Bach ym mhob Cyfrifiad. Felly, pam yr enw lluosog?

Mae teulu o Fôn yn byw yng Ngallt y Llan yn 1871, a'r teulu hwn sy'n symud i Tai Bach erbyn 1881, ac yn parhau yno am y deugain mlynedd nesaf. Ganed John David Roberts yn Llandyfrydog, a Grace, ei wraig, yn Llanfihangel (Llanfihangel tre'r beirdd mae'n debyg, oherwydd mae'n rhoi Maenaddwyn yn enw plwyf genedigol mewn un cyfrifiad). Yn 1871, roedd Jane eu merch yn 12 oed, a John yn flwydd; y ddau wedi eu geni yn Llanberis, ond methais â darganfod y teulu yno yn 1861.

Erbyn 1881, mae Jane wedi gadael cartref. Yn 1891, a John, y mab, yn dal gartref yn 21 oed, mae'n rhyfeddol braidd ei fod yn cael ei ddisgrifio fel 'scholar'. Hynny yw, mae'n dal i dderbyn addysg – ond pa fath, ac ymhle? Ond ddeng mlynedd yn ddiweddarach, a John David, y tad, wedi marw, mae'r mab, John John Roberts yn gweithio'n y chwarel. Cawn wybod hefyd mai tŷ 3 ystafell oedd Tai Bach. Gallwn ddychmygu fod amgylchiadau byw yn galed iawn ar unrhyw deulu fu'n byw yno.

Yn 1911 mae Grace Roberts yn 84 mlwydd oed, a'i mab, John David (nid John John erbyn hyn!) yn labrwr yn y chwarel. Dair blynedd yn ddiweddarach mae John yn priodi, ac yntau erbyn hyn yn 44 mlwydd oed. Ei wraig oedd Sarah Ellis, Pen y Gwryd, ac fe'u priodwyd yn Eglwys y Plwyf ar y 9fed o Hydref 1914. Tybed a fu plant o'r briodas?

Bu'r hen wraig, Grace Roberts farw ar yr 8fed o Ionawr 1917 yn 89 oed, a cheir adroddiad am ei marwolaeth yn y papurau lleol. Dywedir mai o gyffiniau Mynydd Bodafon ym Môn y daeth i fyw i'r ardal, a'i bod yn *"hen wraig blaen a didderbyn wyneb, yn hawdd ei deall. Nid oedd ganddi ddau air i neb – un yn yr wyneb a'r llall yn y cefn; ond byrlymai ei barn yn yr wyneb, beth bynnag fyddai. Bu yn weddw am gyfnod lled faith; ymdrechodd â'r byd, ac fe lwyddodd i gael y llaw uchaf arno."* Braidd yn amwys yw'r disgrifiad! Ychwanegir hefyd fod ganddi ddwy ferch yn yr America. Jane, yn amlwg, oedd un ohonynt, ond pwy oedd y llall? A thybed a oedd y teulu yn Tai Bach mewn cysylltiad â'r merched yn yr America ?

Am ba hyd tybed y parhaodd John a Sarah i fyw yn y tŷ bychan 3 ystafell, ac ai nhw oedd y rhai olaf i fyw yno?

ON. Wedi i mi ysgrifennu'r uchod, deuthum ar draws cofnod bedydd yn eglwys y plwyf fis Ionawr 1815: merch o'r enw Margaret i Thomas a Jane Owen, a rhoir y cyfeiriad fel Tai bach, Stamps, Penllyn. Roedd y tŷ yn bodoli felly bron i ddeng mlynedd ar hugain cyn cyhoeddi Map Degwm Llanberis.

## Siân Gwenllian AS yn galw am gynllun dal i fyny clir i ddisgyblion yn dilyn misoedd o addysg goll.

Mae angen gosod cynlluniau pendant mewn lle sy'n mynd i'r afael ag anghenion disgyblion ledled Cymru oherwydd bod Covid-19 wedi amharu ar eu haddysg, meddai Plaid Cymru.

Dywedodd Gweinidog Addysg Cysgodol Plaid Cymru Siân Gwenllian AS bod angen cynlluniau i gefnogi dysgu adre a dysgu cyfunol, ac ymgyrch recriwtio staff i sicrhau bod disgyblion yn cael mwy o ymgysylltu fel yr "allwedd i adferiad".

Ychwanegodd Ms Gwenllian y dylid "*annog athrawon a chynorthwywyr addysgu sydd wedi ymddeol i ail-ymuno*" gydag athrawon cyflenwi a ddylai gael cynnig contractau ffurfiol a dylid cynnig secondiadau ysgol i gyn-athrawon sydd bellach yn gweithio mewn swyddi eraill neu mewn awdurdodau lleol, consortia addysg neu gyrff addysgol.

Dywed Gweinidog Addysg Cysgodol Plaid Cymru, Siân Gwenllian AS,


*"Mae'r tarfu pellach anochel ar addysg yn golygu bod miloedd o'n plant a'n pobl ifanc yn cael eu gadael ar ôl a'u lles yn cael ei danseilio - mae angen i Lywodraeth Cymru gyhoeddi Cynllun Adfer Addysg a Lles i egluro'n fanwl sut y bydd disgyblion a myfyrwyr yn cael cymorth i ddal i fyny ag addysg a gollwyd.*

*"Mae angen iddo gynnwys camau ar unwaith i wella addysgu adre, opsiynau ar gyfer dysgu cyfunol pan fydd yn ddiogel yn ogystal â chynllun cynhwysfawr ar gyfer adfer y bydd angen ei weithredu dros y blynyddoedd nesaf. Dylai hefyd gynnwys Ymgyrch Recriwtio enfawr i ddenu mwy o staff oherwydd yr allwedd i adferiad yw mwy o ymgysylltu rhwng addysgwyr a myfyrwyr.*


*"Mae'r rhai sydd wedi cael eu gadael ar ôl fwyaf angen cael eu nodi drwy gynlluniau addysg unigol gyda chymorth wedyn wedi'i dargedu at y rhai sydd a'r angen mwyaf.*

*"Croesawyd cynllun adfer Covid cychwynnol y Gweinidog Addysg gwerth £29 miliwn ond nawr gydag wythnosau os nad misoedd o darfu pellach o'n blaenau, mae angen i ddisgyblion a rhieni fod yn hyderus y bydd buddsoddiad sylweddol a bod Cynllun Adfer cynhwysfawr ar y gweill, dan arweiniad yr Adran Addysg yn Llywodraeth Cymru.*

# Y Gantores a anghofiwyd


LLECHIDON.

MISS A. BLODWEN WILLIAMS
Soprano, Medalist M.C.W., a ddymuna hysbysu ei bod yn barod i dderbyn *engagements* i wasanaethu fel Soprano mewn Cyngherddau, Cylchwyliau Llenyddol, Eisteddfodau.—Am delerau, cyfeirier, Cae Howell, Pontrhythallt, Carnarvon.


**Miss A. Blodwen Williams,**
Of Llanberris, Carnarvonshire, North Wales,
Soprano, Medalist M.C.W.,
Is now open to take engagements in Miscellaneous and Oratorio Concerts in English and Welsh.
*Address: Musical College of Wales, Swansea, or 1355, Neath Road, Hafod, Swansea.*

Ym mis Mai 1884 cynhaliwyd cyngerdd yng Nghapel y Glasgoed, Penisarwaun i godi arian i ferch ifanc o'r ardal er mwyn hyrwyddo ei gyrfa gerddorol yng Ngholeg Cerdd Abertawe. Yn ystod y flwyddyn hefyd bu'n perfformio mewn nifer o fudd-gyngherddau yn y Neuadd Gyhoeddus yn Llanberis. Yn y cyngherddau rheini ymddangosai enwogion cerddorol y dydd, unawdwyr poblogaidd fel Ap Glaslyn ac Eos Padarn. Ac mae'n fwy na thebyg fod y perfformwyr hyn yn derbyn tâl am ymddangos.

Anne Williams oedd enw'r ferch ifanc, ac erbyn mis Rhagfyr 1884 roedd yn fyfyrwraig yn Abertawe, sef Coleg Cerdd a sefydlwyd gan y Dr Joseph Parry yn 1881 wedi iddo adael Aberystwyth a chael ei benodi yn organydd ar un o gapeli mawr y dref. Roedd Anne erbyn hyn tua phedair ar bymtheg neu ugain mlwydd oed.

Cafodd Anne ei geni tua 1864, merch ieuengaf Owen ac Elin Williams, Cae Howel; tyddyn bychan rhwng Pontrhythallt a Phenisarwaun. Mae sawl Cae Howel yn yr ardal, ond mae'n ymddangos mai yn Tŷ Newydd, Cae Howel, roedd y teulu'n byw. Dyna'r enw a roddir ar y cartref yng nghyfrifiadau 1881 ac 1891. Pwyswr yn Chwarel Dinorwig oedd ei thad, a chaiff ei enwi yn Y Rhestr Ddu, sef y gweithwyr a arhosodd yn eu gwaith yn ystod y Cloi Allan yn 1885. Roedd yn frwydr rhwng Ymneilltuwyr ac Eglwyswyr bryd hynny, gyda honiadau fod yr Eglwyswyr yn cael ffafriaeth yn y chwrael, ac mai'r rheini oedd yn fwy tebygol o aros yn eu gwaith. Ond nid Eglwyswr oedd Owen Williams. Roedd y teulu'n aelodau yng Nghapel y Glasgoed. Tybed a oedd arian yn brin i deulu Tŷ Newydd, ac mai rheidrwydd oedd gweithio i'r tad? Efallai hefyd ei fod yn cyfrannu rhywfaint tuag at addysg gerddorol ei ferch yn Abertawe. Does wybod beth oedd amgylchiadau ariannol y rhai a enwir yn Y Rhestr Ddu.

Roedd Anne yn bendant yn y Coleg Cerdd hyd 1886, ond erbyn diwedd 1887 roedd wedi dychwelyd i'r cartref. Erbyn hyn roedd yn galw ei hun yn Anne Blodwen Williams, ond nid yw'n ymddangos fod Blodwen yn enw bedydd. Yn 1871, a hithau'n chwech oed, Anne yn unig sy'n ymddangos ar y cyfrifiad. Yn 1881 mae'n Anne E. (Elin efallai, ar ôl ei mam), ond o 1891 ymlaen mae'n Annie B. Yn y flwyddyn hon hefyd mae'n disgrifio'i hun fel *'professional singer'*.

A ddefnyddiodd yr enw Blodwen o ran parch i'w hathro cerddorol yn Abertawe, sef Joseph Parry, cyfansoddwr yr opera Gymraeg gyntaf o'r un enw? Perfformiwyd yr opera gyntaf yn Aberystwyth ym mis Mai 1878, a honnir nad oes cofnod swyddogol o unrhyw ferch yng Nghymru cyn hynny yn dwyn yr enw Blodwen. Ar ddiwedd degawd y 1880'au roedd Anne yn hysbysebu yn y wasg fel soprano oedd wedi derbyn medal M.C.W. (Musical College, Wales), ac ar gael i berfformio mewn eisteddfodau a chyngherddau, gan gynnwys oratorios, ac yn alluog i wneud hynny yn Gymraeg a Saesneg.

Er hynny, mae'n ymddangos mai byr fu ei gyrfa gerddorol. Erbyn 1901 mae'n byw gartref gyda'i mam weddw, ac yn disgrifio'i galwedigaeth fel 'dressmaker'. Ond fel Anne Blodwen y cai ei hadnabod bellach, ac fel Anne Blodwen Williams y priododd ym mis Ionawr 1915 gyda David J. Roberts o Hafod Wern, Betws Garmon, a hynny yng Nghapel Engedi, Caernarfon. Yng Nghae Howel y buont yn byw wedyn, gyda'i gŵr yn aelod gweithgar yng Nghapel y Glasgoed. Bu Anne Blodwen farw yn Ionawr 1942 a'i chladdu ym mynwent Llanddeiniolen.

Yn y gyfrol "Bro Deiniol" gan Thomas Phillips, a gyhoeddwyd yn 1936, does dim sôn amdani o gwbl gan yr awdur, er fod y ddau wedi eu geni o fewn ychydig fisoedd i'w gilydd; yn byw o fewn lled rhyw dri neu bedwar cae i'w gilydd, ac wedi mynychu Ysgol Tan y Coed, Penisarwaun yn yr un cyfnod os nad yn yr un dosbarth. Ac yr oedd tad yr awdur, sef Thomas Phillips yr hynaf, yn arwain y canu yng Nghapel y Glasgoed, a byddai'n sicr wedi bod yn ymwybodol o ddoniau cerddorol a llais arbennig yr eneth ifanc. Ond yr oedd yr awdur wedi gadael yr ardal am Lerpwl yn ŵr ifanc, ac wedi mudo i'r America yn 1884, gan aros yno am naw mlynedd cyn dychwelyd i Lerpwl unwaith eto. Ac erbyn hynny, mae'n ymddangos fod gyrfa gerddorol fer Anne Blodwen yn dirwyn i ben.

Tybed a oes disgynyddion i blant eraill Owen ac Elin Williams yn dal yn yr ardal, a gyda mwy o wybodaeth am y gantores? Ac ar drywydd arall yn yr un ardal, a oes gwybodaeth gan unrhyw un o'r darllenwyr am Jenny Jones, "athrawes gerddorol o fri yn America" a fu'n aros gyda'i hewythr, W.G.Jones yn ystod Awst 1914 – a hynny yng Nghae Howel.

**Dafydd Whiteside Thomas**






# Ar ben arall i'r lein



Tony Brown



Ian Williams



Dr R Parry

Ar ddechrau blwyddyn newydd, beth gaiff ei daflu i'n ffordd dros y misoedd sydd o'n blaenau tybed? Mae un peth yn weddol sicr: ni all fod lawer mwy cythryblus na'r misoedd sydd tu cefn i nil. Ond un peth sydd yn hollol bendant yw y byddaf flwyddyn yn hŷn. Sobor iawn yn de! Ond blwyddyn yn hŷn neu beidio, rwyf wedi gwneud addewid i mi fy hun y byddaf allan yn pysgota'r dyfroedd ar bob cyfle, doed a ddêl; a hyn wrth gwrs am fy mod wedi methu â throedio'r glannau o gwbwl yn ystod 2020. Rwy'n eithriadol o ddiolchgar, ac yn ffodus bod gennyf unwaith eto symudedd llwyr.

Er bod 2020 wedi bod yn amser go ryfedd i bawb, gyda'r rhwystrau rhag symud a chymysgu, efallai mai dyna oedd y rheswm i lawer ail afael yn yr enwair. Gobeithio bydd hyn yn parhau. Adroddais yn rhifyn Rhagfyr, bod y rhediadau o eog a gwyniadau wedi gwella'n aruthrol; a dyma wrth gwrs reswm arall – ac o bosib y prif reswm – am boblogrwydd y pysgota. Dywedodd y diweddar Moc Morgan wrthyf flynyddoedd yn ôl, "Dangos bysgod yn ein dyfroedd, a mi ddangosaf i ti'r pysgotwyr yn ceisio eu bachu". Wel, yn ystod y tymor a fu, mi ddaeth y pysgod – a'r pysgotwyr!

Mater fydd yn ein wynebu yn ystod mis Mai eleni fydd yr Etholiad i benodi aelodau i'r Senedd yng Nghaerdydd. Mi ddaw gwybodaeth di-ri drwy'r drws yn o fuan, gydag addewidion gan bob plaid. Ond gyda'r pandemig hwn o gwmpas y lle, ni fydd lawer o gnocio drysau o bosib. Felly, sut mae cael sylw i'n gofynion a'n gobeithion tybed? Ar y funud, yr un peth sgin i dan sylw ydi sut i gael gwell gwasanaeth i'n pysgodfeydd gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Rhan o gylch gwaith y corff hwn yw Gwarchod, Gwella a Datblygu Pysgodfeydd Cymru. Ia, cofiwch, gweision y Llywodraeth yn y Bae yng Nghaerdydd yw CNC, ac felly cyfrifoldeb y Senedd yw sicrhau bod ein pysgodfeydd yn cael y sylw angenrheidiol. Fel ag y mae pethau, mae potsio fel pandemig o gwmpas Cymru: mae'r rhai sydd wrthi mor agored gyda'u troseddu fel eu bod yn hysbysu eu gweithredoedd ar 'Facebook', gyda lluniau ohonyn nhw eu hunain a'u lladdedigion. Er dod â hyn i sylw'r awdurdodau, yr ateb a ddaw nôl yw nad yw hynny'n ddigon o dystiolaeth i warantu erlyniad. Ymateb arall wrth gwrs, ac o bosib yn nes at y gwirionedd, yw bod nifer y ciperiaid wedi lleihau, fel nid oes yng Nghymru, erbyn heddiw, ond sgerbwd o wasanaeth. Felly, buasai'n beth doeth i bob deilydd trwydded bysgota yng Nghymru – sef 30,000 o unigolion – holi eu hymgeiswyr yn yr Etholiad be maent yn bwriadu ei wneud am hyn. Ond cofiwch, rydw i a nifer o bobl eraill ar draws y wlad wedi bod yn pregethu am hyn ers blynyddoedd.

Mi fyddaf yn ei chael hi gan rai am fy mod yn rhy feirniadol o Gyfoeth Naturiol Cymru. Mi rydw i, wrth gwrs, yn derbyn y cyhuddiad hwnnw. Ond mi fyddaf hefyd yn rhoi canmoliaeth pan yw'n haeddiannol – fel y cynllun i ail stocio torgoch i Lyn Padarn, sydd wedi bod yn llwyddiant mawr. Ond peidiwch chwaith ag anghofio'r ffaith na fyddai angen cynllun stocio petasai CNC a Dŵr Cymru wedi gweithredu fel mae pawb yn disgwyl iddynt wneud. A do, mi gymrodd 30 mlynedd iddynt weithredu fel y dylent, a hynny yn unig yn dilyn gwaith ardderchog *Fish Legal* ar ran y Gymdeithas. Beirniadol eto tybed?

Gan fy mod wedi cyffwrdd â'm ffefryn, y torgoch, mae'n rhaid ail godi mater yr ydym fel Cymdeithas wedi ceisio ei hybu ers nifer o flynyddoedd, sef ceisio dod â rhyw fudd economaidd i'r fro trwy ddefnyddio ein hasedau. Pysgota, a chynnig pysgota o safon am bris rhesymol i drigolion y fro yw prif nod y Gymdeithas; ond trwy i ni sicrhau'r pysgota dros y blynyddoedd, daeth nifer o asedau eraill i'n meddiant. Un o'r rhain yw'r hen felin, sef Melin y Cim, ym Mhontllyfni, sydd erbyn heddiw'n llety hunan gynhaliol llewyrchus iawn; ac mae'r incwm ohono'n ein galluogi i gadw'r pris ymaelodi â'r Gymdeithas yn weddol resymol. Mae nifer yn cael budd o'r gwaith a ddaw yn sgil y datblygiad hwn. Wrth gwrs, rhaid diolch am gymorth eithriadol gan swyddogion adran datblygu economaidd Cyngor Gwynedd am wneud hyn i gyd yn bosib.

Ased arall a ddaeth i ni yn sgil pryniant dyfroedd y Faenol yn 1986 oedd hen felin arall, sef Melin y Faenol, yn Crawia. Mae'r safle hwn wedi cynnal deorfa'r Gymdeithas ers bron i bum mlynedd ar hugain erbyn hyn. Oes, mae yna fagu brithyll yn mynd ymlaen yno, ond ers i Gyfoeth Naturiol Cymru benderfynu atal unrhyw fagu artiffisial o eog a brithyll môr mae'r safle'n cael ei dan-ddefnyddio. Un syniad sy'n cael ei ystyried gennym yw dechrau gweithgaredd a fuasai'n boblogaidd dros ben, a hefyd yn fuddiol dros ben i goffrau'r fro; sef magu torgoch at y farchnad. Dwi wedi bod yn eithriadol o ffodus dros y blynyddoedd o gael pysgota drwy Brydain a'r Iwerddon a gweld nid yn unig yr holl bysgota ond hefyd y budd a ddaw trwy'r pysgod. Un o'r ffefrynnau yn yr Alban yw medru cael pryd o fwyd blasus yn cynnwys torgoch – neu iddynt hwy, yr *Arctic Charr*. Dyma un o'r ffefrynnau mewn bwytai o amgylch Loch Lomond, fel mae arwyddion o flaen y bwytai'n dynodi. Wel, pam mewn difri na chawn ni efelychu hyn yma? Meddyliwch am fwytai Llanberis yn gallu cynnig 'Torgoch Padarn' ar eu bwydlenni, a'r rhain wedi eu magu ar lannau dyfroedd y Seiont. Rydym wedi trio cael y maen hwn i'r wal o'r blaen; ond yn anffodus, mae olwynion biwrocrataidd Cymru'n dweud 'Na'. Ond ystyriwch am funud be fyddai'n dod allan o hyn: cael hawl efallai i godi safle magu i fodloni'r farchnad gan y byddai yna alwad mawr am y cynnyrch lleol hwn. Safle delfrydol ar gyfer hynny fyddai tir hen felin arall o eiddo'r Gymdeithas, sef Melin Bron Seiont, Pont Rug. Yn sgil hyn, byddai cyfleoedd cyflogaeth a llwybr gwaith i nifer o'n pobl ifanc yn y maes hwn. Ond dyma fi eto'n rhedeg ymlaen gyda syniadau na chaiff eu gwireddu, oni bai bod rhyw wleidydd efallai mewn cyfnod etholiad yn sylweddoli bod yma gynllun gwerth ei gefnogi! Cawn weld yn de.

Yn *Eco*'r Nadolig, cyfeiriais at gyflwyno tlysau'r Gymdeithas. Gwnaed hyn yn y ddeorfa fore Sadwrn, Rhagfyr 12fed. Dyma'r enillwyr: Tlws Tomi Lovell – Tony Brown; Tlws W J Williams – Dr. Robin Parry; Tarian J V Evans – Ian Williams; Tarian Garmon (Oscar Evans) – Ianto Dafydd.

**Huw Price Hughes**



Ianto Dafydd

# Crynodeb o Gofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

## 5ed Ionawr 2021

**Cyfarfod 1af Rhagfyr 2020**
Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir

**Materion o'r cofnodion**
**Cyfyngiadau Parcio** - Mae'r Cyngor Sir wedi derbyn sawl cwyn am y cynllun yn Allt Ddu, felly ni fydd cyfyngiadau parcio yno ar y cynllun yn ei ffurf bresennol. Fodd bynnag fe fydd y Cyngor yn monitro'r sefyllfa.
**Llythyrau Diolch** - Derbyniwyd ymateb o ddiolch am rodd ariannol gan: Clwb Snwcer Deiniolen a Phwyllgor Neuadd Penisa'r-waun.
**Caeau Chwarae** - Bydd cyfarfod o'r is bwyllgor ar y 26ain Ionawr am 7:00 yn rhithiol.
**Eco'r Wyddfa** - Braf yw gweld y papur Bro yn ôl gyda ni, ac oherwydd bod yr ansicrwydd ynghylch a'r argraffu a dosbarthu wedi clirio, derbyniwyd cais am rodd ariannol gan fod y papur yn cael ei argraffu ac wedi ail gychwyn eto. Penderfynwyd cyfrannu £300.

**Gohebiaethau a Materion Eraill**
**Biniau Halen -** Derbyniwyd rhestr o finiau halen oedd angen eu llenwi yn ardal Dinorwig - bydd y clerc yn cysylltu yn syth yr wythnos yma i roi cais i Gyngor Gwynedd i ail lenwi'r biniau halen.

Marchlyn - Mae ymwelwyr i ardal Marchlyn yn niferus. Parciodd dros 200 o geir yno ar Ddydd Mawrth 28ain Rhagfyr. Roedd ymddygiad y rhan fwyaf o'r bobl tuag at breswylwyr yr ardal yn warthus. Gofynnwyd i'r clerc lythyru Cyngor Gwynedd, yr Heddlu, Grid Cenedlaethol, Hydro Power, Dwr Cymru a'r OPCC.

**Lonydd a Llwybrau Tarmac** - Cwyn bod llifogydd yn creu niwed i darmac ar waelod Llwybr Sinc, wrth ymyl Ger yr Afon ac wrth ymyl Tŷ Gorlan ar Lon Garnedd. Mae hyn yn gwneud y llwybr yn beryglus o dan droed. Cysylltu â Chyngor Gwynedd.

**Tarmac y Lôn yng ngwaelod Nant y Garth** - Yr un peth o bosib yn digwydd yma ond ar briffordd. Llythyr i briffyrdd Cyngor Gwynedd.

Ceisiadau Cynllunio
**C20/1039/18/DT - 6 Tai Caradog, Deiniolen**
Creu estyniad llawr cyntaf yn y cefn **Dim Gwrthwynebiad**
**C20/1059/18/LL - Y Fachell, Llanddeiniolen**
Cais ar gyfer codi adeilad deulawr er mwyn creu 2 uned wyliau. **Gwrthwynebu oherwydd bod angen mwy o wybodaeth cyn rhoi barn**
**C20/1016/18/LL - Cae Goronwy, Fachwen**

Addasu'r distyllfa fach yn ôl i ddefnydd preswyl sy'n atodol i ddefnydd y prif dŷ Cae Goronwy. Gwrthwynebwyd y cais oherwydd eu bod yn torri rheolau cynllunio drwy adeiladu patio ar draws llwybr cyhoeddus hanesyddol, a gosod dôr yn lle'r giât. Hefyd wedi creu llwybr cwrteisi does ddim o'i angen.
**C20/1041/18/AC - Tir ger Tŷ Elin, Penisarwaun.**
**Dim Sylwadau**
**C20/0901/18/LL - Holsten House, Penisarwaun**
Cais i godi tŷ deulawr ar wahân a gwaith cysylltiol. **Dim Gwrthwynebiad**
**Gelli Gyffwrdd - Nid yw'r Cyngor wedi derbyn cais cynllunio, er ein bod yn ymwybodol bod yna gais cynllunio wedi ei gofrestru.**

Llwybrau
Llwybrau gyda diffygion wedi tynnu i sylw Cyngor Gwynedd yn disgwyl adroddiad yn ôl
Giât Mochyn, Carreg y Gath
Llwybr rhwng Tŷ Mawr a Hafod y Fraich, Deiniolen
Cae Goronwy
Llwybr 16 Rhiw Goch, Clwt Bont I Frynrefail
Tros y Waun I Dros y Waun Fach rhif 61, 61A, 63 a 64
Llwybr i Gegin Arthur
Llwybr Sinc - Tarmac yn waelod

**Cyllideb a Praesept**
Edrychwyd yn fanwl ar ein mantolen 9 mis i weld ein sefyllfa a thebygrwydd y 3 mis nesaf, cyn edrych ar addasu cyllideb y flwyddyn nesaf 21/22, a gosod cyllideb ar gyfer y 2 flynedd ganlynol. Bûm yn edrych yn fanwl ar ein sefyllfa, ac erbyn hyn mewn sefyllfa i osod targedau i geisio rhoi sylw i lwybrau sydd angen Gwaith i ddod i allu eu defnyddio yn gyfforddus a diogel. Mae'r Cyngor felly yn gosod yn ychwanegol yn ein cyllideb swm i dargedu i wella ein llwybrau cyhoeddus yn ystod y 2 flynedd nesaf. Y gobaith yw cyd weithio gyda Chyngor Gwynedd. Rydym hefyd yn rhoi swm penodol i gael prynu a gosod hysbysfwrdd ymhob pentref. Byddwn yn gorfod gweithio gyda'r adran gynllunio yng Nghyngor Gwynedd i gael caniatâd ayyb ar gyfer hyn. Penderfynwyd a derbyniwyd y gyllideb. Mi fydd Praesept Y Cyngor yn aros yr un fath eleni a llynedd ar £31800. Daeth y drafodaeth i ben yn dilyn cyfarfod llwyddiannus iawn.

**O gwmpas y Bwrdd**
Penisa'r-waun - Dŵr ar y ffordd o'r Hen Ficerdy i Dan y Gaer. Gyrru cais i Gyngor Gwynedd i lanhau'r gwteri.

Gwteri - Pob pentref angen eu glanhau.

Calendr Ailgylchu - Nid yw'r Cyngor yn dosbarthu calendr ailgylchu eleni, ond ar gais. Fodd bynnag, maent i'w cael ar wefan Y Cyngor Sir.

Mae llawer yn cysgu yn ddigartref, ac mae llawer o bobl Gymreig ein hardal, pobl nad ydym yn ymwybodol ohonynt, heb gartref na bwyd, ond hefyd ddim eisiau gofyn am help. Os oes rhywun yn gwybod am unrhyw un, plîs cyfeiriwch nhw tuag at y cymdeithasau priodol i ddiwallu eu anghenion.

Hefyd bu i bapur newydd 'The Light' gael ei roi trwy ddrysau tai un pentref. Mae yna wybodaeth ar gael gyda rhyddid i bawb roi allan. Ond mae yna wybodaeth ffug hefyd sydd yn cael ei rannu o ddrws i ddrws, ac mae darllen hyn yn gallu cael effaith sobor ar rai oedrannus ein plwyf. Rydym yn cynghori pawb i ddilyn canllawiau'r llywodraeth a'r Bwrdd Iechyd.

# Is-etholiad Cyngor Gwynedd Ward Llanrug

Yn dilyn marwolaeth y Cyng. Charles Wyn Jones mae Cyngor Gwynedd wedi cyhoeddi eu rhybudd swyddogol er mwyn ethol Cynghorydd i'r sedd wag. Cadwch olwg allan yn y wasg a gwefan Cyngor Gwynedd, felly, am wybodaeth am y trefniadau ar gyfer yr etholiad fydd i'w gynnal ar 25 Mawrth 2021.

Meddai llefarydd ar ran Cyngor Gwynedd: "Er mwyn sicrhau bod pleidleisio yn eich gorsaf bleidleisio leol yn brofiad diogel, gallwch ddisgwyl gweld newidiadau tebyg i'r rheiny sy'n bodoli mewn siopau neu fannau o dan do. Bydd disgwyl i bobl sy'n bwrw eu pleidlais wisgo gorchudd wyneb a dilyn canllawiau iechyd cyhoeddus mewn perthynas â chadw pellter cymdeithasol a diheintio dwylo."

**CYNGOR GWYNEDD RHYBUDD ETHOLIAD**
**Etholiad Cynghorydd dros Ranbarth Etholiadol Llanrug**
Cynhelir etholiad am UN Cynghorydd Sirol dros Ranbarth Etholiadol Llanrug.

Rhaid cyflwyno Papurau Enwebu i'r (Dirprwy) Swyddog Canlyniadau yn Cyngor Gwynedd, Swyddfa'r Cyngor, Stryd y Jêl, Caernarfon ar unrhyw ddiwrnod gwaith ar ôl dyddiad y rhybudd hwn ond heb fod yn ddiweddarach na 4.00pm ar DDYDD GWENER 26 CHWEFROR 2021.

Gellir cael Ffurflenni Papur Enwebu oddi wrth y (Dirprwy) Swyddog Canlyniadau a bydd yn barod ar gais unrhyw etholwr o'r rhanbarth etholiadol i baratoi papur i'w lofnodi.

Os bydd etholiad, cynhelir y pleidleisio ar **DDYDD IAU 25 MAWRTH 2021.**

Rhaid i geisiadau newydd am pleidlais bost neu newidiadau yn y trefniadau presennol ar gyfer pleidleisio drwy'r post gan etholwyr neu eu dirprwyon sydd eisoes â phleidlais bost am gyfnod amhenodol neu benodol, gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol erbyn **fan bellaf 5pm ar Ddydd Mercher, 10 Mawrth 2021**.

Rhaid i geisiadau newydd ar gyfer pleidleisio drwy ddirprwy, gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol erbyn **fan bellaf 5pm ar Ddydd Mercher 17 Mawrth 2021** os ydynt i fod yn effeithiol ar gyfer yr etholiad hwn.
Dilwyn O. Williams, Swyddog Canlyniadau, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH
Dyddiedig y 18fed Chwefror 2021.
01286 679291 – etholiad@gwynedd.llyw.cymru

# Datblygiadau ym myd amaeth

**Neilltuwch 15 munud i lenwi'r Arolwg Ffermio Mawr**

Mae RABI wedi lansio'r arolwg mwyaf erioed yn ymwneud â llesiant pobl sy'n ffermio. Nod yr Arolwg Ffermio Mawr yw dod i ddeall sut mae'r heriau mwyfwy cymhleth yn y sector yn effeithio ar les meddyliol a chorfforol pobl, ynghyd ag iechyd busnesau ffermio.

Gan fod y pwysau'n cynyddu a'r ansicrwydd yn parhau yn y sector, bydd yr ymchwil hanfodol hwn yn darparu trosolwg cynhwysfawr ar y gymuned ffermio ledled Cymru a Lloegr. Mae'r ymchwil yn ceisio canfod yr heriau penodol y mae cenhedlaeth o bobl sy'n ffermio yn eu hwynebu a deall sut mae'r rhain yn effeithio ar fywyd bob dydd.

Mae RABI wedi cefnogi'r sector ffermio ers dros 160 o flynyddoedd, ac yn nawr mae wedi pennu'r targed uchelgeisiol o gasglu 26,000 o ymatebion arolwg yn ystod yr wythnosau hyd at 31 Mawrth 2021. Mae Prif Weithredwr RABI, Alicia Chivers, yn annog pawb ym myd ffermio i gefnogi'r prosiect.

*"Er mwyn gwasanaethu ein cymuned yn effeithiol, mae angen gwella'n dealltwriaeth o sut mae'r heriau a'r ansicrwydd sy'n wynebu pobl sy'n ffermio yn effeithio ar eu bywyd bob dydd. Credwn y bydd y darn pwysig hwn o ymchwil yn ein helpu i ddeall yn well beth yw'r materion sy'n effeithio ar fywyd bob dydd ac yn llywio ein dealltwriaeth," esboniodd Alicia.*

*"Dim ond 15 munud fydd ei angen i lenwi'r holiadur a bydd pawb sy'n cymryd rhan yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at greu darlun cynhwysfawr o fywyd ym myd amaeth heddiw. Bydd yr ymchwil yn galluogi RABI a'n partneriaid i ddatblygu offer a gwasanaethau mwy effeithiol i wella llesiant ffermwyr nawr ac yn y dyfodol."*



William Shilvock, Swyddog Datblygu'r Rhwydwaith Gymuned Ffermio

*"Yn ogystal â thystiolaeth anecdotaidd neu leoledig, mae gwir angen i gael tystiolaeth ddibynadwy, ar raddfa eang, ynghylch llesiant pobl sy'n ffermio. I gyflawni hyn rydym yn gweithio gyda sefydliadau a busnesau ar draws y diwydiant i hybu'r Arolwg Ffermio Mawr drwy eu rhwydweithiau. Yn bwysicach fyth, rydym eisiau i unigolion gymryd rhan, neilltuo 15 munud i lenwi'r arolwg, a gofyn i aelodau eraill eu cartref neu eu rhwydwaith ffermio wneud hynny hefyd.*

Cynhelir yr arolwg gan y Ganolfan Ymchwil Wledig ym Mhrifysgol Caerwysg, a bydd yn agored i'r holl ffermwyr, gweithwyr fferm, eu cymheiriaid, a phlant sy'n oedolion, tan 31 Mawrth 2021. Mae'r arolwg ar gael ar-lein drwy wefan RABI, ac mae copïau caled yn cael eu dosbarthu hefyd mewn cyhoeddiadau ffermio allweddol.

Cymerwch ran yn http://ex.ac.uk/BigFarmingSurvey Nawr, neu gofynnwch am gopi printiedig gan FarmSurvey@exeter.ac.uk

**Rhwydwaith y Gymuned Ffermio, FCN Cymru**

Mae Rhwydwaith y Gymuned Ffermio neu FCN Cymru yn cynnig cefnogaeth i ffermwyr a'i teuluoedd ar draws Cymru a Lloegr. Sefydlwyd y mudiad dros ugain mlynedd yn ôl . Bellach mae tîm o weithwyr achos profiadol Cymraeg ar gael i gynorthwyo ffermwyr a'i teuluoedd yn yr amseroedd anodd ac ansicr yma. Bydd y gweithwyr yma yn cynnig cymorth a chyd-gerdded gydag unrhyw un sydd yn chwilio am gymorth a cefnogaeth. Ond tydi hyn yn da i ddim onibai fod pobol yn gwybod am y mudiad a sut y gall fod o gymorth iddyn nhw neu eu cydnabod.

Mae swyddog newydd wedi ei benodi fel Swyddog Datblygu'r Rhwydwaith Gymuned Ffermio. Magwyd William Shilvock yn Y Ffor ger Pwllheli ac ar ôl treulio amser yng Ngholeg Prifysgol Aberystwyth yn astudio Amaethyddiaeth a Chadwraeth Cefn Gwlad bu'n gweithio ar Fferm laeth, cwmni codi adeiladau amaethyddol a diwydiannol yn ogystal â gweithio fel swyddog cyswllt ffermydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae William wedi ymgartrefu yn Llithfaen gyda'i bartner Angharad a'r meibion Seth a Albi. Dywedodd ei fod yn "llawn sylweddoli'r angen am gefnogaeth i ffermwyr a'u teuluoedd gan y bydd sail yr economi amaethyddol yn newid yn y blynyddoedd nesaf" ychwanegodd ei fod yn "edrych ymlaen i hyrwyddo yr elusen fel bod pawb yn gallu manteisio arni."

Y cyfan sydd angen wneud ydi ffonio 03000111999 unrhyw dro rhwng 7yb ac 11yh ac fe gewch wasanaeth cyfan gwbl gyfrinachol a personol. Galwch hefyd ymweld ê fcn.org.uk/?lang=cy neu www.farmwell.cymru am fwy o wybodaeth.

# Bwytawr Pechodau

Hen gymeriad od ac anghyffredin yn ardal y Waunfawr yn yr hen amser, oedd un a adwaenid yn lleol fel y 'Bwytawr Pechodau'. Rhyw greadur wedi ymwrthod â phob cymdeithas oedd hwn, yn byw fel meudwy yn y coed rhwng tyddyn Gwredog Isaf, a fferm Plas Glanrafon, ar gyffiniau pentref y Waun.

Pan fyddai un wedi marw yn y gymdogaeth ac eisiau sicrwydd cael gwared â'i bechodau cyn diwrnod ei gladdu, byddai teulu'r ymadawedig yn mynd ati i wneud teisen. 'Clompen', fel cacen gri fawr wedi ei gwneud gyda phob dim gorau ynddi. Mi roedd sicrwydd wrth ei gwneud, â'i gwneud yn dda, y câ'i ei bwyta bob tamed, ac mi roedd hynny yn beth pwysig. Wedi i'r deisen grasu, fe'i rhoddid ar frest yr ymadawedig a'i gadael i oeri. Yn y broses o oeri, byddai'r deisen yn sugno'r pechodau o enaid y trancedig ac i mewn iddi ei hun. Gyda'r deisen yn oer, â'r pechodau wedi eu gwared, byddai'r corff wedyn yn bûr, ac yn barod ar gyfer ei gladdu.


Yn dilyn yr angladd, rhaid oedd mynd â'r deisen i'r Bwytawr Pechodau. Nid nepell o goed Plas Glanrafon, roedd carreg arbennig, 'Carreg Pechodau' fel y'i gelwid, lle gadawyd y deisen ar ei gyfer. Gyda'r deisen yn ei lle, yna byddai'r galarwyr yn cilio i ymguddio yn y llwyni i weld yr hen fwytawr yn dod i'r golwg. Byddai'r hen fwytawr yntau yn eu gwylio hwythau o'i guddfan yn y coed, a phan welai bod y ffordd yn glir, deuai allan o'i loches yn llechwraidd tuag at y garreg a'r deisen. Byddai'r hen feudwy newynog fel anifail ar lwgu, ac mewn amrantiad, byddai wedi ymosod ar y deisen a'i thraflyncu yn drachwantus a rheibus. Yna, gyda phob gronyn wedi ei fwyta, dychwelyd i'w guddfan i gysgu yn nhyfiant y gwair.

Pe ddigwyddai i ddau neu dri o bobl farw o fewn ychydig amser i'w gilydd, yna byddai mwy na digon o deiseneau ar gyfer y Bwytawr Pechodau i'w ddigoni am ddyddiau.

Mae'n siwr y cafodd pob un o'r creaduriaid gafodd y deisen, a'i rhoi ar y garreg ger coed Plas Glanrafon, gyrraedd pen eu taith yn ddiogel heb unrhyw anhawster.

Ond beth am y Bwytawr Pechodau, tybed gafodd yntau gyrraedd pen ei daith yn ddiogel? Does wybod.

**Gwilym Morris Jones**

# Diogelu dyfodol Clwb LHDT+ GISDA




Mis Chwefror oedd mis hanes LHDT+ gyda nifer o weithgareddau codi ymwybyddiaeth a chyfres ddrama arbennig Russell T Davies, 'It's A Sin' yn amlygu'r anghydraddoldebau a'r heriau sydd wedi wynebu'r gymuned hon dros y blynyddoedd. Mae'n galonogol felly i glywed bod dyfodol Clwb LHDT+ yr elusen GISDA yng Nghaernafon wedi ei ddiogelu am ddwy flynedd diolch i £100,000 gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Mae'r clwb yn cwrdd yng Nghaernarfon bob yn ail nos Lun ac mae'n cefnogi pobl ifanc rhwng 14 a 25 oed sydd yn lesbiaid, hoyw, deurywiol a thraws. Y nod ydy cefnogi a grymuso pobol ifanc LHDT+ drwy gynnig lle diogel sy'n derbyn a gwerthfawrogi pwy ydyn nhw, ac yn hyrwyddo'u hiechyd a lles.

Mae'n ofod lle y gallant fod yn nhw eu hunain, cyfarfod â phobol ifanc LHDT+ eraill, cymryd rhan mewn gweithgareddau, siarad am eu bywydau, mwynhau byrbrydau, cael hwyl ac ennill ymdeimlad o berthyn.

Yn dilyn cais llwyddiannus am grant Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, bydd y prosiect yn cael ei ail lansio o'r newydd yn 2021 gyda'r gobaith o sefydlu clwb newydd ym Mlaenau Ffestiniog fel nad oes rhaid i bobl ifanc deithio.

Dywedodd Sian Elen Tomos, Prifweithredwraig GISDA,

*"Rydym wedi gwirioni gyda llwyddiant ein cais Loteri Genedlaethol! Mae'r clwb wedi bod yn rhedeg ers blynyddoedd ond wedi bod yn ddibynnol iawn ar wirfoddolwyr gweithgar a photiau bach o arian a rhoddion. Bydd yr arian ychwanegol yn newid byd, yn gosod sylfaen gadarn i'r gwasanaeth yng Ngwynedd ac yn ein cynorthwyo i godi ymwybyddiaeth ac addysgu eraill o anghenion a rhwystrau sydd yn wynebu pobl ifanc LHDT+.*

*"Rydym yn gobeithio datblygu clybiau mewn rhannu eraill o Wynedd, gan ddechrau ym Mlaenau Ffestiniog. Byddwn hefyd yn hyfforddi aelodau'r clwb i fod yn fentoriaid ifanc gan gymryd rhan flaenllaw yn sut mae'r clwb yn cael ei redeg.*

*"Mae'r cyfnod clo wedi bod yn eithriadol o anodd i bobl ifanc yn gyffredinol, ond mae hi wedi bod yn heriol iawn i bobl ifanc o'r gymuned LHDT+ sydd yn ddibynnol ar glybiau a chyfoedion i gael cefnogaeth i ddeall eu teimladau a'u rhwystrau."*

Dywedodd Ruth Bates, Pennaeth rhanbarth Gogledd Cymru Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol:

*"Mae GISDA yn gwneud gwaith anhygoel yng Ngwynedd, gan roi cefnogaeth ddwys a chyfleoedd i bobl ifanc y sir. Mae'n dyled ni'n enfawr i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol am ei gwneud hi'n bosibl i ariannu prosiectau fel un GISDA sy'n trawsnewid bywydau pobl mewn modd mor gadarnhaol, yn enwedig yn ystod y cyfnod heriol hwn pan mae angen y gefnogaeth honno yn fwy nag erioed."*

Am fwy o wybodaeth am y clwb, ewch i www.gisda.org

# Cyfrifiad 2021

Cynhelir y Cyfrifiad (Census) nesaf ar 21ain o Fawrth, 2021.

Dyma gwestiynau sy'n cael eu gofyn yn aml ac atebion iddynt:

**Beth yw'r Cyfrifiad?**

Arolwg unigryw sy'n cael ei gynnal unwaith bob 10 mlynedd yng Nghymru a Lloegr. Mae wedi ei gynnal bob degawd ers 1801,ac eithrio 1941.

**Pryd fydd y Cyfrifiad nesaf?**

Caiff ei gynnal ym mis Mawrth 2021. Bydd cartrefi yn cael llythyr yn y post ddechrau mis Mawrth a fydd yn cynnwys manylion am sut i gymryd rhan yn yr arolowg gorfodol. Byddwch hefyd yn cael cod mynediad unigryw er mwyn gallu llenwi'r arolwg ar lein, er bod holiaduron papur ar gael ar gais.

**Pam ddyliwn i lenwi'r holiadur?**

Drwy gymryd rhan, byddwch chi'n helpu'r broses o wneud penderfyniadau sy'n llywio eich cymuned. Gallai hyn gynnwys ysgolion, meddygfeydd, gwasanaethau brys neu hyd yn oed grwpiau cymorth lleol. Mae elusennau hefyd yn defnyddio gwybodaeth o'r cyfrifiad er mwyn helpu i gael y cyllid sydd ei angen arnynt. Mae busnesau'n ei ddefnyddio i benderfynu ble i leoli eu hunain, sy'n creu cyfleoedd gwaith. Hefyd mae cynghorau lleol, elusennau a llawer o sefydliadau eraill yn defnyddio gwybodaeth o'r Cyfrifiad i benderfynu sut i wario biliynau o bunnau ar wasanaethau bob blwyddyn. Mae hyn yn cynnwys gwariant ar drafnidiaeth, addysg a gofal iechyd. Er mwyn gwneud yn siwr bod yr arian hwn yn cael ei wario lle mae ei angen fwyaf, mae'n bwysig bod y cyfrifiad yn cyfrif pawb.

**Faint o amser bydd yn ei gymryd?**

Tua 10 munud fesul unigolyn i gwblhau'r cyfrifiad. Mae'n hawdd i'w wneud a gallwch ei lenwi ar unrhwy ddyfais, gan gynnwys cyfrifiadur, gliniadur, llechen neu ffôn symudol.

**Ydy o'n bwysig mod i'n llenwi'r holiadur?**

Mae eich cymorth yn bwysig. Mae meithrin cydberthnasau da â chymunedau yn golygu y bydd mwy o bobl am gymryd rhan yn y cyfrifiad. Does neb yn adnabod eich cymuned cystal â chi.

Bydd cartrefi yn cael llythyr a chod mynediad unigryw yn y post a fydd yn eu galluogi i lenwi eu holiadur ar-lein. Bydd holiaduron papur ar gael ar gais os nad oes modd i chi i lenwi'r ffurflen ar lein.

Diwrnod y cyfrifiad fydd 21ain Mawrth, 2021.

**Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn llenwi fy holiadur?**

Gallech gael eich erlyn, cael dirwy sylweddol (hyd at £1000)a chofnod troseddol.

Os oes gennych chi gwestiynau, ewch i www.cyfrifiad.gov.uk Dilynwch y cyfrifiad yn @Cyfrifiad2021 a cewch ganllawiau cyffredinol, help gydag iaith, ac amrywiaeth eang o fformatau hyhgyrch, gan gynnwys canllawiau fideo a sain (Cymraeg a Saesneg). Gallwch chi hefyd ffonio'r ganolfan gyswllt ar 08901 692021 am help!

Ewch i cyfrifiad.gov.uk am ragor o wybodaeth neu os oes unrhyw gwestiynau gennych am y cyfrifiad.

**Diolch**

I nifer o blant y pentref a gododd ein calonnau yn 'rhithiol' dros yr Ŵyl. Cyfeirio wyf at blant yr ysgol a'u 'Cyngerdd Nadolig'. Rhaglen amrywiol raenus wedi ei gyflwyno a gwên. Yn yr un modd, diolch i griw Ysgol Sul y Cysegr am gyfleu yr 'hen, hen hanes' i ni mewn gwisg newydd. Diolch yn arbennig hefyd i'r sawl fu'n hyfforddi ac ysgogi y plant.

Ar wefan Bethel Ddoe a Heddiw ymddengys lluniau o Ysgolion Sul y gorffennol, a sylwi mor niferus oeddent. Onid braf, pan ddaw eto 'haul ar fryn' fuasai gweld Ysgol Sul gyd-enwadol yma yn y pentref yn cryfhau. "Dewch hen ac ifanc dewch…"



Rhai o blant Ysgol Sul y Cysegr

**Hen alwad y mis bach**

Roedd rhifyn Ionawr wedi mynd i'w wely pan glywsom am farwolaeth Mair Jones, 1 Cremlyn gynt. Roedd Mair wedi ymgartrefu yng Nghaernarfon ers sawl blwyddyn ond dal â thipyn o feddwl o Fethel a'i phobol. Danfonwn ein cydymdeimlad llwyraf i'w phlant Hefin a Linda a'u teuluoedd estynedig.

Eto'r mis hwn clywsom am farwolaeth Helen Williams, 17 Cremlyn – Anti Helen Lolipop a fu'n gweithio yn y gegin i blant Ysgol Bethel am flynyddoedd. Cydymdeimlwn â Mick, Paul, Angela, Claire a Gail a'r teulu estynedig yn eu colled ddisymwth.

Ein cydymdeimlad dwysaf i deulu y diweddar Edward Bardsley, Stad y Rhôs, gweddw y diweddar Margaret a thad Kate ac Emma.

Cydymdeimlwn a Hefin a Morfudd Thomas, Cilfynydd. Bu farw mam Hefin draw yn Llangefni ganol y mis.

Ein cofion hefyd ar ddechrau blwyddyn i un arall a gyfranodd cymaint i sawl agwedd o fywyd cymdeithasol y pentref, sef Nan Owen, Berwyn gynt, sydd bellach yn cael gofal yng nghartref Foelas yn Llanrug.

Yn Ysbyty Gobowen y treuliodd Brian Thomas, 11 Y Ddôl, y Nadolig. Wedi damwain gartref rhaid oedd derbyn llawdriniaith ar ei glun. Wedi'r llawdriniaeth bu yn yr ysbyty am bythefnos. Cofion ato, yn enwedig oddi wrth ei gyd-bysgotwyr. Ac yntau adref bellach, gobeithio bod Mary yn rhoi ei throed i lawr!

Cofion gwresog hefyd i Gwyneth Williams, Llain yr Ardd a gafodd anaf hegar i'w choes, sydd angen tipyn o driniaeth. Wedi cyfnod yn Ysbyty Gwynedd fe'i trosglwyddwyd hi i Ysbyty Dolgellau, ac yna i Eryri. Mae Ieuan a'r teulu yn gwerthfawrogi yr aml alwad a neges o gefnogaeth dros y cyfnod.

Cofion hefyd at Mabel Jones, Eithinog, sydd wedi derbyn triniaeth draw yn Ysbyty Gwynedd ac wedi dychwelyd gartref bellach.

**Llongyfarchiadau**



Yn rhithiol (Zoom) y cynhaliwyd cystadlaethau y Ffermwyr Ifanc yn y Sioe Aeaf eleni. Braf cyhoeddi fod enillydd y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth y Barnu Carcas yn aelod o'n clwb lleol. Llongyfarchiadau calonog i Elis Ifan, Fachell, Seion.

**Banc Bwyd**

Gan fod drysau'r Cysegr ar glo, diolch i Sioned Mair a'r teulu, Gwynfa, Lôn Tre Gôf am gamu i'r adwy. Rhwng 8am ac 8pm, yn ddyddiol mae blwch wedi ei osod ger y tŷ i dderbyn unrhyw roddion tuag at y Banc Bwyd. Bydd yr holl gyfraniadau yn cael eu trosglwyddo yn wythnosol i'r ganolfan i helpu'r galw gynyddol yn ein hardaloedd. I gyd-fynd â'r rheolau mae offer di-heintio ar gael. Diolch Sioned am dy barodrwydd i ymateb a chynnal y galw yma.

**Diolch**

Dymuna Ivy Wright, 2, Tan y Buarth, Bethel ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl garedigrwydd a chefnogaeth â dderbyniodd ar farwolaeth ei gŵr Len. Cyfranodd nifer yn hael er cof am Len a throsglwyddwyd yr arian i Gronfa Ymchwil Parkinsons Cymru (Cangen Arfon a Môn.)

**Hyder**

Efallai i chwi glywed Elen Price o Gaffi'r Perthyn yn siarad ar raglen 'Dros Ginio' ar Radio Cymru yn ddiweddar. Cafodd ei holi ynglŷn â'r profiad o sefydlu busnes yn yr adeg anodd yma o agor/cau ar fyr rybudd. Cafodd ei holi gan Jennifer Jones, un a'i gwreiddiau yma ym Mro'r Eco yn ferch i'r diweddar ddeintydd a chonsuriwr Robert John Jones. Siaradodd Elen yn hyderus, ac roedd yn ddiolchgar iawn o'r gefnogaeth leol sy'n sbardun bwysig i gynnal y weledigaeth. Cropian cyn cerdded fydd y polisi yn bendant, gyda chynlluniau gofalus sy'n ymateb i'r sefyllfa. Diolch i fusnes Perthyn am gynnig gwerthu'r Eco yno. Os bydd Perthyn ar gau dros gyfnodau cyhoeddi'r Eco fe wnaf i gadw unrhyw gopiau sbar acw. Os wyddoch am unrhyw un tu allan i'r 120 ffyddlon fydd angen copi gallent gysylltu â mi ac fe ddanfonaf gopi yno.

**Cydymdeimlad**

Ar drothwy blwyddyn, trist cofnodi marwolaeth di-symwth Ifor Jones (Pudge), Erw Bian. Fe weithiodd am gyfnod hir yn ffatri Dennis Ferranti ym Mangor, ond bu raid iddo ymddeol yn gynnar. Dyn da mewn cwis oeddd Ifor, yn enwedig os oedd yn gwestiwn am y byd chwaraeon. Ei brif ddileit oedd dartiau a phêl-droed. Roedd yn chwarae dartiau i dim y Gors Bach a nosweithiau i'w cofio oedd y gemau darbi dartiau rhwng y Gors Bach a'r Bedol – cyn, yn ystod ac wedi'r gemau. Rhyw 'oes aur' i Ifor oedd pan oedd tîm pêl-droed wedi sefydlu ym Methel (yn cynnwys nifer o'i gyfoedion ysgol), a thimau dartiau a pŵl. Roedd yn gefnogol iddynt i gyd. Er yn un tawel ac annibynnol, meddai Ifor rhyw agosatrwydd i'w gyfoedion a hiwmor tawel. Cydymdeimlwn â'i frawd Gwyn a'r teulu yn eu colled.

**Cronfa Mynwent Eglwys St. Deiniol, Llanddeiniolen 2020**

Derbyniais yr adroddiad flynyddol yma gan Brian Sharpe.

Mae costau cynnal a chadw Mynwent y Plwyf yn codi yn flynyddol ac rydym yn hollol ddibynnol ar gyfraniadau cefnogwyr ffyddlon. Fe dderbynir unrhyw gyfraniad trwy law y Trysorydd, Mr. Brian Sharpe, Ael y Bryn, Bethel, Caernarfon, LL55 3AA. Gofynnir i chwi wneud unrhyw siec yn daladwy i Gronfa Mynwent Llanddeiniolen. Fe gydnabyddir pob cyfraniad. Diolch i'r canlynol am eu cyfraniadau yn y flwyddyn 2020.

£150: Dylan Edwards, Bromborough

£100: Emyr ac Anwen Roberts, Y Groeslon. Di-enw.
£65: Jennifer Roberts, New St. Bethel.
£50: Irfon Thomas, Llanrug. Brian ac Eirlys Sharpe, Bethel. Mr/Mrs Gwynedd Hughes, Southport. Di-enw.
£30: Maureen Pierce, Llanrug.
£25: Glyn Richards, Deiniolen.
£20: Dilys Parry, Rhiwlas. Megan Humphries, Bethel. Eurgain Jones, Bethel. Ann Ellis Williams ac Ieuan Ellis Jones, Bethel. Ivy Wright, Bethel. Mr/Mrs. Hugh Hughes, Bethel. Ann Hughes, Llanrug. Phyllis Jones, Cyffordd Llandudno.
£10 : Ieuan Williams, Bethel. Eirian Jones, Deiniolen. Marjorie Roberts, Bethel.

**Pen-blwydd hapus**

Ie, dyna ddymuniad y teulu a'i holl gyfoedion i Brian Sharpe, Ael y Bryn, Bethel fydd yn dathlu ei benblwydd yn 80 oed ar Chwefror 27ain.

Wyth deg, ond ystadegyn –
orwel braf ŵr Ael y Bryn.

**Hen, hen gŵyn**

Ar fy nhaith ddyddiol o gwmpas y pentref mae rhywun siwr o gyfeirio at y cynnydd yn y baw cŵn sy'n amlygu ei hun o gwmpas y pentref. Bellach mae'n ymddangos mai llwybrau cyswllt mewnol y pentrefi - o'r golwg fel petai – yw toiledau'r anifeiliaid. Ym Methel mae biniau wedi eu gosod ar geg pob llwybr. Nid cyfrifoldeb unrhyw gyngor ar unrhyw lefel yw'r mochyndra yma ond perchennog y ci. Mae'r dyletswydd statudol o osod y biniau baw cŵn a'i gasglu yn cael ei wireddu. Adlewyrchiad o ddiffyg parch y perchennog at ei gyd-bentrefwyr yw hyn. Gwir y dywedodd y bardd o Benllyn un tro;

Dim ond dau sydd yn f'adnabod,
fi fy hun a fy nghydwybod.
Gair i gall. Cawn weld.

**Merched y Wawr**

Cyfarfu rhai o'r aelodau ar Zoom nos Fercher, 10fed Chwefror. Croesawodd Anita, ein Llywydd, pawb i'r cyfarfod. Rhoddodd groeso arbennig i Glenys oedd wedi ymuno â ni o Dde Cymru. 'Roedd pawb yn falch o weld Glenys ac yn falch o glywed ei bod hi a Jenkin yn cadw'n ddiogel. Anfonwyd cofion a gwellhad buan i Mabel, Eryl a Gwyneth (Llain yr Ardd) sydd yn Ysbyty Eryri.

Dilynwyd yr un drefn a chyfarfod y mis diwethaf, sef sgwrs deg munud rhwng 3 neu 4 aelod cyn ymgynnull i rannu ein hoff ryseitiau. Cafwyd amrywiaeth o ryseitiau, rhai sawrus a rhai melys, megis cig eidion bourguignonne, enchiladas, falafel, cyri, cawl llysieuol, tiramasu amaretto, meringue ffrwythau a sawl ryseit gwahanol ar gyfer bara brith. Roedd rhai o'r ryseitiau bara brith wedi eu trosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth. Mae'n ymddangos bod yr aelodau yn mwynhau prydau egsotig yn ogystal a rhai traddodiadol! Cafwyd noson ddifyr yn gwrando ar amrywiaeth o ryseitiau. Awgrymodd Anita ein bod yn rhannu'r ryseitiau trwy eu ebostio i Rhian er mwyn i bawb gael copi ohonynt.

Diolchwyd i Gwenan am yrru'r linc gysylltiol i ni.

Fe atgoffwyd yr aelodau am weithgareddau, podlediadau a chyfarfodydd Zoom sydd ar gael gan y mudiad, megis addurno eich ffenestr gyda chennin pedr ar Ddydd Gŵyl Ddewi, fel arwydd o obaith i'r Gwanwyn a noson yng nghwmni Bethan Gwanas ar nos Iau, Mawrth 4ydd.

Mis nesa mi fydd Angharad Price yn ymuno â ni ar Zoom i sgwrsio am ei llyfr a'i hysgrif 'Cwpan a Soser', atgofion plentyndod o'i magwraeth ym Methel. Cofiwch gael panad mewn cwpan a soser a thamaid o gacen yn barod ar gyfer y sgwrs.

Edrychwn ymlaen at eich gweld ar Zoom ar nos Fercher 10fed Mawrth am 7.30. Yn y cyfamser cadwch yn iach a diogel.

## LLANRUG

**Profedigaethau**

Cydymdeimlir â'r teuluoedd yn eu profedigaeth lem yn ystod y cyfnod anodd yma:

Tecwyn Jones a'r teulu yng Nghae Rhos, yn dilyn marwolaeth Margaret, mam, nain a hen nain garedig iddynt. Colled fawr i chwi i gyd. Hefyd, Gwynfa a Hefin Pritchard a'u teuluoedd, yn eu profedigaeth hwythau yn colli Meira, mam, nain a hen nain, chwaer a mam-yng-nghyfraith annwyl i bawb. I Gareth a Jennifer Thomas, Afon Rhos, yn eu profedigaeth o golli Beti, chwaer Gareth yn Llanaelhaearn. Cofion atoch i gyd yn eich profedigaeth a'ch colled. Cofion hefyd at Terence a Dilys a'r teulu yn eu profedigaeth yn dilyn marwolaeth mam Terence, sef Mrs Mair Varney, gynt o Hafan Elan. Cofion annwyl atoch i gyd.

Mae wedi bod yn amser hynod o anodd a heriol i ni i gyd ac mae llawer o deuluoedd wedi colli teulu a ffrindiau o dan amgylchiadau unigryw. Ddim yn cael gweld eu hanwyliaid, pell ac agos, sydd mor drist i'w dderbyn.

**Genedigaethau**

Ond newyddion bach hapus sydd i Dafydd ac Anwen Owen, Bryn Moelyn, ar enedigaeth mab bach i Ifan a Jane ar Ynys Môn. Croesawyd Idris gan ei ddau frawd mawr, Moi a Gruff.

Hefyd, llongyfarchiadau mawr i Phil a Beryl Griffith, Llecyn, Ffordd Llanberis, ar ddod yn nain a thaid am y tro cyntaf i Eban, mab bach i Fflur a Dan, sydd hefyd yn byw ar Ynys Môn.

Daeth Menna Williams, Fferm Minffordd, yn hen nain i Ffebi, merch fach i Dafydd a Nicola, mab Robin ac Evelyn, sy'n byw yn Ffrainc. Llongyfarchiadau mawr a phob bendith i chi i gyd, gobeithio y bydd 2021 yn garedig i bawb.

**Cofion gorau**

Deallwn fod Marina Williams, Didfa, yn yr Ysbyty yn cael triniaeth. Cofion gorau a dymuniadau gorau am wellhad buan i chi.

**Merched y Wawr**

Er nad ydi'r canghennau yn cyfarfod, mae llawer gweithgaredd yn cael eu trefnu yn rhithiol. Cadwch lygad am wybodaeth ar y we.

**Plaid Cymru**

Enillwyr y Clwb Cant
Rhagfyr 1 - Leslie Larsen, Penisarwaun; 2 - Geraint Parry, Llanrug
Ionawr 1 - Ellen George, Brynrefail; 2 - Ifanwy Jones, Brynrefail
Chwefror 1 - Sheila Williams, Llanrug;
2 - Sion Humphreys, Tanycoed



# Er cof, er gwell

Agwedd bryderus o sgil effeithiau y feirws yw bod nifer o afiechydon eraill yn enwedig Cancr yn cael llai o sylw, a llai o lawdriniaethau yn cael ei cwbwlhau. Mae Kelly O'Donnell, Cremlyn, Bethel yn gwybod yn iawn am golledion o achos y cancr gan golli gŵr a modryb o fewn cyfnod byr. Dyma ei geiriau personol yn ei neges i mi. Mae'n siwr bydd yn canu cloch gyda nifer ohonoch.

*"Fy mwriad gwreiddiol oedd rhedeg dwy filltir y diwrnod drwy fis Chwefror gyda fy mab Riley. Byddem yn rhoi cyfle i bobl ein noddi gyda'r arian yn cael ei drosglwyddo i Ymgyrch Ymchwil y Cancr. Ein targed bellach yw 112 milltir yn y mis i gofio am Rory (y gŵr) a Shirley (fy modryb), a denu mwy o noddwyr gobeithio. Mae cancr wedi dod â'i gysgod dros sawl teulu yn yr ardal yma. Nid yw yn parchu tras nac oed. Mae gweld y dirywiad mewn anwyliaid o flaen ein llygaid yn anodd.*

*Fe ddanghosodd Rory a Shirley y fath gryfder yn eu brwydr olaf. Brwydrodd Rory am 17 mis, a Shirley am 31 o flynyddoedd gan ddioddef cancr y fron, a ymledodd i'r ddwy fron, cancr y bowel a chancr yr iau. Braint yw mynd trwy 'sialens' rhedeg pedair milltir o gofio gwir frwydrau bywyd.*

*Diolchaf o flaen llaw i'r llu sydd eisoes wedi ein noddi. Ar ddiwedd wythos gyntaf y mis bach roedd cyfanswm y nawdd yn £1,500. Gweddus yw cau ein cronfa bersonol ar Fawrth 1af, diwrnod gwneud y pethau bychain'. Diolch o galon i chwi."*

# Galw am Fwy o Ofalwyr yng Ngwynedd

Mae Cabinet Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo dros £700,000 i gyflogi mwy o ofalwyr i gefnogi pobl fregus yn y sir dros y misoedd nesaf. Mae'r Cyngor yn awyddus i glywed gennych chi os ydych chi'n teimlo y gallech chi wneud cyfraniad i'r maes yn lleol.

Yn sgil pandemig Covid-19 mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd llawer mwy o alw am wasanaethau iechyd a gofal yng nghymunedau Gwynedd, ac am gychwyn ymgyrch Galw Gofalwyr i recriwtio mwy o staff i'r maes.

Meddai'r Cynghorydd Dafydd Meurig, Dirprwy Arweinydd Cyngor Gwynedd, sydd hefyd yn Aelod Cabinet am faes Gofal:

*"Ein prif gonsyrn ydi diogelu pobl Gwynedd, gwarchod ein staff, a llenwi bylchau staffio sy'n ymddangos o ganlyniad i Covid-19."*

Mae'r Cyngor yn lansio ymgyrch sy'n anelu i recriwtio dwsinau o weithwyr newydd i'r maes, yn rhan amser ac yn llawn amser dros yr wythnosau nesaf.

**Galw Gofalwyr**

Ychwanegodd y Cynghorydd Dafydd Meurig: *"Bydd yr ymgyrch Galw Gofalwyr yn targedu unigolion sydd yn awyddus i wneud gwahaniaeth, cefnogi pobl yn eu cymunedau, newid neu ddatblygu gyrfa yn y maes iechyd a gofal, neu gamu mlaen i helpu mewn cyfnod o argyfwng.*

*"Gallai troi at yrfa yn y maes dros dro, neu'n fwy parhaol yn y sector iechyd a gofal, fod yn cynnig atebion i ni fel Cyngor, ac i ddynion a merched yng Ngwynedd sydd mewn sefyllfa ansicr ar hyn o bryd. Y cymhwyster pwysicaf yw diddordeb mewn pobl ac awydd i helpu a gwneud gwahaniaeth yn eich ardal leol, ac mi fyddem yn falch iawn o glywed gennych."*

Mae Cyngor Gwynedd yn cynnig hyfforddiant, telerau gwaith da ac oriau cyson, a'r cyfle i helpu trigolion bregus y sir i fyw bywydau mor llawn a phosib. Bydd gwaith llawn amser a rhan amser ar gael, gyda chyfleon i gychwyn yn syth.

Gall unrhyw un sydd â diddordeb mewn swydd yn y maes gofal gyda Chyngor Gwynedd gysylltu â Gill neu Elen am sgwrs ar 07384 876908 neu e-bostio: gofalu@gwynedd.llyw.cymru

**Adnodd Ar-lein i helpu ymgeiswyr i swyddi gofal cymdeithasol**

Ar lefel genedlaethol mae ymgyrch Gofalwn Cymru wedi canolbwyntio ar yr angen am fwy o Weithwyr Gofal Cartref, Gweithwyr Cymdeithasol yn ogystal â Nyrsys Gofal Cymdeithasol.

Crëwyd adnodd ar-lein newydd ar wefan Gofalwn Cymru (Gofalwn.Cymru/swyddi), er mwyn helpu ceiswyr gwaith i wella eu cyflogadwyedd yn ogystal â helpu cyflogwyr i ganfod y bobl mwyaf addas ar gyfer gweithio mewn rolau gofal cymdeithasol.

Mae'r adnodd yn cynnwys adran asesu, lle gall yr ymgeisydd wylio fideos o wahanol rolau mewn gofal cymdeithasol ac ateb cwestiynau ynghylch sut y byddent yn delio ag amrywiol sefyllfaoedd. Rhydd hyn gyfle uniongyrchol i ddarpar ymgeiswyr weld os yw'r swydd yn iawn ar eu cyfer nhw.

Ar ôl ei gwblhau, rhoddir dogfen i ymgeiswyr y gellir ei dangos i gyflogwyr i'w helpu i sefyll ben ac ysgwydd uwchben ymgeiswyr eraill.

Mae'n debyg bod 730,000 yn llai o bobl yn y DU wedi derbyn tâl ym mis Gorffennaf nag ym mis Mawrth. Mae Gofalwn Cymru yn gobeithio, trwy lansio'r adnodd dysgu ar-lein newydd a'i borth swyddi wedi'i ddiweddaru, y bydd yn haws i'r bobl iawn gael eu cysylltu â'r cyflogwr iawn.

# Pigiad

Yn ystod mis Ionawr mi wnaeth y syniad fy nharo bod y gair 'pigiad' yn llawer gwell na'r gair Saesneg 'jab'. Mae 'jab' yn awgrymu gweithred sydyn a diofal tra bod 'pigiad' yn awgrymu rhywbeth mwy gofalus a thyner. Dydi o ddim yn help bod 'Jab' yn odli efo 'stab'.

Chi'n gweld, roeddwn i wedi cael y llythyr i ddweud mod i'n mynd i gael y pigiad yn ystod yr wythnosau canlynol ac y gallwn ddisgwyl y llythyr a fyddai'n cadarnhau'r apwyntiad.

Roedd fy meddwl i'n mynd yn ôl i fy nyddiau ysgol, a'r diwrnod pan fyddai'r nyrs yn galw i roi 'injecshyn' i ni. Dyna beth oedd o yn y dyddiau hynny, roedden ni'n cael 'injecshyn', achos roedd hyn ymhell cyn i rywun benderfynu y byddai'r gair 'pigiad' yn llawer gwell. Doedd dim sensitifrwydd am y peth: roedd holl blant y dosbarth yn sefyll mewn rhes, ac yn gweld pob plentyn o'u blaen yn gwingo mewn poen. Os oeddech chi ar ddiwedd y rhes, roeddech chi wedi cael ofn yn ofnadwy erbyn eich tro chi.

Chi bobl ifanc! Does gennych chi ddim syniad o faint oedden ni'n gorfod ei ddioddef!

Mae pethau'n llawer gwell erbyn hyn wrth gwrs; ac roeddwn i'n edrych ymlaen at gael y peth drosodd. Am chwech o'r gloch ar ddiwrnod olaf mis Ionawr, roeddwn i'n eistedd yn yr adeilad yma oedd wedi cael ei addasu ar gyfer marathonau o bigiadau. Chwarae teg i'r Gwasanaeth Iechyd, roedd y ffordd o weithio yn reit slic. Roedden ni i gyd yn eistedd ar gadeiriau ar ddwy ochr yr ystafell hirsgwar, a fi oedd y cyntaf yn y rhes. Dyma'r nyrs yn dod ataf fi efo'i throli, tynnu clipfwrdd allan a chadarnhau fy enw a'm cyfeiriad ac ati, ac wedyn gofyn cwestiynau am fy nghyflwr iechyd. Dw i'n falch o ddweud fy mod i wedi ateb pob un yn gywir, ac fel gwobr am hynny mi ges i'r pigiad. Wedyn, mi nes i fy siomi fy hun: do, mi nes i grio! Ond roeddwn i'n teimlo'n llawer gwell ar ôl i'r nyrs roi cwtsh i mi!

Hen dric dw i'n gwybod, ond mae'n gweithio bob tro!

**Rob Evans**




**Llongyfarchiadau i Gigydd Wavells, Llanrug am ddod yn drydydd yn rownd derfynol Siop Cigydd y Flwyddyn yng Nghymru am y drydedd flwyddyn yn olynol!**

# Fideo Nel yn dod i'r brig

Mae gymaint mwy i wefan fro nag erthyglau yn unig. Daeth hynny'n glir yng nghategori Fideo'r Flwyddyn yng ngwobrau Bro360, a gafodd ei gynnal arlein, i ddathlu blwyddyn o wefannau bro eleni.

Ymysg y fideos ar y gwefannau bro roedd fideos coginio, uchafbwyntiau newyddion, fideos am hanes lleol a mwy. Ond y fideo aeth a hi oedd fideo 'Coleg neu Chweched Dosbarth?' gan Nel Pennant Jones o Frynrefail ar BroWyddfa360. Mae'r fideo yn rhannu profiadau gwahanol dwy ifanc o'r ardal, Poppy a Mared, o fynd i'r Coleg ac aros yn y Chweched Dosbarth.

Llongyfarchiadau Nel! Ewch draw i'r wefan www.browyddfa.360.cymru i wylio'r fideo.

# 10 DEG Y DYSGWYR

*Cyfle i ddod i adnabod siaradwyr Cymraeg newydd yr ardal drwy gyfrwng deg cwestiwn yr Eco.*

**Enw:** Davyth Fear
**Byw yn:** Llanrug (ers 27 o flynyddoedd)
**Fy ngwaith a diddordebau:**
Athro Daearyddiaeth wedi ymddeol, a fy niddordebau yw dysgu'r iaith Gernyweg, hanes teulu, mynd â'r ci am dro, a chwarae bridge a croce.



**Davyth Fear yn ymddangos ar Mastermind Cymru yn ddiweddar. Bu hefyd yn llwyddiannus iawn ar y rhaglen Who Wants to Be a Millionaire.**

**1. Roeddwn i eisiau dysgu Cymraeg oherwydd:**
Roedd gen i ddiddordeb yn yr ieithoedd Celtaidd ar ôl byw yng Nghernyw.
**2. Fel hyn wnes i ddysgu Cymraeg:**
Mi wnes i ddarllen 'Teach Yourself Welsh' i gychwyn pan oeddwn yn byw yn Lloegr; es i ddosbarthiadau nos a chwrs Wlpan ar ôl cyrraedd Cymru, ac fel myfyriwr es i fyw mewn neuadd Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor, h.y. boddi yn y Gymraeg!
**3. Y peth gorau am ddysgu Cymraeg yw:**
Mae'n agor ffenestr arall ar y byd; mae'n galluogi i ti gymryd rhan mewn diwylliant arall; gwneud ffrindiau newydd a rhoi sialens a hyder i ti.
**4. Y peth gwaethaf am ddysgu Cymraeg yw:**
Fedra i ddim meddwl am yr un…
**5. Dyma fy hoff air neu ddywediad Cymraeg, a pham:**
'Deurodur' – hen air am feic!
**6. Gall siaradwyr mamiaith helpu dysgwyr drwy:**
Bod yn amyneddgar, a sicrhau nad ydynt yn troi i Saesneg yn syth.
**7. Fy moment fwyaf balch wrth ddysgu:**
Cystadlu yn y gystadleuaeth 'Dysgwr y Flwyddyn' yn 1986.
**8. Fy nhro trwstan mwyaf wrth ddysgu:**
Defnyddio'r gair 'diciau' yn lle 'dicáu' mewn gwers!
**9. Roeddwn i'n sbarduno fy hun i barhau i ddysgu drwy:**
Darllen llyfrau Cymraeg megis Gari Tryfan ac ysgrifennu ystyr geiriau newydd mewn pensil.
**10. Dyma mae'r iaith Gymraeg yn ei olygu i mi:**
Mae wedi bod yn rhan annatod o'm mywyd i ers 1984 a dwi'n defnyddio'r iaith bob dydd.

**COLOFN CHWARAEON**

# Cwsg yn Dawel Dai

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth cyn gôl-geidwad Cymru, Dai Davies. Yn broffesiynol chwaraeodd i dimau Abertawe, Everton, Tranmere a Wrecsam. Hefyd arwyddodd i Fangor i warchod y gôl mewn ambell i gêm Ewropeaidd. Yn rhestr capiau gôl-geidwaid i Gymru ef oedd y trydydd y tu ôl i Wayne Hennessey, a'i olynydd yn Everton sef Neville Southall. Siom fwyaf Dai oedd y gêm ddadleuol ar Anfield rhwng Cymru a'r Alban. Ef oedd yn y gôl. Gêm 'ddadleuol' llaw Joe Jordan. Buasai buddugoliaeth i Gymru y noson honno wedi danfon Cymru i rowndiau terfynol Cwpan y Byd. Clywais Dai yn dweud droeon fod 'llaw Maradona' wedi cael llawer mwy o gyhoeddusrwydd na llaw Joe Jordan.

Cyn ei farwolaeth fe welodd Dai 'wawr newydd' o Gymru'n ennill eu lle yn rowndiau terfynol Ewrop am yr ail waith yn olynol. Roedd hynny gyda thîm o chwaraewyr ifanc yr oedd Dai, di-flewyn ar dafod, yn gefnogol iddynt. Di-flewyn ar dafod. Nid oedd yn gyfrinach nad oedd ambell bwysigyn yn y Welsh F.A. a'r BBC a'u cyllell yn Dai. Nid oedd ganddo fawr o feddwl o rai fel Giggs oedd yn tynnu allan o sawl carfan ryngwladol am resymau pitw. Teimlai Dai yr ysfa i fod yn llais neu sylwebydd y cefnogwr go iawn a safai ar y teras ym mhob tywydd. Yr oedd yn siarad iaith roeddem yn ei ddeall.

Fe ddois i adnabod Dai pan oeddem yn cyd-weithio ar raglen chwaraeon pnawn Sadwrn Radio Cymru. Dai fel arfer yn un o'r 'caeau mawr' a minnau gyda fy ffôn symudol yn gwneud gêm leol rhywle yng Ngwynedd, Conwy neu Fôn. Roedd Dai yn gefnogwr brwd o wreiddiau'r gêm – y gwreiddiau a fagodd yn ei Ddyffryn Aman enedigol.

Cofiaf un ffrae fawr yn ystod cyfarfod trafod 'diwedd y flwyddyn' gan Radio Cymru. Pawb mewn gwesty ar Lannau Dyfrdwy a'r big-wigs wedi teithio yno o Gaerdydd i gyfarfod pob un o'r cyfranwyr. Pryd o fwyd, ambell beint ac ystafell 'on the house'. Yna'r drafodaeth. Un o'r pwysigion yn canmol cyfraniad y rhai oedd yn mynd â Radio Cymru i'r meysydd bach pob Sadwrn a chadw'r cysylltiad rhwng y gwrandawr a'r cyfrwng. Roedd rhywun yn teimlo rhyw barch pan oeddwn yn cyrraedd rhyw faes diarffordd a chael fy nghroesawu gyda, "Mae'r BBC yma heddiw", ac yna gyfweliad gydag un o'r chwaraewyr. Yna'r brolio am gyfnod, "Glywis di … ar y radio efo Mêt pnawn Sadwrn?" Roedd un peth wedi gwylltio Dai. Roedd y rhai oedd yn gweithio ar y gemau mawr yn cael côt drwchus gynnes â logo BBC Cymru ac Adran Chwaraeon arni. Dylsai'r hogia bach dderbyn un hefyd fel arwydd o werthfawrogiad, gan gofio mai yn yr oerfel ar y lein roeddent hwy ran amlaf ac nid mewn lloc y wasg gynnes a choffi ar gael fel y mynnent. Colli'r ddadl wnaeth Dai ond daeth yn arwr i ni'r hogia lleol.

Dwy waith y chwaraeais yn erbyn Dai – mi yn nhîm y Normal ac yntau yn nhîm Galacticos Coleg Cyncoed, Caerdydd. Yr achlysuron oedd Pencampwriaethau Colegau Addysg Cymru. Y gêm gyntaf yn nhymor 1968 yn Nantporth. Y sgôr oedd 2-1 i Gyncoed, ond gôl y Normal yn chwip o ergyd o 25 llath gennyf i i gornel uchaf gôl Dai. Chwip o gôl. Yr wythnos ganlynol lawr yng Nghaerfyrddin methais gic o'r smotyn. Yr ail achlysur oedd tymor 1969, tymor olaf Dai yn y coleg. Y rownd derfynol y tro yma lawr yng Nghyncoed. Teithio i lawr y bore hwnnw mewn bws, hanner awr o orffwys a syth ar y cae. Sôn am berfformiad, ac unig ergyd am gôl gan y Normal o droed Gary Powell yn danfon y tlws adre i'r Gogledd. Diwedd y tymor hwnnw, roedd Dai yn gadael y coleg ac ymuno'n syth â chlwb Abertawe a dechrau gyrfa lwyddianus fel pel-droediwr proffesiynol.

Dai, Dai'r Amman, Dai the Drop, Dai Sgorio – un aml-ochrog oedd Dai. Ond i mi y Dai na gerddai heibio, y Dai parod ei farn, y Dai cyson â gofiaf. Ond yn fwy na dim, Dai y Cymro mwyaf gwlatgar a gynrychiolodd ei wlad. O'r un graig y naddwyd Dai a Ray Gravelle. Heddwch i'w lwch.

## Dau Gapten

Un newydd gyhoeddi ei ymddeoliad a'r llall yng nghanol rhediad lwyddianus iawn fel capten ac unigolyn. Yn fy marn i roedd gan y ddau – Ashley Williams a Joe Root – dipyn o elfennau tebyg fel capteiniaid. Y peth cyntaf oedd nad oedd pwysau y gapteiniaeth i weld yn amharu ar eu perfformiadau. Roedd y ddau fel petai yn arweinwyr o reddf, ac hefyd yn arwain o'r blaen. Roedd y ddau hefyd yn y tîm ar sail y perfformiadau hynny. Y ddau â'r gallu i ysbrydoli, am bod y carfannau yn eu parchu.

Yn achos Ashley roedd ar gael i bob gêm ac yn ymfalchio o gael cynrychioli ei wlad. Roedd yn bwysig i ddatblygiad y chwaraewyr ifanc sy'n britho tîm Cymru bellach bod hen ben yno yn arwain. Hen deip o gefnwr oedd Ashley, taclwr ffyrnig, a pharod i roi ei ben a'i gorff yn rwystr i unrhyw ymosodwr. Bydd perfformiadau Cymru yn Ewro 2016 yn aros yn hir yn y cof ac arweiniad Ashley yn elfen bwysig yn y llwyddiant. Roedd yn uniaethu â'r cefnogwyr triw aberthodd gymaint i gefnogi. Yn sicr, dylsid defnyddio sgiliau arwain ac ysgogi Ashley gan y Gymdeithas Bêl-droed, efallai fel rheolwr/hyfforddwr yn un o'r timau ieuenctid cenedlaethol. Neu yn reolwr yn un o dimau Uwch Gynghrair Cymru.

Cefais bum niwrnod o'r shift foreol (4am – 11am) yn dilyn y gêm brawf gyntaf ryfeddol rhwng Lloegr ac India. Yn ddios un o'r gemau prawf mwyaf cystadleuol ers sawl blwyddyn. Gêm 'brawf' yng ngwir ystyr y gair. Mantais i'r batwyr i ddechrau yna'n arferol y llain yn ffafrio'r troellwyr. Batiad Root o 200+ yn rhyfeddol, yn gymysgedd o amddiffyn gwych a hefyd ymosod ar adegau priodol, a hyn mewn gwres a lleithder anghyfarwydd. Hefyd ei ddefnydd celfydd o'i fowlwyr yn amrywio rhwng cyflymdra a throelli. Gosod meysydd ymosodol i gynnal y pwysau. Yn sicr, Root fydd prif darged yr India, a pherfformiadau Root fydd i raddau yn penderfynu tynged y gyfres. Yn sicr, gyda'r gyfres ar Sianel 4 yn hytrach na theledu lloeren bydd miloedd wedi eu denu gan obeithio am gyfres sydd wedi cychwyn ar dân.

**Richard Ll Jones**

# Cymru ar frig Byd y Dartiau

Anghofiwch am y ddadl hir-oes p'run yw chwaraeon cendlaethol Cymru, un ai Pêl-droed neu Rygbi, oherwydd mae Dartiau yn sleifio ei hun i mewn i'r ddadl yma yn dilyn cyfnod llewyrchus ofnadwy yn ystod y misoedd diwethaf diolch i Gerwyn Price a Jonny Clayton. Yn wir, mae'r ddau wedi bod yn mynd o nerth i nerth.

Er ei fod yn dipyn o siom i gefnogwyr nad ydynt yn cael gwylio ar hyn o bryd, mae'n bosib fod cyfnod clo yn gyfnod perffaith i annog pobl i ennyn diddordeb yn y chwaraeon yma. Yr unig beth sydd ei angen yw bwrdd darts a *'flights'* a rydych yn barod i fynd. Dwi'n siwr fod llwyddiant y ddau Gymro wedi ysbrydoli ambell i berson i drio'r gamp, a phwy a wŷr efallai ymhen blynyddoedd i ddod fyddwn ni'n darllen am lwyddiant rhywun lleol o ardal yr Eco yn y darts.




Mis Tachwedd fe goronwyd Gerwyn Price '*The Iceman'* a Jonny Clayton *'The Ferret'* yn Bencapwyr y Byd gan ennill tlws Cwpan y Byd yn Awstria. Dyma'r tro cyntaf i Gymru ennill yn eu hanes. Fe ddaeth Gerwyn Price yn agos iawn yn 2017 gyda Mark Webster ond colli oedd eu tynged yn y ffeinal y flwyddyn honno yn erbyn Yr Iseldiroedd. Braf felly oedd gweld Gerwyn Price yn cael ail gyfle gyda'i bartner newydd Jonny Clayton. Roedd y bartneriaeth yma rhwng Gerwyn a Jonny yn un cadarn iawn. Mae'n debyg ei fod yn helpu fod y ddau yn dipyn o ffrindiau beth bynnag oddi ar yr Oci. Drwy gydol y twrnament roedd y ddau wedi serennu, nhw oedd efo'r cyfartaledd gorau 3 dart drwy gydol y gystadleuaeth! Ond nid oedd eu taith i'r teitl yn un hawdd ac fe ddaethant ar draws ambell i rwystr.

Yn rownd yr wyth olaf, fe wthiodd Awstralia y gem at beth sydd yn cael ei alw'n '*doubles decider'*. Roedd Price wedi ennill ei gêm ef ond roedd Clayton wedi colli felly roedd rhaid chwarae gêm fel pâr i benderfynu pwy fyddai'n mynd ymlaen. Roedd hi'n gêm ddigon agos ar y cyfan a Chymru'n ennill 2 - 1. Yr Almaen oedd eu gwrthwynebwyr yn y rownd gyn-derfynol ac fe enillon nhw hwnnw 2 – 0 yn gyfforddus er mwyn cyrraedd y ffeinal. Yn eu wynebu yn y ffeinal oedd Rob Cross a Michael Smith y ddau Sais. Brwydr oedd hi felly rhwng y Cymry a'r Saeson. Braf oedd gwylio'r ffeinal a gweld y ddau Gymro yn trechu Lloegr! Y sgôr derfynol yn 3 – 0. Dyna felly sut y gwelwyd Cymru yn dod yn Bencampwyr Cwpan y Byd.

Doedd y llwyddiant ddim wedi rhedeg allan mis Tachwedd, dim ond megis cychwyn oedd o mae'n debyg erbyn hyn. Mae Gerwyn Price wedi cael blwyddyn hollol anhygoel ac un dwi'n siŵr nad oedd o erioed wedi rhagweld. Does dim llawer ers iddo droi yn chwaraewr proffesiynol gan mai chwaraewr rygbi oedd o hyd nes 2014. Yn bendant, erbyn hyn dwi'n siŵr ei fod yn hapus gyda'i benderfyniad i fwrw ymlaen o ddifrif gyda dartiau.

Dechrau mis Ionawr fe enillodd Gerwyn Price Bencampwriaeth y Byd PDC. Mewn un noson fe dderbyniodd y teitl Pencampwr Byd yn ogystal â rhif 1 y byd gan olygu y byddai yn gwthio Michael van Gerwen i lawr o'r safle hwnnw. Roedd hi'n ffeinal wych i ddeud y lleia gyda Price yn ennill 7 – 3 yn erbyn Gary Anderson. Roedd yn ddi-lol ar y double tops a phrin yn eu methu! Yn 6ed set y gêm roedd ganddo sgôr ar gyfartaledd o 136 sef y mwyaf i'w gofnodi erioed yn hanes y twrnament! Roedd yn llawn haeddiannol o'r wobr yn sicr. Er ei fod i weld yn dechrau stryglo, a nerfau efallai yn dechrau dal fyny gydag o erbyn y diwedd, roedd yr holl waith caled ar ddechrau'r gêm wedi talu ffordd gan ei fod yn ormod o ofyn o lawer i Gary Anderson geisio crafangu ei ffordd yn ôl i mewn. Roedd llwyddiant Gerwyn Price yn golygu felly mai ef oedd y Cymro cyntaf i fod yn Bencampwr Byd y PDC a hefyd y Cymro cyntaf i fod yn rhif 1 y byd.

Roedd diwedd mis Ionawr yr un mor llwyddiannus a dechrau mis Ionawr i Gymru yn y dartiau wrth i Jonny Clayton oedd ar y pryd yn y 18fed safle yn y byd gael ei goroni fel ennillydd y Meistri. Roedd ei daith i'r brig yn bendant yn heriol gan ei weld yn curo Michael van Gerwen, un o sêr mwyaf y gamp ar hyn o bryd, yn yr 16 olaf. Doedd llawer o neb yn gweld hynny yn dod dwi'n siŵr. Ar un pwynt yn rownd yr wyth olaf roedd yn edrych yn debyg iawn y byddai Clayton yn mynd allan wrth iddo fod ar ei hôl hi o 6 i 9 yn erbyn James Wade. Y cyntaf i 10 oedd yn ennill felly roedd pethau yn edrych yn dynn iawn iddo. Serch hynny, ni wnaeth roi i fyny ac fe wthiodd tan y diwedd gan ennill 10 – 9. Roedd y rownd gyn-derfynol yn dipyn o gystadleuaeth yn erbyn Peter Wright gan iddo gael ei wthio reit at y diwedd i *'last leg shoot out'.* Fe enillodd Clayton 11 – 10 a pharatoi am y ffeinal oedd yn cael ei chware yn syth y noson honno. Roedd hi'n ffeinal ddigon cyffrous yn erbyn Mervyn King ac roedd Clayton yn colli 5 – 3 ar un adeg. Ond roedd Clayton wedi dangos yn flaenorol ei fod yn gallu troi'r holl beth â'i ben i waered ac fe welodd ei gyfle gan ennill 11 – 8 ar ddiwedd y noson. O ganlyniad i'w lwyddiant yn ennill y Meistri, mae Jonny Clayton wedi ennill y safle olaf ar gyfer cystadleuaeth yr Uwchgynghrair ble bydd yn cael teithio ar draws dinasoedd Ewrop yn cystadlu yn erbyn 9 chwaraewr arall, gan gynnwys Gerwyn Price.

Fe ddywedodd Jonny Clayton yn un o'i gyfweliadau *"it's a great feeling to be Welsh at the moment in the darts world"* a dwi'n cytnuo'n llwyr. Mae Gerwyn Price a Jonny Clayton wedi creu *buzz* annisgwyl a dwi'n edrych ymlaen i ddilyn y ddau a dathlu eu llwyddiannau dros y blynyddoedd sydd i ddod. Dwi'n bendant fod llawer mwy i ddod gan Yr Iceman a'r Ferret!

**Mared Rhys Jones**

ISSN 2516-7235

9 772516 723001 >